



Deddf Addysg Drydyddol Ac Ymchwil (Cymru) 2022

2022 dsc 1

Nodiadau Esboniadol

Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022

2022 asc 1

Explanatory Notes

£23.85

DEDDF ADDYSG DRYDYDDOL AC YMCHWIL (CYMRU) 2022

NODIADAU ESBONIADOL

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 a basiwyd gan Senedd Cymru ar 28 Mehefin 2022 ac a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 8 Medi 2022. Fe'u lluniwyd gan Gyfarwyddiaeth Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf.
2. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf ond nid ydynt yn rhan ohoni. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Ddeddf, a phan fo adran, neu ran o adran, yn hunanesboniadol a bo'n ymddangos nad oes angen unrhyw esboniad neu sylw pellach, nis rhoddir.

TROSOLWG CYFFREDINOL O'R DDEDDF

3. Mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith statudol newydd ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil a gyllidir yn gyhoeddus yng Nghymru. Mae "addysg drydyddol" yn derm newydd yn y darpariaethau statudol sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru, sy'n cynnwys addysg uwch, addysg bellach a hyfforddiant sy'n addas at anghenion personau sydd wedi cyrraedd 16 oed.
4. Mae 149 o adrannau a 4 Atodlen i'r Ddeddf ac mae wedi ei rhannu yn 7 Rhan fel a ganlyn.

Rhan 1 - Fframwaith Strategol ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil

5. Mae Rhan 1 yn darparu ar gyfer sefydlu corff cyhoeddus newydd, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ("y Comisiwn"). Bydd y corff yn arfer swyddogaethau newydd a grëir gan y Ddeddf, swyddogaethau statudol presennol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ("CCAUC") a llawer o swyddogaethau addysg bellach a hyfforddiant presennol Gweinidogion Cymru. Mae'r rhan fwyaf o'r swyddogaethau statudol presennol hyn wedi eu diddymu ar eu ffurf bresennol ac wedi eu hailddatgan yn y Ddeddf, gydag addasiadau i'w gwneud yn arferadwy gan y Comisiwn (yn hytrach na CCAUC neu Weinidogion Cymru) a chydag addasiadau mewn ffyrdd eraill mewn rhai achosion.
6. Mae Rhan 1 yn nodi dyletswyddau strategol y Comisiwn, yn gofyn am gynllunio strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil gan y Comisiwn ac yn diddymu CCAUC.

TERTIARY EDUCATION AND RESEARCH (WALES) ACT 2022

EXPLANATORY NOTES

INTRODUCTION

1. These Explanatory Notes are for the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022 which was passed by Senedd Cymru on 28 June 2022 and received Royal Assent on 8 September 2022. They have been prepared by the Skills, Higher Education and Lifelong Learning Directorate of the Welsh Government in order to assist the reader of the Act.
2. The Explanatory Notes should be read in conjunction with the Act but they are not a part of it. They are not meant to be a comprehensive description of the Act, and where a section, or part of a section, is self-explanatory and does not seem to require any further explanation or comment, none is provided.

GENERAL OVERVIEW OF THE ACT

3. The Act provides a new statutory framework for publicly funded tertiary education and research in Wales. “Tertiary education” is a new term in the statutory provisions relating to education and training in Wales, which includes higher education, further education and training suitable to the requirements of persons who have attained the age of 16.
4. The Act comprises 149 sections and 4 Schedules and is divided into 7 Parts as follows:

Part 1 – Strategic Framework for Tertiary Education and Research

5. Part 1 provides for the establishment of a new public body, the Commission for Tertiary Education and Research (“the Commission”). The body will exercise new functions created by the Act, the existing statutory functions of the Higher Education Funding Council for Wales (“HEFCW”) and many of the existing further education and training functions of the Welsh Ministers. Most of these existing statutory functions are repealed in their current form and restated in the Act, with modifications to make them exercisable by the Commission (instead of HEFCW or the Welsh Ministers) and with modifications in other respects in some cases.
6. Part 1 sets out the strategic duties of the Commission, requires strategic planning for tertiary education and research by the Commission and abolishes HEFCW.

7. Gwneir darpariaeth i Weinidogion Cymru gael rôl goruchwylio 'hyd braich' mewn cysylltiad â'r Comisiwn. O ran Gweinidogion Cymru –
 - mae'n ofynnol iddynt gyhoeddi datganiad o flaenoriaethau strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil, sydd i lywio gwaith cynllunio strategol y Comisiwn;
 - maent i benodi aelodau'r Comisiwn;
 - cânt roi swyddogaethau atodol i'r Comisiwn drwy reoliadau;
 - cânt roi canllawiau y mae rhaid i'r Comisiwn roi sylw iddynt wrth arfer ei swyddogaethau; a
 - chânt roi cyfarwyddydau cyffredinol i'r Comisiwn ynghylch arfer ei swyddogaethau.
8. Gosodir dyletswyddau hefyd ar y Comisiwn a Gweinidogion Cymru i roi sylw, wrth arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf, i bwysigrwydd diogelu rhyddid academiaidd darparwyr addysg uwch a staff academiaidd darparwyr o'r fath.
9. Mae'r Rhan hon yn cyflwyno Atodlen 1 sy'n nodi statws y Comisiwn; yn gwneud darpariaeth ynghylch aelodaeth y Comisiwn gan gynnwys rhai telerau ac amodau; yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i gael Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi, Pwyllgor Ansawdd a phwyllgor penodi aelod staff. Mae'n ei alluogi i sefydlu pwyllgorau eraill gan gynnwys cyd-bwyllgorau; yn gwneud darpariaethau ynghylch aelodaeth y Comisiwn (gan gynnwys cynrychiolaeth y gweithlu a dysgwyr), archwilio a chyfrifon, dyletswydd i sicrhau gwerth da, gofynion adrodd blynyddol yn ogystal â gofynion gweithredol eraill megis dirprwyo, trafodion, cofrestr buddiannau ac arfer swyddogaethau.
10. Mae'r Rhan hon hefyd yn cyflwyno Atodlen 2 sy'n gwneud darpariaeth ynghylch trosglwyddo eiddo a staff i'r Comisiwn.

Rhan 2 - Cofrestru a Rheoleiddio Darparwyr Addysg Drydyddol

11. Mae Rhan 2 yn ymwneud â chofrestru a rheoleiddio darparwyr addysg drydyddol ac mae wedi ei rhannu'n 4 pennod:
 - mae Pennod 1 yn darparu ar gyfer system newydd ar gyfer cofrestru darparwyr addysg drydyddol (nid yw cofrestru o dan Ran 2 yn ofyniad cyfreithiol ar gyfer darparu addysg drydyddol ynddo'i hun; mae cofrestru yn gysylltiedig â phwerau'r Comisiwn o dan Ran 3 i gyllido addysg drydyddol (gweler yr esboniad o Ran 3 isod));
 - mae Pennod 2 yn gwneud darpariaeth ar gyfer sicrhau ansawdd addysg drydyddol a gyllidir yn gyhoeddus (cofrestredig ac anghofrestredig) drwy fonitro, asesu ac adolygu;
 - mae Pennod 3 yn gwneud darpariaeth ar gyfer ymyrryd mewn sefydliadau addysg bellach (nad yw'n ymwneud â'r system gofrestru a sefydlir gan Bennod 1) a gweithdrefnau ar gyfer arfer yr holl swyddogaethau gorfodi o dan Ran 2;
 - mae Pennod 4 yn gwneud darpariaeth gyffredinol sy'n berthnasol i'r Rhan.

7. Provision is made for the Welsh Ministers to have an ‘arms-length’ supervisory role in respect of the Commission. The Welsh Ministers –
 - are required to publish a statement of strategic priorities for tertiary education and research, which is to inform the Commission’s strategic planning;
 - are to appoint the members of the Commission;
 - may confer supplementary functions on the Commission by regulations;
 - may give guidance to which the Commission must have regard when exercising its functions; and
 - may give general directions to the Commission about the exercise of its functions.
8. Duties are also placed on both the Commission and the Welsh Ministers to have regard, when exercising functions under the Act, to the importance of protecting the academic freedom of higher education providers and academic staff at such providers.
9. This Part introduces Schedule 1 which sets out the status of the Commission; makes provision about membership of the Commission including some terms and conditions; imposes a duty on the Commission to have a Research and Innovation Committee, a Quality Committee and a staff member appointment committee. It enables it to establish other committees including joint committees; makes provisions about memberships of the Commission (including workforce and learner representation), audit and accounts, a duty to ensure good value, annual reporting requirements as well as other operational requirements such as delegations, proceedings, register of interests and the exercise of functions.
10. This Part also introduces Schedule 2 which makes provision about the transfer of property and staff to the Commission.

Part 2 – Registration and Regulation of Tertiary Education Providers

11. Part 2 is about the registration and regulation of tertiary education providers and is divided into 4 chapters:
 - Chapter 1 provides for a new system of registration of tertiary education providers (registration under Part 2 is not a legal requirement for the provision of tertiary education in itself; registration is linked to the Commission’s powers under Part 3 to fund tertiary education (see the explanation of Part 3 below));
 - Chapter 2 makes provision for quality assurance of publicly funded tertiary education (registered and unregistered) through monitoring, assessment and inspection;
 - Chapter 3 makes provision for intervention in further education institutions (unrelated to the registration system established by Chapter 1) and procedures for the exercise of all enforcement functions under Part 2;
 - Chapter 4 makes general provision relevant to the Part.

Pennod 1 – Cofrestru darparwyr addysg drydyddol

12. Rhaid i'r Comisiwn sefydlu a chynnal cofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol yng Nghymru a chaiff darparwyr wneud cais i gael eu cofrestru yn un neu ragor o gategoriâu'r gofrestr. Mae categorïau cofrestru i'w pennu mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Cyfuniad o amodau a osodir yn uniongyrchol gan y Ddeddf ac amodau a osodir ac a gyhoeddir gan y Comisiwn yw'r amodau cofrestru, y mae rhaid iddynt fod yn gymesur â'u nodau. Gosodir dyletswydd ar y Comisiwn i osod rhai amodau ar yr holl ddarparwyr cofrestredig ac mae ganddo ddyletswyddau i osod mathau penodol o amodau ar gyfer mathau penodol o ddarparwr cofrestredig. Rhoddir pŵer iddo hefyd i osod amodau o'i ddewis ei hun.
13. Mae'r amodau mandadol yn y Ddeddf ar gyfer categorïau penodedig o ddarparwyr yn ymwneud â therfynau ffioedd ar gyfer cyrsiau a hybu cyfle cyfartal. Mae'r categorïau o ddarparwr cofrestredig y mae'r darpariaethau hyn yn gymwys iddynt i'w pennu gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau. Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer hefyd, drwy reoliadau, i'w gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn osod amodau eraill ar ddarparwyr cofrestredig.
14. Gosodir dyletswydd ar y Comisiwn i fonitro cydymffurfedd â'r amodau cofrestru, caiff ddarparu cyngor a chynhorthwy i ddarparwyr addysg drydyddol a chaiff gynnal neu drefnu adolygiadau o faterion sy'n berthnasol i gydymffurfedd. Mae gorfodi unrhyw fethiant gan ddarparwr cofrestredig i gydymffurfio ag amodau cofrestru i'w wneud drwy gyfarwyddydau a roddir gan y Comisiwn.
15. Mae'r Bennod hefyd yn gwneud darpariaeth weithdrefnol ar gyfer datgofrestru darparwyr cofrestredig a darpariaeth ar gyfer adolygiadau o benderfyniadau'r Comisiwn gan banel annibynnol.

Pennod 2 – Sicrhau ansawdd a gwella ansawdd

16. Mae Pennod 2 yn rhoi i'r Comisiwn y swyddogaeth o gyhoeddi fframweithiau sicrhau ansawdd at ddiben arwain polisi ac arferion wrth asesu addysg drydyddol gan y Comisiwn, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ("Estyn") neu gorff a ddynodir gan y Comisiwn o dan Bennod 2 i gyflawni swyddogaethau asesu'r Comisiwn mewn cysylltiad ag addysg uwch.
17. Mewn cysylltiad ag addysg drydyddol a ddarperir gan ddarparwyr cofrestredig neu addysg drydyddol a gyllidir gan y Comisiwn neu a sicrheir ganddo –
 - rhaid i'r Comisiwn fonitro'r ansawdd a hybu gwelliant yn yr ansawdd,
 - caiff y Comisiwn ddarparu cyngor neu gynhorthwy i wella ansawdd, a
 - chaiff y Comisiwn gynnal neu drefnu adolygiadau o faterion sy'n berthnasol i ansawdd.
18. Mae gan y Comisiwn ddyletswydd benodol i asesu, neu i drefnu i asesu, addysg uwch a ddarperir gan ddarparwyr cofrestredig neu ar eu rhan; a gosodir dyletswydd ar gyrf llwydraethu darparwyr cofrestredig i gyhoeddi cynlluniau gweithredu yn dilyn yr asesiadau hyn. Rhoddir pŵer i'r Comisiwn i ddynodi corff i arfer ei swyddogaethau asesu addysg uwch. Mae Atodlen 3, a gyflwynir gan y Bennod, yn darparu ar gyfer y broses ar gyfer dynodi corff, goruchwylio'r corff gan y Comisiwn a chodi ffioedd gan y corff dynodedig.

Chapter 1 – Registration of tertiary education providers

12. The Commission must establish and maintain a register of tertiary education providers in Wales and providers may apply to become registered in one or more categories of the register. Categories of registration are to be set in regulations made by the Welsh Ministers. The conditions of registration are a combination of conditions imposed directly by the Act and conditions set and published by the Commission, which must be proportionate to their aims. The Commission is placed under a duty to impose some conditions on all registered providers, and it has duties to set particular kinds of conditions for particular kinds of registered provider. It also is given power to set conditions of its own choosing.
13. The mandatory conditions in the Act for specified categories of provider relate to fee limits for courses and promoting equal opportunity. The categories of registered provider to which these provisions apply are to be specified by the Welsh Ministers by regulations. The Welsh Ministers also have the power by regulations to require the Commission to impose other conditions on registered providers.
14. The Commission is placed under a duty to monitor compliance with the registration conditions, may provide advice and assistance to tertiary education providers and may carry out or arrange reviews of matters relevant to compliance. Enforcement of any failure of a registered provider to comply with conditions of registration is to be by directions given by the Commission.
15. The Chapter also makes procedural provision for de-registration of registered providers and provision for reviews of Commission decisions by an independent panel.

Chapter 2 – Quality assurance and improving quality

16. Chapter 2 gives the Commission the function of publishing quality assurance frameworks for the purpose of guiding policy and practice in the assessment of tertiary education by the Commission, Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training for Wales ("Estyn") or a body designated by the Commission under Chapter 2 to carry out the Commission's assessment functions in respect of higher education.
17. In respect of tertiary education provided by registered providers or tertiary education funded or secured by the Commission, the Commission –
 - must monitor, and promote improvement in, the quality,
 - may provide advice or assistance to improve quality, and
 - may carry out or arrange reviews of matters relevant to quality.
18. The Commission has a specific duty to assess, or arrange assessment, of higher education provided by or on behalf of registered providers; and a duty is placed on the governing bodies of registered providers to publish action plans following these assessments. The Commission is given a power to designate a body to perform its higher education assessment functions. Schedule 3, which is introduced by the Chapter, provides for the process for designation of a body, oversight of the body by the Commission and the charging of fees by the designated body.

19. Mae Pennod 2 yn ailddatgan swyddogaethau Estyn mewn cysylltiad ag arolygu addysg a hyfforddiant ôl-16 a dyletswyddau personau sy'n gyfrifol am ddarparu addysg a arolygir, gydag addasiadau i ystyried y cyd-destun statudol newydd a sefydlir gan y Ddeddf. Mae'r darpariaethau presennol yn adrannau 75 i 80 a 83 i 88 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 wedi eu diddymu.

Pennod 3 – Darpariaethau gorfodi a gweithdrefnol pellach

20. Mae Pennod 3 yn ailddatgan, gydag addasiadau, bŵer presennol Gweinidogion Cymru i ymyrryd yn ymddygiad sefydliadau addysg bellach yng Nghymru pan fo eu cyrff llywodraethu yn methu â chydymffurfio â dyletswyddau, yn gweithredu'n afresymol neu'n perfformio mewn modd annigonol. Mae'n darparu pŵer i'r Comisiwn i atgyfeirio achosion at Weinidogion Cymru pan fo'n ystyried bod seiliau dros ymyrryd. Mae pŵer presennol Gweinidogion Cymru yn adran 57 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 wedi ei ddiddymu.
21. Gwneir darpariaeth i'r Comisiwn roi cyfarwyddydau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr addysg drydyddol penodol nad ydynt yn ddarparwyr cofrestredig gydweithredu. Rhoddir pŵer mynd i mewn ac arolygu i bersonau a awdurdodir gan y Comisiwn at ddiben arfer swyddogaethau'r Comisiwn o dan Ran 2.
22. Mae'r Bennod yn pennu gofynion ar gyfer hysbysiadau rhybuddio sydd i'w rhoi cyn i'r Comisiwn roi cyfarwyddydau mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio ag amodau, hysbysiadau gwrthod datganiadau terfyn ffioedd arfaethedig (neu amrywiadau i ddatganiadau neu ddatganiadau eraill yn eu lle) neu gyfarwyddydau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr penodol nad ydynt yn ddarparwyr cofrestredig gydweithredu. Mae corff llywodraethu darparwr y rhoddir hysbysiad rhybuddio iddo i gael yr hawl i wneud cais am adolygiad o benderfyniad arfaethedig y Comisiwn; ac mae'r adolygiad i'w gynnal gan berson, neu banel o bersonau, a benodir gan Weinidogion Cymru.
23. Gosodir dyletswydd ar y Comisiwn i fonitro cynaliadwyedd ariannol darparwyr cofrestredig a sefydliadau yn y sector addysg bellach a gyllidir gan y Comisiwn ac adrodd arno. Hefyd, gosodir dyletswydd ar y Comisiwn i gyhoeddi datganiad ar sut y mae'n bwriadu arfer ei swyddogaethau ymyrryd o dan Ran 2.

Rhan 3 – Sicrhau Addysg Drydyddol ac Ymchwil a'u Cyllido

24. Mae'r Rhan hon yn darparu ar gyfer cyllido'r Comisiwn gan Weinidogion Cymru, pwerau'r Comisiwn i gyllido addysg drydyddol ac ymchwil, prentisiaethau a dyletswyddau'r Comisiwn i sicrhau darpariaeth cyfleusterau ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant. Mae pwerau cyllido'r Comisiwn mewn cysylltiad ag addysg uwch yn disodli pwerau cyllido presennol CCAUC yn Neddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, sydd wedi eu diddymu. Hefyd, mae'r dyletswyddau i sicrhau addysg bellach a hyfforddiant yn disodli swyddogaethau presennol Gweinidogion Cymru yn adrannau 31 i 33 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, sydd wedi eu diddymu.

19. Chapter 2 restates the functions of Estyn in respect of the inspection of post-16 education and training and the duties of persons responsible for providing education inspected, with modifications to take account of the new statutory context established by the Act. The existing provisions in sections 75 to 80 and 83 to 88 of the Learning and Skills Act 2000 are repealed.

Chapter 3 – Further enforcement and procedural provisions

20. Chapter 3 restates, with modifications, the existing power of the Welsh Ministers to intervene in the conduct of further education institutions in Wales where their governing bodies fail to comply with duties, act unreasonably or perform inadequately. It provides the Commission with a power to refer cases to the Welsh Ministers where it considers there are grounds for intervention. The existing power of the Welsh Ministers in section 57 of the Further and Higher Education Act 1992 is repealed.
21. Provision is made for the Commission to give directions requiring the co-operation of certain tertiary education providers that are not registered providers, in so far as their activities are caught by Part 2. A power of entry and inspection is given to persons authorised by the Commission for the purpose of exercising Commission functions under Part 2.
22. The Chapter specifies requirements for warning notices to be given before the Commission gives directions in respect of failure to comply with conditions, notices of rejection of proposed fee limit statements (or of variations or replacements) or directions requiring the co-operation of certain providers that are not registered providers. The governing body of a provider given a warning notice is to have the right to apply for a review of the Commission's proposed decision; and the review is to be conducted by a person, or panel of persons, appointed by the Welsh Ministers.
23. The Commission is placed under a duty to monitor and report on the financial sustainability of registered providers, and institutions in the further education sector that are funded by the Commission. And the Commission is placed under a duty to publish a statement on how it proposes to exercise its intervention functions under Part 2.

Part 3 – Securing and Funding Tertiary Education and Research

24. This Part provides for the funding of the Commission by the Welsh Ministers, the powers of the Commission to fund tertiary education and research, apprenticeships and the Commission's duties to secure the provision of facilities for further education and training. The funding powers of the Commission in respect of higher education replace the existing funding powers of HEFCW in the Further and Higher Education Act 1992, which are repealed. And the duties to secure further education and training replace the existing functions of the Welsh Ministers in sections 31 to 33 of the Learning and Skills Act 2000, which are repealed.

25. Rhaid i gyllid gan y Comisiwn ar gyfer addysg uwch fod mewn cysylltiad â darparwyr a chysiaau a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Caiff Gweinidogion Cymru hefyd ddarparu cymorth ariannol ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant a gweithgareddau cysylltiedig. Pennir darparwyr drwy gyfeirio at gategori cofrestru o dan Ran 2. Caiff Gweinidogion Cymru hefyd gyllido ystod gyfyngedig o gyrsiau addysg uwch eu hunain.
26. Rhaid i gyllid gan y Comisiwn ar gyfer ymchwil ac arloesi hefyd fod mewn cysylltiad â darparwyr addysg drydyddol sydd wedi eu cofrestru mewn categorïau a bennir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau.

Rhan 4 – Prentisiaethau

27. Mae Rhan 4 yn darparu ar gyfer prentisiaethau Cymreig cymeradwy. Prentisiaethau yw'r rhain a gynhelir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru yn unol â fframweithiau prentisiaethau a gyhoeddir gan y Comisiwn (y caniateir iddynt gael eu llunio gan y Comisiwn neu gan bersonau eraill). Caiff Gweinidogion Cymru bennu gofynion mewn perthynas â phrentisiaethau Cymreig cymeradwy, gan gynnwys gofynion yn ymwneud â cynnwys fframweithiau prentisiaeth neu'n ymwneud â llunio fframweithiau prentisiaeth.

Rhan 5 – Diogelu Dysgwyr, Gweithdrefnau Cwyno ac Ymgysylltu â Dysgwyr

28. Mae Rhan 5 yn darparu ar gyfer cynlluniau diogelu dysgwyr, sef dogfennau sy'n nodi trefniadau'r darparwr addysg drydyddol ar gyfer diogelu buddiannau myfyrwyr sy'n ymgymryd â chysiaau os bydd y cwrs yn peidio â chael ei ddarparu ac ar gyfer cefnogi myfyrwyr sy'n dymuno trosglwyddo i gyrsiau gwahanol.
29. Mae'r Rhan yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gymryd camau i sicrhau bod gan ddarparwyr addysg drydyddol weithdrefnau yn eu lle ar gyfer ymchwilio i gwynion gan fyfyrwyr ac yn estyn ystyr "sefydliad cymhwysol" at ddibenion cynlluniau cwynion myfyrwyr o dan Ddeddf Addysg Uwch 2004.
30. Mae'r Rhan hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn lunio a chyhoeddi Cod Ymgysylltu â Dysgwyr ynghylch cynnwys personau sy'n cael addysg drydyddol mewn penderfyniadau a wneir gan ddarparwyr yr addysg drydyddol.

Rhan 6 – Gwybodaeth, Cyngor a Chanllawiau

31. Mae Rhan 6 yn darparu pwerau a dyletswyddau i roi gwybodaeth, cyngor a chanllawiau. Mae hyn yn cynnwys:
 - dyletswydd ar y Comisiwn i roi cyngor a gwybodaeth ar gais Gweinidogion Cymru a'r pŵer i wneud hynny;
 - pŵer i Weinidogion Cymru i roi gwybodaeth i'r Comisiwn;
 - dyletswydd i ddarparwyr addysg drydyddol penodol a chyrff eraill i roi gwybodaeth ar gais y Comisiwn;
 - pŵer i gyrff cyhoeddus amrywiol i rannu gwybodaeth â'r Comisiwn;
 - dyletswydd i rannu gwybodaeth sy'n ymwneud â cheisiadau am le ar gyrsiau addysg uwch.

25. Funding of higher education by the Commission must be in respect of providers and courses specified in regulations made by the Welsh Ministers. Specification of providers is by reference to category of registration under Part 2. The Welsh Ministers may also fund a limited range of higher education courses themselves.
26. Funding of research and innovation by the Commission must also be in respect of tertiary education providers registered in categories specified by the Welsh Ministers in regulations.

Part 4 – Apprenticeships

27. Part 4 provides for approved Welsh apprenticeships. These are apprenticeships that take place wholly or mainly in Wales in accordance with apprenticeships frameworks published by the Commission (which may be prepared by the Commission or other persons). The Welsh Ministers may specify requirements in relation to approved Welsh apprenticeships, including the content and preparation of apprenticeship frameworks.

Part 5 – Learner Protection, Complaints Procedures and Learner Engagement

28. Part 5 provides for learner protection plans, which are documents setting out a tertiary education provider’s arrangements for protecting the interests of students undertaking courses in the event that the course ceases to be provided and for supporting students who wish to transfer to different courses.
29. The Part requires the Commission to take steps to ensure that tertiary education providers have procedures in place for investigating complaints by students and extends the meaning of “qualifying institution” for the purposes of student complaints schemes under the Higher Education Act 2004.
30. The Part also requires the Commission to prepare and publish a Learner Engagement Code about the involvement of persons receiving tertiary education in decisions made by the providers of the tertiary education.

Part 6 – Information, Advice and Guidance

31. Part 6 provides powers and duties to give information, advice and guidance. This includes:
 - a duty on the Commission to give advice and information on the request of the Welsh Ministers and the power to do so;
 - a power for the Welsh Ministers to give information to the Commission;
 - a duty for certain tertiary education providers and other bodies to give information on request to the Commission;
 - power for various public bodies to share information with the Commission;
 - a duty to share information relating to applications for admission to higher education courses.

32. Mae'r Rhan hon hefyd yn darparu pŵer i'r Comisiwn i roi cyngor ac i ddyroddi canllawiau i unrhyw berson ynghylch darparu addysg drydyddol neu unrhyw fater sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Comisiwn. Yn ogystal, mae'n rhoi i'r Comisiwn a Gweinidogion Cymru bŵer i wneud ymchwil neu i gyllido ymchwil i addysg a hyfforddiant yng Nghymru neu i faterion cysylltiedig.

Rhan 7 - Amrywiol a Chyffredinol

33. Mae'r Rhan hon yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad ag offerynnau ac erthyglau llywodraethu corfforaethau addysg uwch yng Nghymru a diddymu'r corfforaethau hynny. Mae'n cyflwyno dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â'r Comisiwn ynghylch gwasanaethau gyrfaoedd; yn cynnwys darpariaethau ynghylch gweithdrefnau is-ddeddfwriaeth; yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru i wneud darpariaethau trosiannol, canlyniadol etc.; ac yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â chychwyn, dehongli, dod i rym etc.
34. Mae'r Rhan hon yn cyflwyno Atodlen 4 sy'n nodi mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol y mae darpariaethau'r Ddeddf yn effeithio arni.

SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

RHAN 1: FFRAMWAITH STRATEGOL AR GYFER ADDYSG DRYDYDDOL AC YMCHWIL

Y Comisiwn

Adran 1: Sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ac Atodlen 1: Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

35. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer sefydlu'r Comisiwn. Bydd y Comisiwn yn gorff corfforedig â'i bersonoliaeth gyfreithiol ei hun a phwerau a dyletswyddau penodol.
36. Mae'r adran hon hefyd yn cyflwyno Atodlen 1, sy'n gwneud darpariaeth ynghylch aelodaeth, pwyllgorau a threfniadau gweithredol y Comisiwn.
37. Aelodau'r Comisiwn fydd cadeirydd, dirprwy gadeirydd, a rhwng pedwar a phedwar ar ddeg o aelodau arferol, a benodir gan Weinidogion Cymru. Mae'r prif weithredwr hefyd yn aelod. Bydd Gweinidogion Cymru yn penodi'r prif weithredwr cyntaf am gyfnod o hyd at 4 blynedd, gyda phenodiadau yn y dyfodol yn cael eu gwneud gan y Comisiwn, yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.
38. Bydd gan y Comisiwn aelodau cyswllt hefyd a fydd yn cynrychioli'r gweithlu addysg drydyddol (academaidd ac anacademaidd), staff y Comisiwn a dysgwyr mewn addysg drydyddol.

32. This Part also provides a power to the Commission to give advice and issue guidance to any person about the provision of tertiary education or any matter connected to the Commission's functions. And it gives the Commission and the Welsh Ministers power to carry out or fund research into education and training in Wales or connected matters.

Part 7 Miscellaneous and General

33. This Part makes provision in respect of instruments and articles of government of higher education corporations in Wales and the dissolution of such corporations. It introduces a duty on Welsh Ministers to consult the Commission about careers services; contains provisions on subordinate legislation procedures; provides powers for the Welsh Ministers to make transitional, consequential etc. provisions; and makes provision in respect of commencement, interpretation, coming into force etc.
34. This Part introduces Schedule 4 which sets out minor and consequential amendments to primary legislation affected by the Act's provisions.

COMMENTARY ON SECTIONS

PART 1: STRATEGIC FRAMEWORK FOR TERTIARY EDUCATION AND RESEARCH

The Commission

Section 1: Establishment of the Commission for Tertiary Education and Research & Schedule 1: Commission for Tertiary Education and Research

35. This section provides for the establishment of the Commission. The Commission will be a body corporate with its own legal personality and specific powers and duties.
36. This section also introduces Schedule 1, which makes provision about the Commission's membership, committees and operational arrangements.
37. The Commission's members will comprise of a chair, deputy chair and between four and fourteen ordinary members, appointed by the Welsh Ministers. The chief executive is also a member. The Welsh Ministers will appoint the first chief executive for a period of up to 4 years, with future appointments being made by the Commission, subject to approval of the Welsh Ministers.
38. The Commission will also have associate members who will represent the tertiary education workforce (both academic and non-academic), the Commission's staff and learners in tertiary education.

39. Mae paragraff 5 yn nodi'r broses benodi ar gyfer aelodau cyswllt y gweithle. Mae hyn yn cynnwys gofyniad i Weinidogion Cymru gyhoeddi rhestr o undebau llafur a fydd yn enwebu cynrychiolwyr o'r gweithlu addysg drydyddol academiaidd a'r gweithlu addysg drydyddol anacademaidd. I fod yn gymwys i fod yn aelod cyswllt y gweithlu, rhaid i berson fod wedi ei gyflogi gan ddarparwr addysg drydyddol yng Nghymru a bod yn aelod o undeb llafur ar y rhestr berthnasol a gyhoeddwyd yn fwyaf diweddar. Disgwylir y bydd y broses ymgynghori ar gyfer llunio'r rhestr o undebau llafur yn arwain at sefyllfa pan fydd yr undebau llafur a restrir yn cael eu cydnabod gan y darparwyr addysg drydyddol.
40. Mae paragraff 6 yn nodi'r broses ar gyfer penodi aelod cyswllt staff y Comisiwn. Rhaid i bwyllgor penodi aelod y staff (a sefydlir o dan baragraff 11(5)) benodi person o blith ymgeiswyr a enwebir gan bob un o'r undebau llafur a gydnabyddir gan y Comisiwn. I fod yn gymwys i fod yn aelod cyswllt staff y Comisiwn, rhaid i berson fod wedi ei gyflogi gan y Comisiwn a bod yn aelod o undeb llafur a gydnabyddir gan y Comisiwn.
41. Mae paragraff 7 yn nodi'r broses benodi ar gyfer aelod cyswllt y dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys gofyniad i Weinidogion Cymru gyhoeddi rhestr o gyrff sy'n cynrychioli buddiannau dysgwyr sy'n ymgymryd ag addysg drydyddol yng Nghymru. Bydd aelod cyswllt y dysgwyr yn cael ei benodi gan Weinidogion Cymru o blith enwebiadau a wneir gan gyrff ar y rhestr. Disgwylir y bydd y rhestr hon yn cynnwys Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru ynghyd â chyrff cynrychioliadol eraill. I fod yn gymwys i fod yn aelod cyswllt y dysgwyr, rhaid i berson fod wedi bod yn ddysgwr a oedd yn ymgymryd ag addysg drydyddol yn y 3 blynedd cyn cael ei benodi a rhaid ei fod yn dal swydd neu aelodaeth o gorff ar y rhestr a gyhoeddwyd.
42. Bydd gan y Comisiwn bwyllgor o'r enw'r Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi at ddiben ei gynghori ynghylch materion sy'n ymwneud ag ymchwil ac arloesi. Penodir cadeirydd y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi gan Weinidogion Cymru ac ef hefyd fydd dirprwy gadeirydd y Comisiwn (a bydd person sy'n peidio â dal un swydd neu sy'n cael ei atal dros dro o'r swydd honno hefyd yn peidio â dal y swydd arall neu'n cael ei atal dros dro ohoni). Rhaid i'r Comisiwn hefyd sefydlu pwyllgor o'r enw'r Pwyllgor Ansawdd i'w gynghori ar ansawdd addysg drydyddol a gyllidir ganddo neu a sicrheir ganddo, a phwyllgor penodi aelod y staff. Caiff sefydlu pwyllgorau a chyd-bwyllgorau eraill, a chaiff ddirprwyo swyddogaethau i'w bwyllgorau.
43. Mae Atodlen 1 hefyd yn cynnwys darpariaeth ynghylch cyfrifon ac archwilio, adroddiadau blynyddol, gweithdrefnau, cofrestr buddiannau a phwerau atodol y Comisiwn.

Dyletswyddau strategol y Comisiwn

44. Dyletswyddau strategol bras o natur uchelgeisiol yw adrannau 2 i 12, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn hybu neu annog canlyniadau a bennir yn yr adrannau. Nid yw'r darpariaethau yn pennu graddau na natur y gweithgaredd y mae rhaid i'r Comisiwn ymgymryd ag ef mewn unrhyw fanylder ac mae natur benagored y canlyniadau a bennir yn rhoi i'r Comisiwn ddisgresiwn eang o ran natur a graddau y camau y mae'n eu cymryd i'w cyflawni.

39. Paragraph 5 sets out the appointments process for the associate workforce members. This includes a requirement for the Welsh Ministers to publish lists of trade unions who will nominate representatives of the academic tertiary education workforce and non-academic tertiary education workforce. To be eligible to be an associate workforce member, a person must be employed by a provider of tertiary education in Wales and be a member of a trade union on the most recently published relevant list. It is expected that the consultation process for compiling the list of trade unions will lead to a position where the trade unions listed will be recognised by the tertiary education providers.
40. Paragraph 6 sets out the process for the appointment of an associate Commission staff member. A staff member appointment committee (established under paragraph 11(5)) must appoint a person from candidates nominated by each trade union recognised by the Commission. To be eligible to be an associate Commission staff member, a person must be employed by the Commission and be a member of a trade union recognised by the Commission.
41. Paragraph 7 sets out the appointment process for the associate learner member. This includes a requirement for the Welsh Ministers to publish a list of bodies representing the interests of learners undertaking tertiary education in Wales. The associate learner member will be appointed by the Welsh Ministers from nominations made by bodies on the list. It is anticipated this list will include the National Union of Students Wales along with other representative bodies. To be eligible to be an associate learner member, a person must have been a learner undertaking tertiary education in the 3 years before being appointed and must hold an office or membership of a body on the published list.
42. The Commission will have a committee called the Research and Innovation Committee for the purpose of advising it about matters relating to research and innovation. The chair of the Research and Innovation Committee is appointed by the Welsh Ministers and will also be the deputy chair of the Commission (and a person who ceases to hold one position or who is suspended from that position will also cease to hold the other position or be suspended from it). The Commission must also establish a committee called the Quality Committee to advise it on the quality of tertiary education funded or secured by it, and a staff member appointment committee. It can establish other committees and joint committees and can delegate functions to its committees.
43. Schedule 1 also contains provision about the Commission's audit and accounts, annual reports, procedures, register of interests and supplementary powers.

The Commission's strategic duties

44. Sections 2 to 12 are broadly framed strategic duties of an aspirational nature, which require the Commission to promote or encourage outcomes specified in the sections. The provisions do not specify the extent or nature of the activity the Commission must undertake in any detail and the open-ended nature of the outcomes specified gives the Commission wide discretion as to the nature and extent of the action it takes to achieve them.

Adran 2: Hybu dysgu gydol oes

45. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn hybu dysgu gydol oes ar gyfer pobl Cymru. Nid yw dysgu gydol oes yn derm a ddiffinnir yn yr adran hon, ond caiff ei grynhai gan ei darpariaethau, sy'n disgrifio addysg drydyddol –
- sy'n darparu cyfleoedd i bobl i gymryd rhan drwy gydol eu bywydau o 16 oed,
 - sy'n cynnwys amrywiaeth o lefelau a chymwysterau,
 - sy'n cynnwys amrywiaeth o leoliadau a dulliau astudio,
 - sydd wedi ei threfnu'n gydlynol i hwyluso symudiad drwy gamau gwahanol addysg ac i gyflogaeth neu fusnes,
 - sydd fel arall yn bodloni gofynion gwahanol y rheini sy'n dymuno ymgymryd ag addysg drydyddol.

Adran 3: Hybu cyfle cyfartal

46. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn hybu cynyddu cyfranogiad gan aelodau o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg drydyddol Gymreig a hybu cadw aelodau o grwpiau o'r fath a chynyddu cyfranogiad, gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, mewn gwaith ymchwil ac arloesi a wneir yng Nghymru.

Adran 4: Annog cyfranogiad mewn addysg drydyddol

47. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn annog unigolion, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (fel y'u diffinnir gan adran 2 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018), a chyflogwyr yng Nghymru i gymryd rhan yn narpariaeth addysg drydyddol.

Adran 5: Hybu gwelliant parhaus mewn addysg drydyddol

48. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn hybu gwelliant parhaus yn ansawdd addysg drydyddol Gymreig. Mae'r adran hefyd yn pennu materion y mae rhaid i'r Comisiwn roi sylw iddynt wrth gyflawni'r ddyletswydd.

Adran 6: Hybu gwaith ymchwil ac arloesi

49. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn hybu gwneud gwaith ymchwil ac arloesi yng Nghymru, a hybu gwneud gwaith ymchwil ac arloesi, a gweithgareddau cysylltiedig gan bersonau perthnasol drwy gyfrwng y Gymraeg.
50. Rhaid i'r Comisiwn hybu cydlafurio ar waith ymchwil ac arloesi, yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn y byd, rhwng personau perthnasol, a rhwng personau perthnasol ac eraill. Rhaid i'r Comisiwn hefyd hybu gwelliant parhaus yn ansawdd gwaith ymchwil ac arloesi a wneir gan bersonau perthnasol, a chystadleurwydd y gwaith ymchwil ac arloesi hwnnw o'i gymharu â gwaith ymchwil ac arloesi a wneir gan bersonau eraill.
51. Mae is-adran (2) yn diffinio person perthnasol at ddiben yr adran hon.

Section 2: Promoting life-long learning

45. This section requires the Commission to promote life-long learning for the people of Wales. Life-long learning is not a defined term in the section, but is encapsulated by its provisions, which describe tertiary education that—
- provides opportunities for people to participate throughout their lives from the age of 16,
 - includes variety of levels and qualifications,
 - includes a variety of settings and modes of study,
 - is organised coherently to facilitate movement through different stages of education and into employment or business,
 - otherwise meets the different requirements of those who wish to undertake tertiary education.

Section 3: Promoting equality of opportunity

46. This section requires the Commission to promote increased participation by, and retention of, members of under-represented groups in Welsh tertiary education and increased participation in the carrying out of research and innovation by under-represented groups in Wales.

Section 4: Encouraging participation in tertiary education

47. This section requires the Commission to encourage individuals, including those who have additional learning needs (as defined by section 2 of the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018), and employers in Wales to participate in the provision of tertiary education.

Section 5: Promoting continuous improvement in tertiary education

48. This section requires the Commission to promote continuous improvement in the quality of Welsh tertiary education. The section also specifies matters to which the Commission must have regard when discharging the duty.

Section 6: Promotion of research and innovation

49. This section requires the Commission to promote the carrying out of research and innovation in Wales, and the carrying out of research and innovation, and related activities, through the medium of Welsh by relevant persons.
50. The Commission must promote collaboration on research and innovation, both in Wales and elsewhere in the world, between relevant persons, and between relevant persons and others. The Commission must also promote continuous improvement in the quality of research and innovation carried out by relevant persons, and the competitiveness of that research and innovation compared to research and innovation carried out by other persons.
51. Subsection (2) defines a relevant person for the purpose of this section.

Adran 7: Hybu cydlafurio a chydlynu mewn addysg drydyddol ac ymchwil

52. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn hybu cydlafurio rhwng darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru, ysgolion yng Nghymru, a chyflogwyr, yn ogystal â hybu cydlynu yn narpariaeth addysg drydyddol gan ddarparwyr yng Nghymru a chysoni'r ddarpariaeth honno â gwaith ymchwil ac arloesi.

Adran 8: Cyfrannu at economi gynaliadwy ac arloesol

53. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn hybu addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru sy'n cyfrannu at ddatblygu economi gynaliadwy ac arloesol. Mae'r adran hefyd yn pennu materion y mae rhaid i'r Comisiwn roi sylw iddynt wrth gyflawni'r ddyletswydd ac yn diffinio economi gynaliadwy.

Adran 9: Hybu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg

54. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i annog y galw am addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg a chyfranogiad ynddi. Rhaid i'r Comisiwn hefyd gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod digon o addysg drydyddol yn cael ei darparu yng Nghymru drwy gyfrwng y Gymraeg i ateb y galw.
55. Rhaid i Weinidogion Cymru ddynodi person i roi cyngor i'r Comisiwn at ddiben ei gynorthwyo i gyflawni ei ddyletswyddau o dan yr adran hon. Rhaid i'r Comisiwn roi sylw i unrhyw gyngor perthnasol a roddir iddo gan y person hwnnw.
56. Ni chaniateir i berson gael ei ddynodi ond os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn addas i roi cyngor ar y materion a restrir yn is-adran (4). Nid yw'r ddyletswydd i ddynodi person yn gymwys os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried nad oes unrhyw berson sy'n addas i roi cyngor ar y materion a restrir, neu os nad oes neb yn cytuno i gael ei ddynodi.

Adran 10: Hybu cenhadaeth ddinesig

57. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i hybu cyflawni cenhadaeth ddinesig gan sefydliadau yng Nghymru yn y sector addysg bellach a'r sector addysg uwch. "Rhoddir y pŵer i'r Comisiwn hefyd i hybu cyflawni cenhadaeth ddinesig gan bersonau eraill a gyllidir gan y Comisiwn." Diffinnir "cenhadaeth ddinesig" yn is-adran (3) fel "gweithredu at ddiben hybu neu wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol Cymru (gan gynnwys gweithredu sydd wedi ei anelu at gyflawni unrhyw un neu ragor o'r nodau llesiant yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2))".

Adran 11: Hybu golwg fyd-eang

58. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn hybu cyfleoedd i bobl yng Nghymru i addysgu ac astudio addysg drydyddol mewn mannau eraill yn y byd ac i bobl y tu allan i Gymru i astudio neu addysgu yng Nghymru. Rhaid i'r Comisiwn hybu cyfleoedd i fuddiannau cyfnewidfeydd o'r fath gael eu defnyddio ar gyfer llesiant Cymru. Rhaid iddo hefyd hybu cydlafurio rhwng darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru a'r rheini mewn mannau eraill yn y byd.

Section 7: Promoting collaboration and coherence in tertiary education and research

52. This section requires the Commission to promote collaboration between providers of tertiary education in Wales, schools in Wales, and employers, as well as coherence in the provision of tertiary education by providers in Wales and the alignment of this provision with research and innovation.

Section 8: Contributing to a sustainable and innovative economy

53. This section requires the Commission to promote tertiary education and research in Wales that contributes to the development of a sustainable and innovative economy. The section also specifies matters to which the Commission must have regard when discharging the duty and defines sustainable economy.

Section 9: Promoting tertiary education through the medium of Welsh

54. This section imposes a duty on the Commission to encourage demand for and participation in Welsh medium tertiary education. The Commission must also take all reasonable steps to ensure there is sufficient Welsh medium tertiary education provided in Wales to meet demand.
55. The Welsh Ministers must designate a person to provide advice to the Commission for the purpose of assisting it in the discharge of its duties under this section. The Commission must have regard to any relevant advice given to it by that person.
56. A person may only be designated if the Welsh Ministers consider them to be suitable to give advice on the matters listed in subsection (4). The duty to designate a person does not apply if the Welsh Ministers consider there is no person suitable to give advice on the listed matters, or if no one agrees to be designated.

Section 10: Promoting a civic mission

57. This section places a duty on the Commission to promote the pursuit of a civic mission by institutions in Wales within the further education sector and higher education sector. The Commission is also given the power to promote the pursuit of a civic mission by other persons who are funded by the Commission. "Civic mission" is defined in subsection (3) as, "action for the purpose of promoting or improving the economic, social, environmental or cultural well-being of Wales (including action aimed at achieving any of the well-being goals in section 4 of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 (anaw 2))".

Section 11: Promoting a global outlook

58. This section requires the Commission to promote opportunities for people in Wales to teach and study tertiary education elsewhere in the world and for people outside Wales to study or teach in Wales. The Commission must promote opportunities for the benefits of such exchanges to be used for the well-being of Wales. It must also promote collaboration between providers of tertiary education in Wales and those elsewhere in the world.

Adran 12: Hybu cydlafurio rhwng darparwyr addysg drydyddol ac undebau llafur

59. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn hybu cydlafurio rhwng darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru ac undebau llafur, pan fo'r Comisiwn yn ystyried y byddai'r cydlafurio yn debygol o helpu i gyflawni dyletswyddau strategol y Comisiwn (adrannau 2 i 11 o'r Ddeddf).
60. Rhaid i undeb llafur naill ai gael ei gynrychioli gan Wales TUC Cymru, neu rhaid i'r Comisiwn ystyried ei fod yn cynrychioli aelodau o'r gweithlu addysg drydyddol, hynny yw:
- athrawon sy'n darparu addysg drydyddol,
 - pobl sy'n darparu cymorth i'r athrawon hynny, a
 - phobl sy'n darparu cymorth i ddysgwyr i gymryd rhan mewn addysg drydyddol.

Strategaeth ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil

Adran 13: Datganiad o flaenoriaethau strategol

61. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi datganiad sy'n nodi eu blaenoriaethau strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi. Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio neu amnewid y datganiad. Rhaid cyhoeddi unrhyw ddiwygiadau.

Adran 14: Cynllun strategol ar gyfer y Comisiwn

62. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i lunio cynllun strategol sy'n nodi sut y mae'n bwriadu cyflawni ei ddyletswyddau strategol ac ymdrin â'r blaenoriaethau yn y datganiad o flaenoriaethau strategol a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru (is-adran (1)). Wrth lunio'r cynllun, rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â'r personau hynny y mae'n ystyried eu bod yn briodol (is-adran (2)).

Adran 15: Cymeradwyo, cyhoeddi a gweithredu'r cynllun strategol

63. Rhaid i gynllun strategol a gaiff ei lunio o dan adran 14 gael ei anfon at Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo o fewn chwe mis i gyhoeddi datganiad o flaenoriaethau Gweinidogion Cymru o dan adran 13 (is-adran (1)).
64. Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i gymeradwyo'r cynllun gydag addasiadau neu hebddynt, ond rhaid iddynt geisio cytundeb y Comisiwn i bob addasiad y maent yn bwriadu ei wneud i'r cynllun cyn iddynt addasu'r cynllun (is-adrannau (2) a (3)).
65. Caiff Gweinidogion Cymru gymeradwyo cynllun gydag addasiadau nad yw'r Comisiwn wedi cytuno iddynt, fodd bynnag rhaid iddynt roi'r rhesymau dros yr addasiadau i'r Comisiwn a rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi'r rhesymau hynny pan fydd yn cyhoeddi'r cynllun fel sy'n ofynnol gan is-adran (5).
66. Mae is-adran (6) yn darparu y caiff y Comisiwn gyflawni ei ddyletswydd i gyhoeddi ei ddatganiad ynghylch amcanion llesiant o dan adran 7 o Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2) drwy gynnwys y datganiad yn ei gynllun strategol cymeradwy.
67. Mae is-adran (7) yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i gymryd pob cam rhesymol i weithredu'r cynllun strategol.

Section 12: Promoting collaboration between providers of tertiary education and trade unions

59. This section requires the Commission to promote collaboration between providers of tertiary education in Wales and trade unions, where the Commission considers the collaboration would likely help in the discharge of the Commission's strategic duties (sections 2 to 11 of the Act).
60. A trade union must either be represented by Wales TUC Cymru, or the Commission must consider that it represents members of the tertiary education workforce, that is:
- teachers providing tertiary education,
 - people providing support to those teachers, and
 - people providing support to learners to participate in tertiary education.

Strategy for tertiary education and research

Section 13: Statement of strategic priorities

61. This section places the Welsh Ministers under a duty to publish a statement setting out their strategic priorities for tertiary education and research and innovation. The statement may be amended or replaced by the Welsh Ministers. Any amendments must be published.

Section 14: Strategic plan for the Commission

62. This section places the Commission under a duty to prepare a strategic plan setting out how it intends to discharge its strategic duties and to address the priorities in the statement of strategic priorities published by the Welsh Ministers (subsection (1)). In preparing the plan, the Commission must consult such persons it considers appropriate (subsection (2)).

Section 15: Approval, publication and implementation of strategic plan

63. A strategic plan prepared under section 14 must be sent to the Welsh Ministers for approval within six months of the publication of the Welsh Ministers' statement of priorities under section 13 (subsection (1)).
64. The Welsh Ministers have the power to approve the plan with or without modifications, although they must seek the agreement of the Commission for each modification they propose making to the plan before they modify the plan (subsections (2) and (3)).
65. The Welsh Ministers may approve a plan with modifications that have not been agreed by the Commission, however they must provide the Commission with the reasons for the modifications and the Commission must publish those reasons when it publishes the plan as required by subsection (5).
66. Subsection (6) provides that the Commission may discharge its duty to publish its statement about well-being objectives under section 7 of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 (anaw 2) by including the statement in its approved strategic plan.
67. Subsection (7) places a duty on the Commission to take all reasonable steps to implement the strategic plan.

Adran 16: Adolygu'r cynllun strategol

68. Mae'r adran hon yn amlinellu'r broses sydd i'w dilyn gan y Comisiwn wrth adolygu a diwygio ei gynllun strategol.
69. Rhaid i'r Comisiwn adolygu ei gynllun strategol os yw Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi diwygiadau i'w datganiad o flaenoriaethau strategol o dan adran 13 ar ôl i'r Comisiwn gyhoeddi ei gynllun strategol cymeradwy. Mae gan y Comisiwn y pŵer hefyd i adolygu ei gynllun strategol ar unrhyw adeg arall.
70. Pan fo unrhyw adolygiad o'r cynllun strategol yn arwain at ddiwygio'r cynllun, mae adran 14 yn gymwys i unrhyw ddiwygiad i'r cynllun fel y mae'n gymwys i lunio'r cynllun.
71. Rhaid anfon cynllun strategol diwygiedig at Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo o fewn chwe mis pan fo'r diwygiad o ganlyniad i Weinidogion Cymru gyhoeddi diwygiadau i'w datganiad o dan adran 14(2); neu pan fo'r diwygiad o ganlyniad i'r Comisiwn adolygu ei gynllun strategol ar unrhyw adeg arall, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Mae darpariaethau adran 15(2) i (6) yn gymwys i gynllun diwygiedig.

Rhyddid academaidd ac awtonomi sefydliadol

Adran 17: Rhyddid academaidd darparwyr a staff addysg uwch

72. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a'r Comisiwn roi sylw i'r angen i ddiogelu rhyddid academaidd darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru sy'n darparu addysg uwch neu ymchwil ac arloesi a staff academaidd y darparwyr hynny (is-adran (1)).
73. Diffinnir "rhyddid academaidd" mewn perthynas â darparwyr addysg drydyddol yn is-adran (2) fel y rhyddid i benderfynu cynnwys cyrsiau addysg uwch a'r modd y cânt eu haddysgu, eu goruchwyllo a'u hasesu, y meini prawf ar gyfer derbyn myfyrwyr ar gyrsiau addysg uwch, a'r meini prawf ar gyfer dethol a phenodi staff academaidd (is-adran (2)).
74. Diffinnir "rhyddid academaidd" mewn perthynas â staff academaidd yn is-adran (2) fel eu rhyddid o fewn y gyfraith i gwestiynu a phrofi doethineb cyffredin ac i gyflwyno syniadau newydd a lleisio barn ddadleuol neu amhoblogaidd, heb eu rhoi eu hunain mewn perygl o golli eu swyddi neu golli eu breintiau yn y darparwyr.

Adran 18: Awtonomi sefydliadol darparwyr addysg drydyddol

75. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a'r Comisiwn, wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf hon, roi sylw i ddiogelu'r rhyddid o fewn y gyfraith i ddarparwyr addysg drydyddol yng Nghymru i reoli o ddydd i dydd mewn modd effeithiol a medrus.

Section 16: Review of strategic plan

68. This section outlines the process to be followed by the Commission in reviewing and revising its strategic plan.
69. The Commission must review its strategic plan if the Welsh Ministers publish amendments to its statement of strategic priorities under section 13 after the Commission has published its approved strategic plan. The Commission also has the power to review its strategic plan at any other time.
70. Where any review of the strategic plan leads to the plan being revised, section 14 applies to any revision of the plan as it applies to preparation of the plan.
71. A revised strategic plan must be sent to the Welsh Ministers for approval within six months where the revision is in consequence of the Welsh Ministers publishing amendments to their statement under section 14(2); or where the revision is in consequence of the Commission reviewing its strategic plan at any other time, as soon as reasonably practicable. The provisions of section 15(2) to (6) apply to a revised plan.

Academic freedom and institutional autonomy

Section 17: Academic freedom of higher education providers and staff

72. This section requires the Welsh Ministers and the Commission to have regard to the need to protect the academic freedom of tertiary education providers in Wales that provide higher education or research and innovation and of academic staff at those providers (subsection (1)).
73. “Academic freedom” in relation to tertiary education providers is defined in subsection (2) as the freedom to determine the content, teaching, supervision and assessment of higher education courses, the criteria for admission to higher education courses, and the criteria for selecting and appointing academic staff (subsection (2)).
74. “Academic freedom” in relation to academic staff is defined in subsection (2) as their freedom within the law to question and test received wisdom and to put forward new ideas and controversial or unpopular opinions, without jeopardising their employment or privileges at the provider.

Section 18: Institutional autonomy of tertiary education providers

75. This section requires the Welsh Ministers and the Commission when exercising their functions under this Act to have regard to protecting the freedom of tertiary education providers in Wales within the law to conduct their day to day management in an effective and competent manner.

Cydnawsedd â chyfraith elusennau

Adran 19: Cydnawsedd â chyfraith elusennau a dogfennau llywodraethu darparwyr addysg drydyddol

76. Effaith yr adran hon yw na all unrhyw ofynion y caiff y Comisiwn neu Weinidogion Cymru eu gosod ar gyrff llywodraethu darparwyr addysg drydyddol o dan y Ddeddf hon (e.e. amodau cofrestru neu gyfarwyddydau) ei gwneud yn ofynnol i'r gyrff llywodraethu hynny weithredu mewn modd sy'n torri eu rhwymedigaethau fel ymddiriedolwyr elusennau, na'i gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu weithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'u dogfennau llywodraethu.
77. At y dibenion hyn, diffinnir dogfennau llywodraethu darparwyr addysg drydyddol yn is-adran (2) mewn perthynas â darparwyr a sefydlwyd drwy Siarter Frenhinol, darparwyr sy'n cael eu rhedeg gan gorfforaethau addysg uwch neu gorfforaethau addysg bellach, darparwyr sy'n sefydliadau a ddynodir o dan adran 129 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 neu adran 28 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, ysgolion a darparwyr sy'n cael eu rhedeg gan gwmnïau.

Canllawiau a chyfarwyddydau Gweinidogion Cymru

Adran 20: Canllawiau

78. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i'r Comisiwn roi sylw i ganllawiau a roddir iddo gan Weinidogion Cymru.

Adran 21: Pŵer Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddydau cyffredinol

79. Mae is-adran (1) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddyroddi cyfarwyddydau cyffredinol i'r Comisiwn ynghylch arfer unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau. Mae cyfarwyddyd a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau a nodir yn is-adrannau (2), (3) a (5).
80. Nid yw'r cyfyngiadau a nodir o dan is-adrannau (2) a (3) yn atal unrhyw gyfarwyddyd a ddyroddir o dan yr adran hon rhag cael ei lunio drwy gyfeirio at ddarparu ac asesu cwrs astudio, neu rannau o gyrsiau astudio, drwy gyfrwng y Gymraeg (is-adran (4)). Diben y cyfyngiadau yw diogelu awtonomi sefydliadol darparwyr addysg drydyddol ac ymchwil, rhyddid academaidd darparwyr addysg uwch a gallu'r Comisiwn i bennu dyraniadau cyllid i ddarparwyr unigol.
81. Mae is-adran (6) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn cyn dyroddi cyfarwyddyd cyffredinol. Mae is-adran (7) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gadw unrhyw gyfarwyddyd a roddir i'r Comisiwn o dan adolygiad. Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd gyhoeddi unrhyw gyfarwyddyd cyffredinol a roddir i'r Comisiwn o dan yr adran hon ac adrodd am unrhyw gyfarwyddydau o'r fath i'r Senedd. Mae is-adran (8) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gydymffurfio â chyfarwyddyd cyffredinol a roddir gan Weinidogion Cymru.
82. Mae is-adran (8) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gydymffurfio â chyfarwyddyd cyffredinol a roddir gan Weinidogion Cymru.

Compatibility with charity law

Section 19: Compatibility with charity law and governing documents of tertiary education providers

76. The effect of this section is that any requirements that the Commission or the Welsh Ministers may impose on the governing bodies of tertiary education providers under this Act (e.g. registration conditions or directions) cannot require those governing bodies to act in breach of their obligations as charity trustees, nor require governing bodies to act in a manner incompatible with their governing documents.
77. For these purposes, the governing documents of tertiary education providers are defined in subsection (2) in relation to providers established by Royal Charter, providers conducted by higher education corporations or further education corporations, providers that are institutions designated under section 129 of the Education Reform Act 1988 or section 28 of the Further and Higher Education Act 1992, schools and providers conducted by companies.

Welsh Ministers' guidance and directions

Section 20: Guidance

78. This section provides that the Commission must have regard to guidance given to it by Welsh Ministers.

Section 21: The Welsh Ministers' power to give general directions

79. Subsection (1) enables the Welsh Ministers to issue general directions to the Commission about the exercise of any of its functions. A direction issued by the Welsh Ministers under this section is subject to the limitations that are set out in subsections (2), (3) and (5).
80. The limitations set out under subsections (2) and (3) do not prevent any direction issued under this section from being framed by reference to a course of study, or parts of courses of study, being provided and assessed through the medium of Welsh (subsection (4)). The purpose of the limitations is to protect the institutional autonomy of tertiary education and research providers, the academic freedom of higher education providers and the ability of the Commission to determine funding allocations to individual providers.
81. Subsection (6) requires the Welsh Ministers to consult the Commission before issuing a general direction. Subsection (7) requires the Welsh Ministers to keep any general direction given to the Commission under review. The Welsh Ministers must also publish any general direction given to the Commission under this section and report any such directions to the Senedd.
82. Subsection (8) requires the Commission to comply with a general direction given by the Welsh Ministers.

Swyddogaethau ychwanegol

Adran 22: Swyddogaethau ychwanegol y Comisiwn

83. Mae is-adran (1) yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi swyddogaethau atodol i'r Comisiwn drwy reoliadau. Rhaid i swyddogaeth atodol a roddir i'r Comisiwn o dan y pwerau hyn ymwneud ag addysg drydyddol, neu ymchwil ac arloesi, a bod yn arferadwy gan Weinidogion Cymru (is-adran (2)).
84. Mae is-adrannau (3) a (4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo y caiff eu swyddogaethau mewn perthynas â thir neu eiddo arall sefydliad yng Nghymru o fewn y sector addysg uwch neu bellach, fod yn arferadwy gan y Comisiwn. Mae swyddogaethau Gweinidogion Cymru yn codi pan fo ganddynt hawlogaeth i hawl neu fuddiant mewn cysylltiad â'r eiddo hwnnw. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn arfer y swyddogaethau hyn yn unol â chyfarwyddydau a roddir gan Weinidogion Cymru (is-adran (5)).

Diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Adran 23: Diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

85. Mae'r adran hon yn diddymu CCAUC.

Adran 24 ac Atodlen 2: Cynlluniau trosglwyddo

86. Mae'r adran hon yn cyflwyno Atodlen 2 sy'n gwneud darpariaeth ynghylch cynlluniau ar gyfer trosglwyddo staff, eiddo, hawliau ac atebolrwyddau o ganlyniad i sefydlu'r Comisiwn a diddymu CCAUC.

RHAN 2: COFRESTRU A RHEOLEIDDIO DARPARWYR ADDYSG DRYDYDDOL

Pennod 1: Cofrestru Darparwyr Addysg Drydyddol

Y gofrestr a'r weithdrefn gofrestru

Adran 25: Y gofrestr

87. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn sefydlu a chadw cofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol yng Nghymru. Rhaid i'r Comisiwn gofrestru'r darparwyr hynny sy'n gwneud cais i gael eu cofrestru ac sy'n bodloni'r amodau cofrestru (is-adran (4)). Mae gwneud cais i gofrestru yn fater gwirfoddol.
88. Mae'r gofrestr, drwy ddefnyddio amodau cofrestru (gweler adrannau 27 i 35), yn darparu dull o reoleiddio'r darparwyr hynny. Ar y cyd â'r rheoliadau cymorth i fyfyrwyr diwygiedig a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, bydd cofrestru hefyd yn pennu cymhwystra darparwr ar gyfer dynodiad awtomatig i gael cymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru.
89. Mae'r gofrestr i'w rhannu'n categorïau cofrestru gwahanol a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru (is-adran (2)). Bwriedir i'r categorïau cofrestru ganiatáu amrywiadau priodol o ran yr amodau cofrestru sy'n ofynnol ar gyfer mathau gwahanol o ddarparwyr cofrestredig sy'n cael mathau gwahanol o gyllid cyhoeddus. Caiff rheoliadau wahardd darparwr rhag cofrestru mewn un categori tra'i fod wedi ei gofrestru mewn un neu ragor o categorïau eraill (is-adran (5)).

Additional functions

Section 22: Additional functions of the Commission

83. Subsection (1) enables the Welsh Ministers to confer supplementary functions on the Commission by way of regulations. A supplementary function conferred on the Commission under these powers must relate to tertiary education, or research and innovation, and be exercisable by the Welsh Ministers (subsection (2)).
84. Subsections (3) and (4) enable the Welsh Ministers to direct that their functions in relation to the land or other property of an institution in Wales within the higher or further education sector, may be exercised by the Commission. The Welsh Ministers' functions arise where they are entitled to a right or interest in respect of that property. The Commission is required to exercise these functions in accordance with directions given by the Welsh Ministers (subsection (5)).

Dissolution of Higher Education Funding Council for Wales

Section 23: Dissolution of the Higher Education and Funding Council for Wales

85. This section dissolves HEFCW.

Section 24 and Schedule 2: Transfer schemes

86. This section introduces Schedule 2 which makes provision about schemes for the transfer of staff, property, rights and liabilities as a result of establishing the Commission and dissolving HEFCW.

PART 2: REGISTRATION AND REGULATION OF TERTIARY EDUCATION PROVIDERS

Chapter 1: Registration of Tertiary Education Providers

The register and registration procedure

Section 25: The register

87. Subsection (1) requires the Commission to set up and maintain a register of tertiary education providers in Wales. The Commission must register those providers that apply to be registered and which satisfy the conditions for registration (subsection (4)). The making of a registration application is voluntary.
88. The register, through the use of registration conditions (see sections 27 to 35), provides a means of regulating such providers. In combination with revised student support regulations made by the Welsh Ministers under section 22 of the Teaching and Higher Education Act 1998, registration will also determine a provider's eligibility for automatic designation for Welsh Government student support.
89. The register is to be divided into different categories of registration specified in regulations made by the Welsh Ministers (subsection (2)). It is intended that the categories of registration will allow appropriate variance in the conditions of registration required for different types of registered providers in receipt of different forms of public funding. Regulations may prohibit a provider from registering in one category whilst it is registered in one or more other categories (subsection (5)).

90. Rhaid i ddarparwyr, unwaith eu bod wedi eu cofrestru, fodloni'r amodau cofrestru cyffredinol ac unrhyw amodau cofrestru parhaus penodol sy'n gymwys iddynt yn y categori cofrestru perthnasol. Mae darpariaeth ar gyfer yr amodau hyn, a'r broses ar gyfer eu penderfynu, wedi ei nodi yn adrannau 28, 29, 31, 32 a 33.
91. Mae'r weithdrefn ar gyfer cofrestru, a ffurf y ceisiadau i gofrestru, yn fater i'r Comisiwn ei benderfynu (is-adran (7)). Rhaid i'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y gofrestr fod ar gael i'r cyhoedd (is-adran (11)), a chaiff Gweinidogion Cymru bennu mewn rheoliadau yr wybodaeth sydd i'w chynnwys yng nghofnod darparwr cofrestredig yn y gofrestr (is-adran (8)).

Adran 26: Y weithdrefn gofrestru

92. Mae'r adran hon yn nodi'r weithdrefn sydd i'w dilyn os digwydd bod y Comisiwn yn bwriadu gwrthod cais i gofrestru, neu pan fo'r Comisiwn yn bwriadu gwrthod cais gan ddarparwr cofrestredig i newid categorïau.
93. Rhaid i'r Comisiwn hysbysu corff llywodraethu'r darparwr pan fo'n bwriadu gwrthod cais y darparwr. Rhaid i'r Comisiwn bennu ei resymau dros wneud hynny a'r cyfnod y caiff darparwr gyflwyno sylwadau i'r Comisiwn ynddo ynghylch yr hyn y mae'r Comisiwn yn bwriadu ei wneud (is-adran (2)). Ni chaiff y cyfnod fod yn llai nag 28 o ddiwrnodau (is-adran (3)).
94. Caiff y Comisiwn, pan ddaw'r cyfnod rhybudd penodedig i ben, naill ai penderfynu cofrestru'r darparwr yn y categori y mae wedi gwneud cais ar ei gyfer, neu wrthod gwneud hynny. Rhaid i'r Comisiwn hysbysu'r corff llywodraethu am ei benderfyniad (is-adran (5)) a rhaid i hysbysiad o benderfyniad i wrthod cofrestru darparwr nodi'r sail dros wrthod a gwybodaeth ynghylch yr hawl i gael adolygiad o benderfyniad y Comisiwn (is-adran (7)).

Amodau cofrestru

Adran 27: Amodau cofrestru cychwynnol

95. Rhaid i ddarparwr sy'n gwneud cais i gofrestru â'r Comisiwn fodloni amodau cofrestru cychwynnol. Mae'r adran hon yn nodi pedwar amod cofrestru cychwynnol mandadol sydd yn gymwys i bob categori cofrestru. Rhaid i'r Comisiwn fod wedi ei fodloni o ran:
- ansawdd yr addysg a ddarperir gan y darparwr addysg drydyddol sy'n gwneud cais, neu a ddarperir ar ei ran,
 - effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a rheoli y sawl sy'n gwneud cais,
 - cynaliadwyedd ariannol y sawl sy'n gwneud cais,
 - effeithiolrwydd trefniadau'r darparwr sy'n gwneud cais ar gyfer cefnogi a hybu lles myfyrwyr a staff, a
 - phan fo'n gymwys, effeithiolrwydd y trefniadau sydd yn eu lle i fodloni'r darparwr sy'n gwneud cais o ran ansawdd yr addysg a gyflwynir gan ddarparwr allanol o dan drefniant dilysu.
96. Am ragor o wybodaeth ynghylch swyddogaethau'r Comisiwn mewn cysylltiad ag asesu ansawdd a sicrhau ansawdd, gweler Pennod 3 o'r Rhan hon.

90. Providers, once registered, must meet the general and any specific ongoing registration conditions applicable to them in the relevant category of registration. Provision for these conditions, and the process for determining them, is set out in sections 28, 29, 31, 32 and 33.
91. The procedure for and form of applications for registration is a matter for the Commission to determine (subsection (7)). Information contained in the register must be publicly available (subsection (11)), and the Welsh Ministers may specify in regulations the information that is to be contained in a registered provider's entry in the register (subsection (8)).

Section 26: Registration procedure

92. This section sets out the procedure to be followed in the event that the Commission intends to refuse an application for registration, or where the Commission intends to refuse an application from a registered provider to change categories.
93. The Commission must notify the governing body of the provider where it intends to refuse the provider's application. In doing so, the Commission must specify its reasons and the period within which a provider may make representations to the Commission about the Commission's proposal (subsection (2)). The period must not be less than 28 days (subsection (3)).
94. The Commission may, at the conclusion of the specified notice period, either decide to register the provider in the category to which it has applied, or refuse to do so. The Commission must notify the governing body of its decision (subsection (5)) and a notice of refusal to register a provider must set out the grounds of refusal and information as to the right of review of the Commission's decision (subsection (7)).

Registration conditions

Section 27: Initial registration conditions

95. A provider applying to register with the Commission must satisfy initial registration conditions. This section sets out four mandatory initial registration conditions, which apply to all registration categories. The Commission must be satisfied as to—
 - the quality of education provided by the applicant tertiary education provider, or provided on its behalf,
 - the effectiveness of the governance and management of the applicant,
 - the financial sustainability of the applicant,
 - the effectiveness of the applicant provider's arrangements for supporting and promoting the welfare of students and staff, and
 - where applicable, the effectiveness of arrangements in place to satisfy the applicant provider of the quality of education delivered by an external provider under a validation arrangement.
96. For further information regarding the Commission's functions in respect of quality assessment and assurance, see Chapter 2 of this Part.

97. Caiff y safon sy'n ofynnol i ddarparwyr fodloni amodau cofrestru cychwynnol, a'r wybodaeth sy'n ofynnol i ddangos hynny, eu pennu gan y Comisiwn. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn gyhoeddi dogfen sy'n pennu'r gofynion ar gyfer bodloni'r amodau hynny (is-adran (2)). Mae'r Comisiwn yn cael ei alluogi i ddiwygio'r gofynion hyn ac os yw'n gwneud hynny rhaid iddo gyhoeddi dogfen wedi ei diweddarau (is-adran (4)). Cyn cyhoeddi naill ai dogfen gychwynnol neu ddogfen ddiwygiedig, mae'r Comisiwn o dan ddyletswydd, os yw'n ymddangos iddo ei bod yn briodol gwneud hynny, i ymgynghori â'r personau hynny y mae'n ystyried eu bod yn briodol (is-adran (5)), er enghraifft darparwyr addysg drydyddol a all fod yn dymuno gwneud cais i gofrestru.
98. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, bennu amodau cofrestru cychwynnol pellach, a chaniateir pennu amodau gwahanol ar gyfer categorïau cofrestru gwahanol. Mae'r rhestr a ddarperir yn is-adran (7)(b) yn dangos y math o amodau y caniateir eu pennu yn y rheoliadau hyn, ond nid yw'n rhestr gynhwysfawr ac efallai na fydd yr holl categorïau hyn yn amodau cofrestru cychwynnol priodol ar gyfer holl categorïau'r gofrestr.

Adran 28: Amodau cofrestru parhaus cyffredinol

99. Fel y'i nodir yn adran 25(9), rhaid i ddarparwr cofrestredig barhau i fodloni amodau cofrestru parhaus er mwyn cadw ei gofrestriad. Mae amod cofrestru parhaus cyffredinol yn amod a benderfynir gan y Comisiwn, sy'n gymwys i un neu ragor o categorïau cofrestru.
100. Rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi'r amodau cofrestru parhaus cyffredinol, ac unrhyw ddiwygiadau i'r amodau hynny. Cyn penderfynu'r amodau cofrestru parhaus cyffredinol, neu ddiwygio'r amodau hynny, mae dyletswydd ar y Comisiwn, os yw'n ymddangos yn briodol iddo wneud hynny, i ymgynghori â'r personau hynny y mae'n ystyried eu bod yn briodol, er enghraifft y darparwyr cofrestredig hynny a fydd yn ddarostyngedig i'r amodau cofrestru.
101. Caiff y Comisiwn bennu amodau gwahanol ar gyfer categorïau neu ddisgrifiadau gwahanol o ddarparwr cofrestredig (is-adran (2)). O dan is-adran (8), caiff y Comisiwn benderfynu nad yw amod cofrestru parhaus cyffredinol yn gymwys i ddarparwr cofrestredig penodol. Mewn achosion o'r fath, caiff y Comisiwn ddatgymhwyso'r amod mewn perthynas â'r darparwr hwnnw, a rhaid iddo hysbysu'r darparwr am ei benderfyniad (is-adran (9)).

Adran 29: Amodau cofrestru parhaus penodol

102. Mae'r adran hon yn nodi pryd y caiff y Comisiwn osod, amrywio neu ddileu amod cofrestru parhaus sy'n gymwys i ddarparwr cofrestredig penodol, yn hytrach nag i'r holl ddarparwyr cofrestredig neu i gategori o ddarparwyr.
103. Cyn gosod, amrywio neu ddileu amod cofrestru parhaus penodol, rhaid i'r Comisiwn hysbysu corff llywodraethu'r darparwr o dan sylw (is-adran (3)). Rhaid i'r hysbysiad hysbysu'r darparwr am resymau'r Comisiwn dros gynnig yr amod cofrestru parhaus penodol, a hawl y darparwr i gyflwyno sylwadau am y cynnig o fewn cyfnod penodol (is-adran (4)).

97. The standard required for providers to satisfy initial registration conditions, and the information required to demonstrate this, will be determined by the Commission. The Commission is required to publish a document specifying the requirements for satisfying such conditions (subsection (2)). The Commission is enabled to revise these requirements and if it does so it must publish an updated document (subsection (4)). Before publishing either an initial or a revised document, the Commission is under a duty, if it appears appropriate to do so, to consult such persons as it considers appropriate (subsection (5)), for example tertiary education providers who may wish to make a registration application.
98. The Welsh Ministers may, by regulations, specify further initial registration conditions and different conditions may be specified for different categories of registration. The list provided in subsection (7)(b) indicates the kind of conditions that may be specified in these regulations, but it is not an exhaustive list and not all of these categories may be appropriate initial conditions of registration for all categories of the register.

Section 28: General ongoing registration conditions

99. As stated in section 25(9), a registered provider must continue to satisfy ongoing registration conditions in order to maintain its registration. A general ongoing registration condition is a condition determined by the Commission, which applies to one or more categories of registration.
100. The Commission must publish the general ongoing conditions and any revisions to those conditions. Before determining or revising the general ongoing conditions, the Commission is under a duty, if it appears appropriate to do so, to consult such persons as it considers appropriate, for example those registered providers which will be subject to the registration conditions.
101. The Commission may determine different conditions for different categories or descriptions of registered provider (subsection (2)). Under subsection (8), the Commission may decide that a general ongoing registration condition is not applicable to a particular registered provider. In such instances, the Commission may dis-apply the condition in relation to that provider and must inform the provider of its decision (subsection (9)).

Section 29: Specific ongoing registration conditions

102. This section sets out when the Commission can impose, vary, or remove an ongoing registration condition that applies to a specific registered provider, as opposed to all registered providers or a category of providers.
103. Before imposing, varying or removing a specific ongoing registration condition, the Commission must notify the governing body of the provider affected (subsection (3)). The notice must inform the provider of the Commission's reasons for proposing the specific ongoing registration condition and of the provider's right to make representations about the proposal within a specific period (subsection (4)).

104. Rhaid i'r Comisiwn roi sylw i unrhyw sylwadau a gyflwynir gan gorff llywodraethu'r darparwr wrth benderfynu pa un ai i osod, amrywio neu ddileu'r amod cofrestru parhaus penodol (is-adran (6)), a rhaid iddo hysbysu'r darparwr am ei benderfyniad (is-adran (7)).
105. Rhaid i hysbysiad sy'n ymwneud â gosod neu amrywio amod cofrestru parhaus penodol nodi'r seiliau dros y penderfyniad a rhaid i wybodaeth am yr hawl i gael adolygiad ddod gyda'r hysbysiad (is-adran (9)). Ni chaniateir i'r amod cofrestru parhaus penodol newydd gael effaith hyd nes i gyfnod yr adolygiad ddod i ben. Yn ogystal, ni chaniateir i'r amod cofrestru parhaus penodol newydd gael effaith tra bo cais am adolygiad wedi ei wneud, a hyd nes i unrhyw adolygiad a gynhelir ddod i ben. Wedi hynny rhaid i'r Comisiwn benderfynu dyddiad y bydd yr amod cofrestru parhaus penodol yn cymryd effaith, a bryd hynny rhaid cyhoeddi'r hysbysiad.

Adran 30: Amodau cymesur etc.

106. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn sicrhau bod ei amodau cofrestru parhaus, a'r gofynion a gyhoeddir ynghylch bodloni amodau cofrestru cychwynnol (gweler adran 27), yn gymesur â'i asesiad o unrhyw risgiau a berir. Gall y risgiau hyn gynnwys, er enghraifft, risgiau o ran diogelu cyllid cyhoeddus, buddiannau myfyrwyr, ac unrhyw risgiau eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Comisiwn mewn cysylltiad â 'darparwyr addysg drydyddol.
107. Er mwyn i'r amodau a gofynion cofrestru barhau i fod yn gymesur, mae'n ofynnol i'r Comisiwn gadw ei amodau cofrestru parhaus o dan adolygiad.

Adran 31: Amodau cofrestru parhaus mandadol ar gyfer pob darparwr cofrestredig

108. Yn ogystal ag unrhyw amodau cofrestru parhaus cyffredinol a benderfynir gan y Comisiwn o dan adran 28, rhaid i'r Comisiwn sicrhau bod yr holl ddarparwyr sydd wedi eu cofrestru ym mhob categori o'r gofrestr yn ddarostyngedig i'r amodau a restrir yn yr adran hon. Caniateir gosod yr amodau hyn fel rhan o'r amodau cofrestru parhaus cyffredinol neu drwy osod amod cofrestru parhaus penodol.

Adran 32: Amod cofrestru parhaus mandadol ar y terfynau ffioedd

109. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn sicrhau bod pob darparwr sydd wedi ei gofrestru mewn categori a bennir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau yn ddarostyngedig i amod terfyn ffioedd. Mae amod terfyn ffioedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr feddu ar ddatganiad terfyn ffioedd cymeradwy a sicrhau nad yw ffioedd cwrs rheoleiddiedig yn fwy na'r terfyn ffioedd cymwys. Mae rhagor o wybodaeth am y datganiad terfyn ffioedd wedi ei hamlinellu yn adrannau 46 i 48.
110. "Cwrs cymhwysol" yw cwrs a ddisgrifir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru, yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn is-adran (5). Ystyr "ffioedd cwrs rheoleiddiedig" yw ffioedd sy'n daladwy gan berson cymhwysol i ddarparwr er mwyn ymgymryd â chwrs cymhwysol (is-adrannau (6) a (7)). Mae is-adran (8) yn darparu mai ystyr "person cymhwysol" yw person a ddisgrifir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru nad yw'n fyfyrwr rhyngwladol o fewn ystyr is-adran (9).

104. The Commission must have regard to any representations made by the governing body of the provider in deciding whether to impose, vary, or remove the specific ongoing registration condition (subsection (6)), and must notify the provider of its decision (subsection (7)).
105. A notice relating to the imposition or variation of a specific ongoing registration condition must set out the grounds of the decision and be accompanied with information as to the right of review (subsection (9)). The new specific ongoing registration condition cannot have effect until the period of review has passed. In addition, the new specific ongoing registration condition cannot have effect while an application for review has been made and, until any review conducted is concluded. The Commission must subsequently determine a date on which the specific ongoing registration condition will take effect, at which point the notice must be published.

Section 30: Proportionate conditions etc.

106. This section requires the Commission to ensure that its ongoing registration conditions, and the requirements published regarding satisfaction of initial registration conditions (see section 27), are proportionate to its assessment of any risks posed. These may include, for example, risks to safeguarding of public funds, students' interests, and any other risks related to the Commission's functions in respect of tertiary education providers.
107. In order that registration conditions and requirements continue to be proportionate, the Commission is required to keep its ongoing registration conditions under review.

Section 31: Mandatory ongoing registration conditions for each registered provider

108. In addition to any other general ongoing registration conditions determined by the Commission under section 28, the Commission must ensure that all providers registered in each category of the register are subject to the conditions listed in this section. These may be imposed as part of the general ongoing registration conditions or by way of a specific ongoing registration condition.

Section 32: Mandatory ongoing registration condition on fee limits

109. This section requires the Commission to ensure that each provider registered in a category specified by the Welsh Ministers in regulations is subject to a fee limit condition. A fee limit condition requires the provider to have an approved fee limit statement and to ensure that regulated course fees do not exceed the applicable fee limit. More information on the fee limit statement is outlined in sections 46 to 48.
110. A "qualifying course" is a course described in regulations made by the Welsh Ministers, subject to the conditions set out in subsection (5). "Regulated course fees" are fees payable by a qualifying person to a provider in order to undertake a qualifying course (subsections (6) and (7)). Subsection (8) provides that a "qualifying person" is a person described in regulations made by the Welsh Ministers who is not an international student within the meaning of subsection (9).

111. Mae is-adran (10) hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu pryd y mae ffioedd a delir am gwrs a ddarperir gan ddarparwr allanol (h.y. ar ran darparwr cofrestredig) i'w trin fel ffioedd cwrs rheoleiddiedig ac felly'n ddarostyngedig i derfyn ffioedd.

Adran 33: Amodau cofrestru parhaus mandadol ar gyfle cyfartal

112. Mae'r Comisiwn o dan ddyletswydd i sicrhau bod amod cofrestru parhaus mandadol sy'n ymwneud â chyfle cyfartal yn cael ei gymhwyso i bob darparwr addysg drydyddol cofrestredig.
113. Mae amodau ar gyfle cyfartal yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr cofrestredig ddangos ei fod yn cyflawni canlyniadau y gellir eu mesur sy'n hyrwyddo'r nodau a restrir yn is-adran (2). Mae'r nodau hyn yn ymwneud â chynyddu cyfranogiad, gwella cyfraddau cadw myfyrwyr, lleihau bylchau o ran cyrhaeddiad, a gwella canlyniadau cyflogaeth ac astudio pellach ar gyfer myfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.
114. Diffinnir grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn is-adran (3) fel grwpiau o fyfyrwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg drydyddol berthnasol yng Nghymru o ganlyniad i ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd neu sefydliadol. Diffinnir addysg drydyddol berthnasol fel cyrsiau addysg drydyddol a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru o fath sy'n ymwneud â chategori o'r gofrestr y mae'r darparwr wedi ei gofrestru ynddo. Mae hyn yn golygu y bydd darparwyr cofrestredig yn gweithio i gyflawni canlyniadau cyfle cyfartal mewn cysylltiad â'r math o addysg drydyddol sy'n ymwneud â'u categori cofrestru.

Adran 34: Pŵer i ddarparu ar gyfer amodau cofrestru parhaus mandadol pellach

115. Yn ychwanegol at amodau cofrestru parhaus mandadol y darperir ar eu cyfer yn adrannau 31, 32 a 33, caiff Gweinidogion Cymru bennu mewn rheoliadau amodau cofrestru parhaus mandadol pellach y mae rhaid i'r Comisiwn eu cymhwyso i un neu ragor o gategoriâu cofrestru.

Adran 35: Dyletswydd y Comisiwn i roi canllawiau ynghylch amodau cofrestru parhaus

116. Mae adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gyhoeddi canllawiau ar gyfer darparwyr cofrestredig sy'n ymwneud â'r amodau cofrestru parhaus.

Monitro a gorfodi amodau cofrestru

Adran 36: Dyletswydd y Comisiwn i fonitro cydymffurfedd ag amodau cofrestru parhaus

117. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn fonitro cydymffurfedd pob darparwr cofrestredig â'i amodau cofrestru parhaus.

Adran 37: Cyngor a chynhorthwy mewn cysylltiad â chydymffurfedd ag amodau cofrestru parhaus

118. Caiff y Comisiwn roi cyngor a chynhorthwy i ddarparwyr cofrestredig er mwyn cynorthwyo cydymffurfedd ag amodau cofrestru.

111. Subsection (10) also allows the Welsh Ministers to make regulations specifying when fees paid for a course at an external provider (i.e. on behalf of a registered provider) are to be treated as regulated course fees and therefore subject to a fee limit.

Section 33: Mandatory ongoing registration conditions on equal opportunity

112. The Commission is under a duty to ensure that a mandatory ongoing registration condition relating to equal opportunity is applied to each registered tertiary education provider.

113. Conditions on equal opportunity require the registered provider to demonstrate delivery of measurable outcomes which further the aims listed in subsection (2). These aims relate to increasing participation, improving retention, reducing attainment gaps, and improving employment and further study outcomes for students from under-represented groups.

114. Under-represented groups are defined in subsection (3) as groups of students that are under-represented in relevant tertiary education in Wales as a result of social, cultural, economic or organisational factors. Relevant tertiary education is defined as tertiary education courses provided wholly or mainly in Wales of a kind that relates to the category of the register in which the provider is registered. This means that registered providers will be concerned with delivering equality of opportunity outcomes in respect of the kind of tertiary education which relates to their registration category.

Section 34: Power to provide for further mandatory ongoing registration conditions

115. In addition to the mandatory ongoing registration conditions provided for in sections 31, 32 and 33, the Welsh Ministers may specify in regulations further mandatory ongoing registration conditions that the Commission must apply to one or more categories of registration.

Section 35: Commission duty to give guidance about ongoing registration conditions

116. This section requires the Commission to publish guidance for registered providers concerning the ongoing registration conditions.

Monitoring and enforcement of registration conditions

Section 36: Commission duty to monitor compliance with ongoing registration conditions

117. This section requires the Commission to monitor each registered provider's compliance with their ongoing registration conditions.

Section 37: Advice and assistance in respect of compliance with ongoing registration conditions

118. The Commission may provide advice and assistance to registered providers in order to aid compliance with registration conditions.

Adran 38: Adolygiadau sy'n berthnasol i gydymffurfedd ag amodau cofrestru parhaus

119. Caiff y Comisiwn, os yw'n barnu bod hynny'n briodol, gynnal adolygiad o faterion sy'n berthnasol i gydymffurfedd darparwr cofrestredig ag amodau cofrestru. Caiff y Comisiwn hefyd drefnu i adolygiad o'r fath gael ei gynnal gan gorff priodol arall; er enghraifft, gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi neu'r corff ansawdd dynodedig (gweler Pennod 2 o'r Rhan hon) ar gyfer materion mewn cysylltiad â'r amod cofrestru parhaus mandadol sy'n ymwneud ag ansawdd.

Adran 39: Cyfarwyddydau mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio ag amodau cofrestru parhaus

120. Pan fo'r Comisiwn wedi ei fodloni bod darparwr wedi methu (neu'n debygol o fethu) â chydymffurfio ag amod cofrestru parhaus, mae'r adran hon yn caniatáu i'r Comisiwn gyfarwyddo'r darparwr i gymryd camau penodol i gydymffurfio â'r amod. Gallai hyn ddilyn camau blaenorol a gymerwyd gan y Comisiwn i sicrhau cydymffurfedd ag amodau cofrestru, megis cyngor a chynhorthwy (adran 37) ac adolygiadau (adran 38).
121. Mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio ag amod terfyn ffioedd, caiff y Comisiwn hefyd gyfarwyddo darparwr i ad-dalu i fyfyrwyr unrhyw arian ffioedd sy'n uwch na'r terfyn ffioedd ("ffioedd uwchlaw'r terfyn"), a sut y mae rhaid iddo wneud hynny (is-adrannau (3), (4) a (5)).
122. Rhaid i unrhyw gyfarwyddydau a ddyroddir i ddarparwyr gan y Comisiwn gael eu cyhoeddi, a rhaid darparu copi i Weinidogion Cymru (is-adran (6)).
123. Rhaid i'r Comisiwn gydymffurfio â'r gweithdrefnau a nodir yn adrannau 75 i 78 wrth roi cyfarwyddydau o dan adran 39.

Adran 40: Darpariaeth atodol ynghylch cyfarwyddydau o dan adran 39

124. Caiff y Comisiwn ddyroddi canllawiau ynghylch sut y dylai darparwyr gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddydau a ddyroddir o dan adran 39, a rhaid iddo yn gyntaf ymgynghori â darparwyr cofrestredig a darparwyr priodol eraill ynghylch cynnwys y canllawiau hyn.

Datgofrestru

Adran 41: Datgofrestru

125. Mae gan y Comisiwn bŵer a dyletswydd i ddileu darparwr o'r gofrestr neu o gategori o'r gofrestr o dan amgylchiadau y darperir ar eu cyfer yn yr adran hon.
126. Os nad yw darparwr cofrestredig yn 'darparwr addysg drydyddol yng Nghymru' mwyach, neu os yw'n peidio â darparu'r math o addysg drydyddol sy'n berthnasol i'w gategori cofrestru (er enghraifft addysg uwch, neu addysg bellach), rhaid i'r Comisiwn ddileu'r darparwr hwnnw, naill ai o'r categori penodol hwnnw o'r gofrestr, neu ei ddileu yn llwyr o'r gofrestr. Mae hyn oherwydd na fyddai'r darparwr yn bodloni'r amodau a nodir yn adran 25 mwyach.
127. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu amgylchiadau eraill pan fo rhaid i'r Comisiwn ddileu darparwyr naill ai o gategori penodol o'r gofrestr neu eu dileu yn llwyr o'r gofrestr.

Section 38: Reviews relevant to compliance with ongoing registration conditions

119. The Commission may, if it deems appropriate, carry out a review of matters relevant to a registered provider's compliance with registration conditions. The Commission may also arrange for such a review to be carried out by another appropriate body; for example, by Her Majesty's Chief Inspector or the designated quality body (see Chapter 2 of this Part) for matters in respect of the mandatory ongoing registration condition concerning quality.

Section 39: Directions in respect of failure to comply with ongoing registration conditions

120. Where the Commission is satisfied that a provider has failed (or is likely to fail) to comply with an ongoing registration condition, this section allows the Commission to direct the provider to take certain actions to comply with the condition. This might follow on from previous steps taken by the Commission to ensure compliance with registration conditions, such as advice and assistance (section 37) and reviews (section 38).
121. In respect of a failure to comply with a fee limit condition, the Commission may also direct a provider to repay to students any fee monies which have exceeded the fee limit ("excess fees"), and the manner in which it must do so (subsections (3), (4) and (5)).
122. Any directions issued to providers by the Commission must be published and a copy provided to the Welsh Ministers (subsection (6)).
123. The Commission must comply with the procedures set out in sections 75 to 78 when giving directions under section 39.

Section 40: Supplementary provision about directions under section 39

124. The Commission may issue guidance about how providers should comply with any directions issued under section 39 and must first consult registered providers and other appropriate providers regarding the content of this guidance.

De-registration

Section 41: De-registration

125. The Commission has both a power and a duty to remove a provider from the register or from a category of the register in circumstances provided for in this section.
126. If a registered provider is no longer an 'tertiary education provider in Wales', or ceases to provide the type of tertiary education that is relevant to its category of registration (for example higher education, or further education), the Commission must remove that provider from either that particular category of the register, or from the register entirely. This is because the provider would no longer satisfy the conditions set out in section 25.
127. The Welsh Ministers may make regulations to specify other circumstances in which the Commission must remove providers from either a particular category of the register, or from the register entirely.

128. Caiff y Comisiwn ddileu darparwr o'r gofrestr neu o gategori o'r gofrestr os yw'n ymddangos i'r Comisiwn fod y darparwr wedi torri un o'i amodau cofrestru parhaus a:
- bod y Comisiwn yn flaenorol wedi dyroddi cyfarwyddyd i'r darparwr hwnnw mewn perthynas ag unrhyw achos o dorri amod cofrestru parhaus, neu
 - fod y Comisiwn yn ystyried y byddai dyroddi cyfarwyddyd o dan adran 39 yn annigonol i ymddrin â'r toriad.
129. O dan is-adrannau (6) a (7), caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n sefydlu trefniadau trosiannol pan fo darparwr i'w ddileu o'r gofrestr neu o gategori o'r gofrestr. Gallai hyn gynnwys trin y darparwr dros dro fel darparwr cofrestredig mewn categori penodol, er enghraifft, er mwyn galluogi myfyrwyr presennol yn y darparwr i barhau i gael cymorth i fyfyrwyr.
130. Rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi rhestr o unrhyw ddarparwyr a gaiff eu dileu o'r gofrestr neu o gategori o'r gofrestr, gan gynnwys cyfeiriad at unrhyw reoliadau a wneir o dan is-adran (6).

Adran 42: Datgofrestru: y weithdrefn

131. Mae'r adran hon yn sefydlu'r broses y mae rhaid i'r Comisiwn ei dilyn wrth ddileu darparwr o'r gofrestr neu o gategori o'r gofrestr o dan adran 41.
132. Rhaid i'r Comisiwn hysbysu corff llywodraethu darparwr cofrestredig am ei fwriad i ddatgofrestru'r darparwr, a'i resymau dros wneud hynny. Caniateir cyfnod penodedig i ddarparwyr gyflwyno sylwadau i'r Comisiwn ynghylch y cynnig. Rhaid i'r Comisiwn roi sylw i unrhyw sylwadau a gyflwynir yn ystod y cyfnod penodedig cyn penderfynu pa un ai i ddileu'r darparwr o'r gofrestr neu o gategori o'r gofrestr.
133. Os yw'r Comisiwn yn penderfynu bwrw ymlaen â'r penderfyniad i ddatgofrestru, caiff corff llywodraethu'r darparwr ofyn am adolygiad (gweler adran 45) o'r penderfyniad hwnnw gan yr adolygydd penderfyniadau (gweler adran 79). Rhaid i wybodaeth am yr hawl i gael adolygiad ddod gydag unrhyw hysbysiad o benderfyniad gan y Comisiwn i ddatgofrestru darparwr.
134. Ni chaiff datgofrestriad o dan adran 41 gymryd effaith tra gellid gofyn am adolygiad o'r penderfyniad neu tra bo adolygiad o'r fath yn cael ei gynnal, oni bai bod y darparwr yn hysbysu'r Comisiwn nad yw'n bwriadu gwneud cais am adolygiad.

Adran 43: Datgofrestru'n wirfoddol a datgofrestru gyda chydysyniad

135. Caiff darparwyr cofrestredig wneud cais, ar ffurf a benderfynir gan y Comisiwn, i gael eu dileu o'r gofrestr neu o gategori o'r gofrestr, neu cânt roi cydsyniad i gynnig gan y Comisiwn i ddileu'r darparwr o'r gofrestr neu o gategori o'r gofrestr.
136. Os yw darparwr yn gwneud cais i gael ei ddatgofrestru yn unol ag is-adran (6), mae rhwymedigaeth ar y Comisiwn i dderbyn y cais a rhaid iddo bennu dyddiad ar gyfer dileu'r sefydliad o'r gofrestr neu o gategori o'r gofrestr. Caiff corff llywodraethu'r darparwr wneud cais am adolygiad gan yr adolygydd penderfyniadau o'r penderfyniad ynghylch y dyddiad dileu (gweler adran 45).

128. The Commission may remove a provider from the register or a category of the register if it appears to the Commission that the provider has breached one of its ongoing registration conditions and:
- the Commission has previously issued a direction to that provider in relation to any breach of an ongoing registration condition, or
 - the Commission considers that issuing a direction under section 39 would be insufficient to deal with the breach.
129. Under subsections (6) and (7), the Welsh Ministers may make regulations establishing transitional arrangements where a provider is to be removed from the register or from a category of the register. This might involve temporarily treating the provider as a registered provider in a particular category, for example, in order to enable existing students at the provider to continue to receive student support.
130. The Commission must publish a list of any provider removed from the register or a category of the register, including reference to any regulations made under subsection (6).

Section 42: De-registration: procedure

131. This section establishes the process the Commission must follow when removing a provider from the register or a category of the register under section 41.
132. The Commission must notify the governing body of a registered provider of its intention to de-register the provider and its reasons for doing so. Providers will have a specified period to make representations to the Commission about the proposal. The Commission must have regard to any representations made during the specified period before deciding whether or not to remove the provider from the register or from a category of the register.
133. If the Commission decides to proceed with the de-registration decision, then the governing body of the provider may request a review (see section 45) of that decision by the decision reviewer (see section 79). Any notice of a decision by the Commission to de-register a provider must be accompanied with information as to the right of review.
134. A de-registration under section 41 cannot take effect while a review of the decision could be requested or is being undertaken, unless the provider notifies the Commission that it does not intend to apply for a review.

Section 43: Voluntary de-registration and de-registration with consent

135. Registered providers may apply, in a form determined by the Commission, to be removed from the register or a category of the register or may give consent to a proposal from the Commission to remove the provider from the register or a category of the register.
136. If a provider applies for de-registration in accordance with subsection (6), the Commission is obliged to accept the application and must specify a date for removal from the register or category of the register. The governing body of the provider is able to apply for a review by the decision reviewer of the decision regarding the date for removal (see section 45).

137. Pan fo darparwr yn gwneud cais i gael ei ddileu o gategori o'r gofrestr, caiff bennu yn ei gais ei fod, ar yr un pryd, yn gwneud cais am gofrestrriad mewn categori gwahanol. Pan fo cais o'r fath i newid categorïau yn cael ei wneud, effaith is-adrannau (2) i (4) yw nad oes rhwymedigaeth ar y Comisiwn i ddileu'r darparwr o'i gategori presennol oni bai ei fod hefyd yn gallu ei gofrestru yn y categori newydd.
138. Fel yn adran 41, caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n sefydlu trefniadau trosiannol (is-adran (13)). Gallai hyn gynnwys trin y darparwr dros dro fel darparwr cofrestredig, er enghraifft, er mwyn galluogi myfyrwyr presennol yn y darparwr i barhau i gael cymorth i fyfyrwyr.
139. Rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi rhestr o unrhyw ddarparwyr a gaiff eu dileu o'r gofrestr neu o gategori o'r gofrestr ac o unrhyw reoliadau a wneir o dan is-adran (13).

Adran 44: Newid categori cofrestru heb gais

140. Pan fo darparwr yn cael ei ddileu o gategori o'r gofrestr o dan adran 41(3) neu 43(5), caiff y Comisiwn gofrestru'r darparwr mewn categori arall o'r gofrestr –
- os yw'r corff llywodraethu yn cydsynio,
 - os yw'n parhau i ddod o fewn y diffiniad o "darparwr addysg drydyddol yng Nghymru" (gweler adran 144(1)),
 - os yw'n darparu'r addysg drydyddol sy'n berthnasol i'r categori cofrestru, neu os darperir yr addysg honno ar ei ran,
 - os yw'n bodloni'r amodau cofrestru cychwynnol perthnasol (gweler adran 27), ac
 - os nad yw cofrestru wedi ei wahardd o dan adran 25(5).

Adolygiadau o benderfyniadau cofrestru

Adran 45: Adolygiadau o benderfyniadau cofrestru

141. Pryd bynnag y mae'r Comisiwn yn hysbysu darparwr am benderfyniad:
- i wrthod cofrestru mewn categori o dan adran 25;
 - i osod neu amrywio amod cofrestru penodol o dan adran 29;
 - i ddileu darparwr o gategori o'r gofrestr o dan adran 41; neu
 - i benderfynu'r dyddiad y bydd unrhyw ddatgofrestru yn cymryd effaith o dan adran 43(7) neu (8);

caiff y darparwr o dan sylw ofyn am adolygiad o'r penderfyniad hwnnw.

142. Cynhelir adolygiadau o benderfyniadau gan y person neu'r panel a benodir gan Weinidogion Cymru o dan adran 79 ac yn unol â'r broses adolygu a sefydlir gan yr adran honno.

Datganiadau terfyn ffioedd

Adran 46: Gofynion ar gyfer datganiad terfyn ffioedd

143. Mae'r adran hon yn nodi beth yw datganiad terfyn ffioedd a'r hyn y mae rhaid iddo ei gynnwys. Pan fo darparwr cofrestredig yn ddarostyngedig i amod terfyn ffioedd o dan adran 32, rhaid i derfyn ffioedd y darparwr bennu'r terfyn ffioedd, neu ddarparu ar gyfer penderfynu'r terfyn ffioedd, mewn perthynas â phob cwrs cymhwysol. Ni chaniateir i'r terfyn ffioedd hwn fynd uwchlaw'r "uchafswm"
144. Yr "uchafswm" yw'r swm a bennir gan Weinidogion Cymru na chaiff terfyn ffioedd ar gyfer cwrs cymhwysol fynd uwch ei law mewn unrhyw flwyddyn academaidd.

137. Where a provider applies to be removed from a category of the register, it may specify in its application that it is, at the same time, applying for registration in a different category. Where such an application to change categories is made, the effect of subsections (2) to (4) is that the Commission is not obliged to remove the provider from its existing category unless it is also able to register it in the new category.
138. As in section 41, the Welsh Ministers may make regulations establishing transitional arrangements (subsection (13)). This might involve temporarily treating the provider as a registered provider, for example, to enable existing students at the provider to continue to receive student support.
139. The Commission must publish a list of any providers removed from the register or a category of the register and of any regulations made under subsection (13).

Section 44: Change of registration category without application

140. Where a provider is removed from a category of the register under section 41(3) or 43(5), the Commission may register the provider in another category of the register if –
- the governing body consents,
 - it continues to fall within the definition of “tertiary education provider in Wales” (see section 144(1)),
 - it provides, or has provided on its behalf, the tertiary education relevant to the registration category,
 - it satisfies the relevant initial registration conditions (see section 27), and
 - registration is not prohibited under section 25(5).

Registration decision reviews

Section 45: Registration decision reviews

141. Whenever the Commission notifies a provider of a decision to:
- refuse registration in a category under section 25;
 - impose or vary a specific condition of registration under section 29;
 - remove a provider from a category of the register under section 41; or
 - determine the date upon which any de-registration will take effect under section 43(7) or (8);
- the provider in question may request a review of that decision.
142. Decision reviews will be carried out by the person or panel appointed by the Welsh Ministers under section 79 and in accordance with the review process established by regulations under that section.

Fee limit statements

Section 46: Requirements of a fee limit statement

143. This section sets out what a fee limit statement is and what it must include. When a registered provider is subject to a fee limit condition under section 32, the provider’s fee limit statement must specify the fee limit, or provide for the determination of the fee limit, in relation to each qualifying course. This fee limit must not exceed the “maximum amount”.
144. The “maximum amount” is the amount specified by the Welsh Ministers that a fee limit for a qualifying course may not exceed in any academic year.

145. Caiff terfynau ffioedd ar gyfer cyrsiau gwahanol amrywio, a chânt hefyd amrywio o un flwyddyn i'r llall. Pan fo proses neu fformiwla ar gyfer penderfynu terfyn ffioedd, rhaid pennu hyn yn y datganiad terfyn ffioedd.
146. Mae datganiad terfyn ffioedd yn cael effaith o'r dyddiad a bennir yn y datganiad terfyn ffioedd.

Adran 47: Cymeradwyo datganiad terfyn ffioedd

147. Pan fo corff llywodraethu darparwr yn gwneud cais i'r Comisiwn iddo gymeradwyo datganiad terfyn ffioedd, caiff y Comisiwn gymeradwyo neu wrthod y cynllun a rhaid iddo roi hysbysiad o'r penderfyniad hwnnw. Mae hyn yn gymwys hefyd pan fo darparwr yn gwneud cais i'r datganiad terfyn ffioedd gael ei amrywio neu i gael datganiad terfyn ffioedd arall yn ei le.
148. Pan fo'r Comisiwn yn gwrthod datganiad terfyn ffioedd arfaethedig, neu amrywiad i ddatganiad terfyn ffioedd neu gael datganiad terfyn ffioedd arall yn ei le, rhaid iddo ddilyn y gweithdrefnau a amlinellir yn adrannau 75 i 78.

Adran 48: Cyhoeddi datganiad terfyn ffioedd cymeradwy

149. Rhaid i ddarparwr sydd â datganiad terfyn ffioedd cymeradwy gyhoeddi'r datganiad hwnnw, ac unrhyw amrywiadau cymeradwy neu ddatganiadau eraill cymeradwy yn eu lle. Dylai datganiadau terfyn ffioedd sydd wedi eu cyhoeddi fod ar gael yn hawdd i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr.

Adran 49: Dilysrwydd contractau

150. Mae'r adran hon yn gymwys pan fo contract rhwng darparwr a pherson cymhwysol mewn cysylltiad â'r person hwnnw yn ymgymryd â chwrs cymhwysol yn darparu ar gyfer talu ffioedd gan y person sydd uwchlaw'r terfyn ffioedd cymwys.
151. Mae i "person cymhwysol" a "chwrs cymhwysol" yr ystyr a roddir i'r termau hynny yn adran 32.
152. Mae is-adran (2) yn darparu bod contract o'r fath i'w drin fel pe bai'n darparu ar gyfer talu ffioedd sy'n cyfateb i'r terfyn ffioedd cymwys. Felly pan fo myfyriwr yn gwrthod talu unrhyw ffioedd uwchlaw'r terfyn a bennir mewn contract, ni fydd y darparwr yn gallu adennill y ffioedd uwchlaw'r terfyn. Ond bydd y contract yn parhau i fod yn orfodadwy fel arall yn nhermau dyletswydd y darparwr i ddarparu addysg i'r myfyriwr, er gwaethaf bod y contract yn darparu ar gyfer talu ffioedd sydd uwchlaw'r terfyn ffioedd cymwys (is-adran (3)).

145. Fee limits for different courses may vary and may also vary from year to year. Where there is a process or formula for determining a fee limit, this must be specified in the fee limit statement.
146. A fee limit statement has effect from the date which is specified in the fee limit statement.

Section 47: Approval of fee limit statement

147. Where the governing body of a provider applies to the Commission for approval of a fee limit statement, the Commission may approve or reject the statement and must give notice of that decision. This also applies where a provider applies for approval of a variation or replacement of the fee limit statement.
148. Where the Commission rejects a proposed fee limit statement, or a variation or replacement of a fee limit statement, it must follow the procedures outlined in sections 75 to 78.

Section 48: Publication of approved fee limit statement

149. A provider with an approved fee limit statement must publish that statement, and any approved variations or replacements. Published fee limit statements should be easily accessible to students and prospective students.

Section 49: Validity of contracts

150. This section applies where a contract between a provider and a qualifying person in respect of that person undertaking a qualifying course provides for the payment of fees by the person which exceed the applicable fee limit.
151. "Qualifying person" and "qualifying course" have the meaning given to those terms in section 32.
152. Subsection (2) provides that such a contract is to be treated as providing for the payment of fees which are equivalent to the applicable fee limit. So where a student refuses to pay any excess fees specified in a contract the provider will not be able to recover the excess fees. But the contract will remain otherwise enforceable in terms of the provider's duty to provide education to the student, despite the contract providing for the payment of fees which exceed the applicable fee limit (subsection (3)).

Pennod 2: Sicrhau Ansawdd a Gwella Ansawdd

Swyddogaethau sicrhau ansawdd cyffredinol

Adran 50: Fframweithiau sicrhau ansawdd

153. Mae is-adran (1) yn rhoi pŵer i'r Comisiwn i lunio a chyhoeddi fframwaith neu fframweithiau sicrhau ansawdd. Dogfen yw fframwaith sicrhau ansawdd sy'n nodi gwybodaeth a chanllawiau ar bolisiau ac arferion sy'n ymwneud â'r meini prawf a'r trefniadau ar gyfer asesu neu arolygu ansawdd addysg drydyddol a hyfforddiant. Caiff amlinellu rolau a chyfrifoldebau Estyn a'r corff asesu ansawdd dynodedig wrth gynnal gwaith sicrhau ansawdd, yn ogystal â rolau a chyfrifoldebau darparwyr addysg drydyddol ac eraill ynghylch ansawdd addysg drydyddol, ac ystyried barn myfyrwyr ynghylch ansawdd yr addysg drydyddol a gânt.
154. Caiff y fframweithiau hefyd nodi canllawiau a gwybodaeth ynghylch datblygiad proffesiynol y gweithlu addysg drydyddol a darparu gwybodaeth a chanllawiau ar unrhyw faterion perthnasol eraill sy'n ymwneud â sicrhau ansawdd.
155. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn ymgynghori â darparwyr addysg drydyddol cofrestredig, Estyn ac unrhyw randdeiliaid eraill y mae'r Comisiwn yn ystyried eu bod yn addas cyn cyhoeddi dogfen fframwaith sicrhau ansawdd, ei diwygio neu ei thynnu'n ôl (is-adran (4)).
156. Bydd yn ofynnol i Estyn, y corff sicrhau ansawdd dynodedig a'r Comisiwn ystyried y fframwaith sicrhau ansawdd yn eu gwaith (is-adrannau (5) a (6)).

Adran 51: Dyletswydd i fonitro ansawdd addysg drydyddol reoleiddiedig ac i hybu gwelliant yn ansawdd yr addysg honno

157. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i fonitro a hybu gwelliant yn ansawdd addysg a hyfforddiant a ddarperir gan ddarparwyr addysg drydyddol sy'n gofrestrdedig ac a gyllidir gan y Comisiwn.

Adran 52: Cyngor a chynhorthwy mewn cysylltiad ag ansawdd addysg drydyddol

158. Mae'r adran hon yn rhoi i'r Comisiwn y pŵer i ddyroddi cyngor a chanllawiau i unrhyw ddarparwr a gyllidir neu unrhyw ddarparwr cofrestredig i gynorthwyo gwella ansawdd yr addysg, y cwrs neu'r hyfforddiant a ddarperir. Yn benodol, caiff y Comisiwn roi cyngor a chanllawiau i ddarparwyr addysg drydyddol i wella ansawdd yr addysg a ddarperir, neu i atal ansawdd yr addysg, y cwrs neu'r hyfforddiant rhag dod yn annigonol. Dyna fyddai'n digwydd pan na fo ansawdd yr addysg, y cwrs neu'r hyfforddiant yn diwallu anghenion rhesymol y dysgwyr.

Adran 53: Adolygiadau sy'n berthnasol i ansawdd addysg drydyddol

159. Mae'r adran hon yn rhoi i'r Comisiwn y pŵer i gynnal adolygiad o unrhyw fater sy'n berthnasol i ansawdd addysg drydyddol a hyfforddiant. Caiff y Comisiwn drefnu i'r adolygiadau hyn gael eu cynnal ar ei ran.

Chapter 2 – Quality Assurance and Improving Quality

General quality assurance functions

Section 50: Quality assurance frameworks

153. Subsection (1) gives a power to the Commission to produce and publish a quality assurance framework or frameworks. A quality assurance framework is a document setting out information and guidance on policy and practice relating to the criteria and arrangements for assessing or inspecting the quality of tertiary education and training. It may outline the roles and responsibilities of Estyn and the designated quality assessment body in conducting quality assurance, as well as the roles and responsibilities of tertiary education providers and others regarding the quality of tertiary education, and consideration of the views of students about the quality of tertiary education they receive.
154. Frameworks may also set out guidance and information regarding the professional development of the tertiary education workforce and provide information and guidance on any other relevant matters related to quality assurance.
155. The Commission is required to consult with registered tertiary education providers, Estyn and any other stakeholders as the Commission sees fit before publishing, revising or withdrawing a quality assurance framework document (subsection (4)).
156. Estyn, the designated quality assurance body and the Commission will be required to take account of the quality assurance framework in their work (subsections (5) and (6)).

Section 51: Duty to monitor and promote improvement in the quality of regulated tertiary education

157. This section imposes a duty on the Commission to monitor and promote improvement in the quality of education and training across registered and funded tertiary education providers.

Section 52: Advice and assistance in respect of quality of tertiary education

158. This section gives the Commission the power to issue advice and guidance to any funded or registered provider to support quality improvement of the education, course or training provided. In particular, the Commission may provide advice and guidance to tertiary education providers to improve the quality of the education provided, or to prevent the quality of the education, course or training from becoming inadequate. This would be the case where the quality of the education, course or training does not meet the reasonable needs of the learners.

Section 53: Reviews relevant to quality of tertiary education

159. This section gives the Commission the power to carry out a review of any matter relevant to the quality of tertiary education and training. The Commission may arrange for these reviews to be carried out on its behalf.

Asesu ansawdd mewn addysg uwch

Adran 54: Asesu ansawdd addysg uwch

160. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn asesu, neu wneud trefniadau i asesu, ansawdd addysg uwch a ddarperir gan bob darparwr addysg drydyddol cofrestredig a chan y darparwyr hynny sy'n cynnig darpariaeth addysg uwch ar ran darparwyr sydd wedi eu cofrestru â'r Comisiwn. Mae'r ddyletswydd yn gymwys i asesu addysg uwch sy'n ymwneud â chategori cofrestru'r darparwr (is-adran (2)). Yn ogystal, mae is-adran (3) yn rhoi i'r Comisiwn y pŵer i asesu, neu wneud trefniadau i asesu, ansawdd addysg uwch a ddarperir gan unrhyw ddarparwr addysg drydyddol.
161. Rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi'r adroddiadau ar yr asesiadau hyn (is-adran (4)).
162. Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ei gwneud yn ofynnol i asesiadau gael eu cynnal fesul ysbaid benodedig, ac i'r adroddiadau ar yr asesiadau hyn gael eu cyhoeddi o fewn cyfnod penodedig (is-adran (5)). Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn cyn gwneud rheoliadau o'r fath (is-adran (6)).
163. Yn y Rhan hon o'r Ddeddf, mae cyfeiriadau at ddarparwr allanol yn ymwneud â'r darparwyr hynny sy'n gyfrifol am ddarparu cwrs addysg uwch cyfan, neu ran o gwrs o'r fath, ar ran darparwyr cofrestredig, ond nad ydynt eu hunain yn ddarparwyr cofrestredig (is-adran (7)). Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch pwy y dylid ei drin fel darparwr allanol (is-adran (8)).

Adran 55: Cynlluniau gweithredu yn dilyn asesiadau o dan adran 54

164. Yn dilyn asesiad ansawdd a chyhoeddi adroddiad arno, rhaid i'r darparwr cofrestredig sy'n darparu'r addysg uwch, neu'r darparwr cofrestredig y darperir yr addysg uwch ar ei ran –
- lunio datganiad ysgrifenedig ynghylch y camau gweithredu y mae'n bwriadu eu cymryd i ymateb i'r adroddiad, a'r amserlenni ar gyfer mynd i'r afael â'r camau gweithredu arfaethedig hynny, ac
 - anfon y datganiad ar y cynllun gweithredu i'r Comisiwn ac i'r corff dynodedig (os cynhaliwyd yr asesiad gan y corff dynodedig) (is-adran (2)).
165. Rhaid i'r darparwr hefyd gyhoeddi'r datganiad ar y cynllun gweithredu (is-adran (3)).
166. Mae cydymffurfedd â'r gofynion yn yr adran hon i lunio a chyhoeddi'r datganiad ar y cynllun gweithredu i'w drin fel amod cofrestru parhaus ar gyfer darparwr cofrestredig at ddiben pwerau gorfodi'r Comisiwn yn adran 39 (cyfarwyddydau) ac adran 41 (datgofrestru).

Adran 56: Arfer swyddogaethau asesu addysg uwch gan gorff dynodedig ac

Atodlen 3: Asesu addysg uwch: corff dynodedig

167. Mae Atodlen 3, a gyflwynir gan is-adran (1), yn nodi manylion pellach ynghylch:
- dynodi corff i gyflawni'r swyddogaethau asesu o dan adran 54 ar ran y Comisiwn,
 - goruchwyllo'r corff gan y Comisiwn, a
 - darpariaeth i'r corff godi ffioedd.

Assessment of quality in higher education

Section 54: Assessment of quality of higher education

160. Subsection (1) requires the Commission to assess, or make arrangements to assess, the quality of higher education provided by each registered tertiary education provider and by those providers offering higher education provision on behalf of providers registered with the Commission. The duty applies to the assessment of higher education relating to the provider's category of registration (subsection (2)). In addition, subsection (3) gives the Commission the power to assess, or make arrangements to assess, the quality of higher education provided by any tertiary education provider.
161. The Commission must publish the reports of these assessments (subsection (4)).
162. The Welsh Ministers may by regulations require assessments to be carried out at specified intervals and to publish the reports of these assessments within a specified period (subsection (5)). The Welsh Ministers must consult with the Commission before making such regulations (subsection (6)).
163. In this Part of the Act, references to an external provider relate to those providers who are responsible for providing all or part of a course of higher education on behalf of registered providers, but who are not registered providers in their own right (subsection (7)). The Welsh Minister may make regulations about who should be treated as an external provider (subsection (8)).

Section 55: Action plans following assessments under section 54

164. Following a quality assessment and published report, the registered provider providing the higher education, or the registered provider on behalf of which the higher education is provided, must—
- prepare a written statement of its planned actions to respond to the report and the timescales to address these planned actions, and
 - send the action plan statement to the Commission and to the designated body (if the designated body carried out the assessment) (subsection (2)).
165. The provider must also publish the action plan statement (subsection (3)).
166. Compliance with the requirements in this section to write and publish the action plan statement is to be treated as an ongoing registration condition for registered providers for the purpose of the enforcement powers of the Commission in section 39 (directions) and section 41 (de-registration).

Section 56: Exercise of higher education assessment functions by a designated body and Schedule 3 - Assessing higher education: designated body

167. Schedule 3, introduced by subsection (1), sets out further detail as regards:
- the designation of a body to conduct the assessment functions under section 54 on behalf of the Commission,
 - oversight of the body by the Commission, and
 - provision for the body to charge fees.

168. Ni fydd yn ddisgwyliedig i'r Comisiwn fel arfer gyflawni'r swyddogaethau asesu os yw wedi dynodi corff i gynnal yr asesiadau hyn ar ei ran, ond bydd yn cadw'r pŵer i wneud hynny (is-adran (3)).

Rhan 1 o Atodlen 3: Dynodiad

169. Mae paragraff 1 yn darparu i'r Comisiwn ddynodi corff i gyflawni'r swyddogaethau asesu ansawdd addysg uwch o dan adran 56(2) ar ran y Comisiwn.
170. Ni chaiff y Comisiwn ddynodi'r corff ond os yw'n ystyried bod y corff yn addas i arfer y swyddogaethau asesu, a thrwy ei ddynodi felly, i sicrhau bod ansawdd addysg uwch yn cael ei asesu'n effeithiol.
171. Rhaid i'r Comisiwn gael cydsyniad Gweinidogion Cymru er mwyn dynodi corff, a rhaid iddo ymgynghori â darparwyr cofrestredig sy'n darparu addysg uwch, yn ogystal ag unrhyw bersonau priodol eraill.
172. Rhaid i benderfyniad i ddynodi gyd-fynd â hysbysiad cyhoeddedig sy'n datgan enw'r corff sydd wedi ei ddynodi a'r dyddiad y daw'r dynodiad yn effeithiol.
173. Os yw Gweinidogion Cymru yn gwrthod rhoi eu cydsyniad i ddynodi'r corff a argymhellir, yna rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r rhesymau dros y penderfyniad hwn.
174. Mae paragraff 2 yn amlinellu'r meini prawf y mae rhaid i gorff eu bodloni er mwyn cael ei ystyried yn addas i arfer y swyddogaethau asesu, sef:
- bod y corff yn gallu arfer y swyddogaethau asesu yn effeithiol;
 - bod goruchwyliaeth lywodraethu neu strategol y corff wedi ei phenderfynu gan bobl sy'n cynrychioli ystod eang o ddarparwyr addysg uwch cofrestredig;
 - bod ffydd gyffredinol yn y corff gan ystod eang o ddarparwyr addysg uwch cofrestredig;
 - bod y corff yn annibynnol ar unrhyw ddarparwr addysg uwch penodol; a
 - bod y corff yn cydsynio i gael ei ddynodi.
175. Mae paragraff 3 yn caniatáu i'r Comisiwn ddileu dynodiad. Er mwyn dileu dynodiad, rhaid i'r Comisiwn ddyroddi hysbysiad sy'n pennu'r dyddiad y bydd y dynodiad yn dod i ben a'r rhesymau dros dynnu'r dynodiad yn ôl.
176. Caniateir i ddynodiad gael ei ddileu os yw'r Comisiwn yn ystyried y byddai gwneud hynny yn sicrhau bod ansawdd addysg uwch yng Nghymru yn cael ei asesu'n effeithiol, neu os yw'r corff dynodedig yn cydsynio neu'n gofyn i'w ddynodiad gael ei ddileu.
177. Oni bai bod y corff dynodedig yn cydsynio i'r dynodiad gael ei ddileu, rhaid cael cydsyniad Gweinidogion Cymru i ddileu'r dynodiad a rhaid ymgynghori â darparwyr addysg uwch cofrestredig, a phersonau priodol eraill cyn ei ddileu.

Rhan 2 o Atodlen 3: Goruchwyliaeth gan y Comisiwn

178. O ran y Comisiwn—
- caiff wneud taliadau i'r corff dynodedig er mwyn ei alluogi i gyflawni ei swyddogaethau asesu (paragraff 5), a

168. The Commission will not normally be expected to conduct the assessment functions if it has designated a body to conduct these assessments on its behalf but will retain the power to do so (subsection (3)).

Part 1 of Schedule 3: Designation

169. Paragraph 1 provides for the Commission to designate a body to conduct the higher education quality assessment functions under section 56(2) on the Commission's behalf.
170. The Commission may only designate the body if they consider that the body is suitable to exercise the assessment functions, and that in so designating, the effective assessment of the quality of higher education would be ensured.
171. The Commission must obtain the consent of the Welsh Ministers in order to designate a body, and it must consult registered providers providing higher education, as well as any other appropriate persons.
172. A decision to designate must be accompanied by a published notice which states the name of the body designated and the date on which designation becomes effective.
173. If the Welsh Ministers refuse to give their consent to designate the recommended body, then the Welsh Ministers must publish the reasons for this decision.
174. Paragraph 2 outlines the criteria a body must meet to be considered suitable to exercise the assessment functions. These are:
- the body can exercise the assessment functions effectively;
 - the body's governing or strategic oversight is determined by people representing a broad range of registered higher education providers;
 - the body can command general confidence from a broad range of registered higher education providers;
 - the body is independent of any particular higher education provider; and
 - the body consents to being designated.
175. Paragraph 3 allows the Commission to remove a designation. In order to remove a designation, the Commission must issue a notice specifying the date on which the designation will conclude and the reasons for withdrawing the designation.
176. A designation may be removed if the Commission consider that doing so would ensure effective assessment of quality in higher education in Wales, or if the designated body consents or requests to have its designation removed.
177. Unless the designated body consents to the removal of designation, removal of the designation must be with the consent of the Welsh Ministers and after consultation with registered higher education providers, and other appropriate persons.

Part 2 of Schedule 3: Oversight by the Commission

178. The Commission –
- may make payments to the designated body in order to enable it to carry out its assessment functions (paragraph 5), and

- rhaid iddo wneud trefniadau er mwyn dwyn y corff i gyfrif (paragraff 6).
179. Mae paragraff 7 yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff dynodedig lunio adroddiad blynyddol ar gyflawni ei swyddogaethau asesu a'i anfon i'r Comisiwn.
180. Mae paragraff 8 yn darparu i'r Comisiwn roi cyfarwyddydau i'r corff dynodedig ynghylch cyflawni'r swyddogaethau asesu. Rhaid i'r corff dynodedig gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddydau gan y Comisiwn. Caniateir i hyn gael ei wneud, er enghraifft, i sicrhau bod agweddau penodol ar fframwaith sicrhau ansawdd y Comisiwn (gweler adran 50) yn cael sylw dyledus mewn cysylltiad ag asesiadau addysg uwch, neu pan fo gan y Comisiwn bryderon mwy cyffredinol ynghylch y ffordd y mae'r corff dynodedig yn cyflawni ei swyddogaethau asesu.
181. Wrth roi cyfarwyddyd i'r corff dynodedig rhaid i'r Comisiwn er hynny roi sylw i arbenigedd y corff dynodedig ei hun a'i allu i sicrhau asesiad effeithiol a diduedd o ansawdd mewn addysg uwch.
182. Ni chaiff cyfarwyddyd a roddir gan y Comisiwn ond ymwneud â darparwyr addysg uwch cofrestredig yng Nghymru, neu is-grŵp o'r darparwyr hyn.
183. Mae paragraff 9 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn roi gwybod i Weinidogion Cymru os oes ganddo bryderon ynghylch sut y mae'r corff dynodedig yn cyflawni ei swyddogaethau statudol a'i addasrwydd i gyflawni'r swyddogaethau hynny.

Rhan 3 o Atodlen 3: Pŵer i godi ffioedd

184. Mae paragraff 10 yn caniatáu i'r corff dynodedig godi ffioedd ar ddarparwyr addysg uwch cofrestredig mewn cysylltiad â'r costau y bydd yn mynd iddynt wrth gyflawni ei swyddogaethau asesu. Wrth wneud hynny, rhaid iddo gyhoeddi cynllun sy'n nodi'r ffioedd y bydd yn eu codi a'r sail y cyfrifir y rhain arni, a rhaid i'r cynllun gael ei gymeradwyo gan y Comisiwn. Gall y cynllun gael ei ddiwygio a'i ailgymeradwyo gan y Comisiwn.
185. Mae paragraffau 10(3) i (5) yn caniatáu i'r ffioedd a delir gan ddarparwyr dalu costau cyffredinol y mae'r corff dynodedig yn mynd iddynt wrth gyflawni ei asesiadau ar draws yr holl ddarparwyr addysg uwch cofrestredig, ond yn atal cyfanswm y ffioedd a delir gan yr holl ddarparwyr rhag bod yn fwy na chyfanswm y costau y mae'r corff dynodedig yn mynd iddynt pan fydd unrhyw gyllid a ddarperir gan y Comisiwn o dan baragraff 5 wedi cael ei ystyried.

Rhan 4 o Atodlen 3: Dehongli

186. Mae paragraff 11 yn diffinio termau penodol a ddefnyddir yn yr Atodlen hon.

Arolygu addysg bellach neu hyfforddiant etc.

Adran 57: Dyletswydd y Prif Arolygydd i arolygu ac adrodd

187. Mae is-adran (1) yn nodi gwahanol fathau o addysg a hyfforddiant y mae rhaid i Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru eu harolygu.
188. Mae'r Prif Arolygydd, yr arolygwyr eraill a benodir gan Ei Mawrhydi i ffurfio rhan o'r arolygaeth gyda'r Prif Arolygydd, staff y Prif Arolygydd ac arolygwyr ychwanegol a benodir gan y Prif Arolygydd yn ffurfio corff o'r enw 'Estyn'.

- must make arrangements for holding the body to account (paragraph 6).
179. Paragraph 7 requires the designated body to prepare an annual report on the performance of its assessment functions and send it to the Commission.
180. Paragraph 8 provides for the Commission to give directions to the designated body regarding performance of the assessment functions. The designated body must comply with any directions from the Commission. This may be done, for example, to ensure that certain aspects of a Commission quality assurance framework (see section 50) are given due regard in respect of higher education assessments, or where the Commission has more general concerns regarding the designated body's conduct of its assessment functions.
181. When giving a direction to the designated body the Commission must nonetheless have regard to the designated body's own expertise and its ability to ensure effective and impartial assessment of quality in higher education.
182. A direction given by the Commission can only relate to registered higher education providers in Wales, or a subsection of these providers.
183. Paragraph 9 requires the Commission to inform the Welsh Ministers if it has concerns regarding the designated body's performance and its suitability for carrying out its statutory functions.

Part 3 of Schedule 3: Power to charge fees

184. Paragraph 10 allows the designated body to charge fees to registered higher education providers in respect of the costs it will incur when performing its assessment functions. When doing so, it must publish a scheme setting out the fees it will charge and the basis upon which these are calculated, which must be approved by the Commission. The scheme can be revised and re-approved by the Commission.
185. Paragraphs 10(3) to (5) allow for the fees paid by providers to cover general costs incurred by the designated body in performance of assessments across all registered higher education providers, but prevents the total fees paid by all providers from exceeding the total costs incurred by the designated body once any funding provided by the Commission under paragraph 5 is taken into account.

Part 4 of Schedule 3: Interpretation

186. Paragraph 11 defines certain terms used in this Schedule.

Inspection of further education or training etc.

Section 57: Duty of the Chief Inspector to inspect and report

187. Subsection (1) sets out different kinds of education and training that must be inspected by Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training for Wales.
188. The Chief Inspector, the other inspectors appointed by Her Majesty to form part of the inspectorate with the Chief Inspector, the Chief Inspector's staff and additional inspectors appointed by the Chief Inspector form a body known as 'Estyn'.

189. Nid yw Estyn yn gorff corfforedig â phersonoliaeth gyfreithiol sef y rheswm pam y rhoddir swyddogaethau statudol i swydd y Prif Arolygydd. Er bod y Ddeddf yn rhoi'r swyddogaethau i'r Prif Arolygydd, caniateir i arolygwyr eraill a staff yn Estyn arfer y swyddogaethau yn ymarferol yn rhinwedd darpariaeth ym mharagraff 5 o Atodlen 2 i Ddeddf Addysg 2005 sef y rheswm pam y mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at 'Estyn'.
190. Rhaid i Estyn arolygu:
- addysg bellach neu hyfforddiant a gyllidir neu a sicrheir gan y Comisiwn (byddai hyn yn cynnwys addysg bellach mewn colegau a hyfforddiant prentisiaeth);
 - addysg bellach neu hyfforddiant a gyllidir neu a sicrheir gan Weinidogion Cymru;
 - addysg bellach neu hyfforddiant a gyllidir gan awdurdod lleol yng Nghymru (byddai hyn yn cynnwys darpariaeth chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir a darpariaeth partneriaethau dysgu oedolion cymunedol);
 - addysg bellach neu hyfforddiant pan fo'r Comisiwn neu awdurdod lleol yng Nghymru yn ystyried rhoi cyllid i ddarparwr yr addysg bellach neu'r hyfforddiant;
 - addysg neu hyfforddiant ar gyfer dysgwyr o'r oedran ysgol gorfodol mewn darparwr addysg bellach neu addysg uwch yng Nghymru;
 - unrhyw addysg neu hyfforddiant a ddarperir yng Nghymru a bennir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau.
191. Nid yw'r gofyniad i arolygu o dan is-adran (1) yn gymwys i addysg a arolygir o dan Ran 1 o Ddeddf Addysg 2005, nac, os yw'r cyllid wedi ei roi at ddiben penodol, i addysg neu hyfforddiant nad yw'r cymorth hwnnw wedi ei gyfeirio ati neu ato (is-adran (2)).
192. Rhaid i Estyn gyhoeddi adroddiad ar bob arolygiad sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ei farn ynghylch:
- ansawdd yr addysg neu'r hyfforddiant a arolygir;
 - y safonau a gyrhaeddir gan y dysgwyr sy'n cael yr addysg honno a'r hyfforddiant hwnnw;
 - a yw'r adnoddau ariannol a roddir i'r darparwr yn cael eu rheoli'n effeithlon ac yn cael eu defnyddio mewn ffordd sy'n darparu gwerth am arian (is-adran (3)).
193. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ei gwneud yn ofynnol i arolygiadau gael eu cynnal fesul ysbaid benodedig a'i gwneud yn ofynnol i adroddiadau gael eu cwblhau o fewn cyfnod penodedig (is-adran (4)). Cyn gwneud y rheoliadau hynny, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn ac Estyn (is-adran (5)).

Adran 58: Pŵer y Prif Arolygydd i arolygu ac adrodd

194. Mae is-adran (1) yn rhoi i Estyn y pŵer i arolygu unrhyw addysg a hyfforddiant a ddisgrifir yn adran 57(1) ac adrodd arnynt. Os yw Estyn yn cynnal arolygiad o'r fath, rhaid iddo gyhoeddi adroddiad arno (yn rhinwedd cymhwyso adran 57(3) gan is-adran (4) o'r adran hon).

189. Estyn is not a body corporate with legal personality, which is why statutory functions are conferred on the office of Chief Inspector. Although the functions are conferred on the Chief Inspector by the Act, the functions may be exercised in practice by other inspectors and staff at Estyn by virtue of provision in paragraph 5 of Schedule 2 to the Education Act 2005, which is why these notes refer to 'Estyn'.
190. Estyn must inspect:
- further education or training funded or secured by the Commission (this would include further education in colleges and apprenticeship training);
 - further education or training funded or secured by the Welsh Ministers;
 - further education or training funded by a local authority in Wales (this would include mainstream sixth form provision in maintained schools and community-based adult learning partnership provision);
 - further education or training where the Commission or a local authority in Wales is contemplating giving funding to the provider of the further education or training;
 - education or training for compulsory school age learners in a further education or higher education provider in Wales;
 - any education or training provided in Wales that is specified by the Welsh Ministers in regulations.
191. The requirement to inspect under subsection (1) does not apply to education inspected under Part 1 of the Education Act 2005, or if the funding is given for a specific purpose, to education or training at which that support is not directed (subsection (2)).
192. Estyn must publish a report for each inspection to include, but not limited to, views on:
- the quality of the education or training inspected;
 - the standards achieved by the learners receiving the education and training;
 - whether the financial resources given to the provider are managed efficiently and used in a way which provides value for money (subsection (3)).
193. The Welsh Ministers may, by regulations, require inspections to be carried out at specified intervals and require reports to be completed within a specified period (subsection (4)). Before making such regulations, the Welsh Ministers must consult the Commission and Estyn (subsection (5)).

Section 58: Power of the Chief Inspector to inspect and report

194. Subsection (1) gives Estyn the power to inspect and report on any education and training described in section 57(1). If it does undertake such an inspection, it must publish a report (by virtue of the application of section 57(3) by subsection (4) of this section).

195. Mae gan Estyn hefyd y pŵer i arolygu unrhyw addysg neu hyfforddiant nas disgrifir yn 57(1) ac adrodd arni neu arno, ond byddai'r ddarpariaeth honno felly pe bai wedi ei chyllido gan y Comisiwn neu Weinidogion Cymru, os yw'r darparwr yn gofyn i Estyn wneud hynny (is-adran (2)). Yn yr ail achos, caiff Estyn godi tâl ar y darparwr am gost yr arolygiad, a chaiff gyhoeddi'r adroddiad arno (is-adran (3)).

Adran 59: Dyletswydd i ddarparu gwybodaeth a chyngor i'r Comisiwn

196. Rhaid i Estyn sicrhau bod y Comisiwn yn cael gwybod yn rheolaidd am arolygiadau a gynhelir, ac adroddiadau a lunnir, o dan adran 57(1) mewn perthynas â darpariaeth a gyllidir neu a sicrheir gan y Comisiwn (is-adrannau (1) a (2)). Pan fydd y Comisiwn yn gofyn iddo wneud hynny, rhaid i Estyn roi cyngor i'r Comisiwn ar faterion sy'n ymwneud ag addysg neu hyfforddiant o dan adran 57, arolygu'r ddarpariaeth honno, ac adrodd ar ganlyniadau arolygiadau a gynhelir o dan yr adran hon (is-adrannau (1) a (3)).

Adran 60: Dyletswydd i ddarparu gwybodaeth a chyngor i Weinidogion Cymru

197. Rhaid i Estyn sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cael gwybod yn rheolaidd am arolygiadau a gyflawnir, ac adroddiadau a lunnir, o dan adran 57(1) mewn perthynas â darpariaeth nas cyllidir neu nas sicrheir fel arall gan y Comisiwn (is-adrannau (1) a (2)). Pan fydd Gweinidogion Cymru yn gofyn iddo wneud hynny, rhaid i Estyn roi cyngor i Weinidogion Cymru ar faterion sy'n ymwneud ag addysg neu hyfforddiant o dan adran 57, arolygu'r ddarpariaeth honno, ac adrodd ar ganlyniadau arolygiadau a gynhelir o dan yr adran hon (is-adrannau (1) a (2)).

Adran 61: Swyddogaethau ychwanegol y Prif Arolygydd

198. Drwy reoliadau, caiff Gweinidogion Cymru roi swyddogaethau ychwanegol i Estyn mewn perthynas â'r addysg neu'r hyfforddiant a ddisgrifir yn adran 57(1) (is-adran (1)). Caiff y rhain gynnwys, ymhlith pethau eraill, swyddogaethau arolygu sy'n ymwneud â hyfforddiant ar gyfer athrawon, darlithwyr, hyfforddwyr neu eraill sy'n darparu'r addysg honno neu'r hyfforddiant hwnnw (is-adran (2)).

Adran 62: Cynlluniau gweithredu yn dilyn arolygiadau gan y Prif Arolygydd

199. Yn dilyn cyhoeddi adroddiad ar arolygiad, rhaid i'r darparwr lunio datganiad ysgrifenedig o'r camau gweithredu y mae'n bwriadu eu cymryd i ymateb i'r adroddiad, a'r amserlenni ar gyfer mynd i'r afael â'r camau gweithredu arfaethedig hynny (is-adran (3)). Rhaid i'r darparwr gyhoeddi'r datganiad ar y cynllun gweithredu (is-adran (4)). Nid yw'r adran hon yn gymwys i'r arolygiadau hynny a gynhelir o ganlyniad i gais o dan adran 58(2) neu arolygiad ardal o dan adran 63 (is-adran (2)).
200. Mae cydymffurfedd â'r ddyletswydd i lunio datganiad ar y cynllun gweithredu yn un o ofynion y telerau ac amodau cyllido gan y Comisiwn neu Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf hon (is-adrannau (7) ac (8)).
201. Mae cydymffurfedd â'r ddyletswydd i lunio a chyhoeddi datganiad ar y cynllun gweithredu i'w drin fel amod cofrestru parhaus ar gyfer darparwyr cofrestredig sy'n darparu'r addysg honno neu'r hyfforddiant hwnnw a ddisgrifir yn adran 57(1) at ddiben adran 39 (cyfarwyddydau) ac adran 41 (datgofrestru).

195. Estyn also has the power to inspect and report on any education or training which is not described in section 57(1), but the provision would be if it was funded by the Commission or the Welsh Ministers, if the provider asks Estyn to do so (subsection (2)). In the latter case, Estyn may charge the provider for the cost of the inspection and may publish the report (subsection (3)).

Section 59: Duty to provide information and advice to the Commission

196. Estyn must keep the Commission informed about inspections and reports carried out under section 57(1) in relation to provision funded or secured by the Commission (subsections (1) and (2)). When asked to do so by the Commission, Estyn must give the Commission advice on matters relating to education or training under section 57, inspect such provision and report on the result of inspections conducted under this section (subsections (1) and (3)).

Section 60: Duty to provide information and advice to the Welsh Ministers

197. Estyn must keep the Welsh Ministers informed about inspections and reports carried out under section 57(1) in relation to provision that is not funded or otherwise secured by the Commission (subsections (1) and (2)). When asked to do so by the Welsh Ministers, Estyn must give the Welsh Ministers advice on matters relating to education or training under section 57, inspect such provision and report on the result of inspections conducted under this section (subsections (1) and (2)).

Section 61: Additional functions of the Chief Inspector

198. Through regulations, the Welsh Ministers may confer additional functions on Estyn in relation to the education or training described in section 57(1) (subsection (1)). These may, amongst other things, include inspection functions related to training for teachers, lecturers, trainers or others providing such education or training (subsection (2)).

Section 62: Action plans following inspections by the Chief Inspector

199. Following the publication of an inspection report, the provider must prepare a written statement of the planned actions it will take in response to the report and the timescales to address those planned actions (subsection (3)). The provider must publish the action plan statement (subsection (4)). This section does not apply to those inspections conducted as a result of a request under section 58(2) or an area inspection under section 63 (subsection (2)).
200. Compliance with the duty to prepare an action plan statement is a requirement of the terms and conditions of funding by the Commission or the Welsh Ministers under this Act (subsections (7) and (8)).
201. Compliance with the duty to prepare and publish an action plan statement is to be treated as an ongoing registration condition for registered providers who provide education or training described in section 57(1) for the purpose of section 39 (directions) and section 41 (de-registration).

Adran 63: Arolygiadau ardal

202. Rhaid i Estyn gynnal arolygiad ardal os gofynnir iddo wneud hynny gan y Comisiwn neu Weinidogion Cymru a chyhoeddi adroddiad ar bob arolygiad ardal (is-adran (2)). Caiff Estyn hefyd gynnal arolygiad o'r fath heb gael ei ofyn i wneud hynny (is-adran (1)).
203. Mae arolygiad ardal yn arolygiad o'r canlynol:
- ansawdd ac argaeledd agwedd ar addysg neu hyfforddiant mewn ardal benodedig o Gymru i ddysgwyr sy'n 15 oed neu'n hŷn;
 - y safonau a gyrhaeddir gan y dysgwyr sy'n cael yr addysg honno neu'r hyfforddiant hwnnw;
 - a yw'r adnoddau ariannol sy'n cael eu rhoi ar gael i'r rheini sy'n darparu'r addysg honno neu'r hyfforddiant hwnnw yn cael eu rheoli'n effeithlon ac yn cael eu defnyddio mewn ffordd sy'n darparu gwerth am arian.
204. Yr agwedd ar addysg neu hyfforddiant sydd i'w harolygu drwy arolygiad ardal yw unrhyw addysg neu hyfforddiant a ddisgrifir yn adran 57 neu sydd o fewn cylch gwaith Estyn fel y darperir ar ei gyfer mewn unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth arall (is-adran (3)).
205. Ni chaiff y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i Estyn gynnal arolygiad ardal ond gael ei ddefnyddio gan y Comisiwn mewn perthynas ag unrhyw addysg neu hyfforddiant a gyllidir neu a sicrheir ganddo (is-adran (4)(a)). Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i Estyn gynnal arolygiad ardal mewn perthynas ag unrhyw ddarpariaeth arall sy'n bodloni'r diffiniadau a nodir yn yr adran hon (is-adran (4)(b)).
206. Caiff ffocws arolygiad ardal hefyd ymestyn i gynnwys y modd y mae adnoddau ariannol wedi eu dyrannu i'r addysg neu'r hyfforddiant a arolygir gan Estyn, ac a yw hyn yn darparu gwerth am arian, os rhoddwyd y cyllid gan y Comisiwn neu awdurdod lleol yng Nghymru (is-adran (5)).
207. Rhaid i wybodaeth sy'n ymwneud â'r arolygiad ardal gael ei darparu i Estyn gan unrhyw ddarparwr addysg neu hyfforddiant sy'n destun yr arolygiad ardal, unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru sydd yn yr ardal sy'n destun yr arolygiad ardal, y Comisiwn, a Gweinidogion Cymru (is-adran (7)).
208. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth bellach o ran y gofyniad i ddarparu gwybodaeth a'r terfynau amser erbyn pryd y mae rhaid cyhoeddi'r adroddiadau ar arolygiadau ardal (is-adran (9)).

Adran 64: Hawl mynediad a throseddau

209. Wrth gynnal arolygiadau o dan Bennod 2 o'r Ddeddf, mae gan Estyn hawl mynediad ar bob adeg resymol i fangre y darperir yr addysg sy'n cael ei harolygu neu'r hyfforddiant sy'n cael ei arolygu ynddi; a hawl mynediad i fangre darparwr addysg a hyfforddiant sy'n cael ei defnyddio mewn cysylltiad â'r ddarpariaeth (is-adrannau (1)(a) a (b)).

Section 63: Area inspections

202. Estyn must carry out an area inspection if requested to do so by the Commission or the Welsh Ministers and publish a report for each area inspection (subsection (2)). It may also conduct such an inspection without being asked (subsection (1)).
203. An area inspection is an inspection of:
- the quality and availability of an aspect of education or training in a specified area of Wales for learners aged 15 or over;
 - the standards achieved by the learners receiving the education or training;
 - whether the financial resources made available to those providing that education or training are managed efficiently and used in a way which provides value for money.
204. The aspect of education or training to be inspected through an area inspection is any education or training described in section 57 or within Estyn’s remit as provided for in any other primary or subordinate legislation (subsection (3)).
205. The power to require Estyn to carry out an area inspection may only be used by the Commission with regard to any education or training it funds or secures (subsection (4)(a)). The Welsh Ministers may require Estyn to carry out an area inspection in regard to any other provision which meets the definitions set out in this section (subsection (4)(b)).
206. The focus of an area inspection may extend to the manner in which financial resources have been allocated to the education or training being inspected by Estyn, and whether this provides value for money, if funding has been applied by the Commission or a local authority in Wales (subsection (5)).
207. Information related to the area inspection must be provided to Estyn by any provider of education or training who is subject to the area inspection, any local authority in Wales within the area that is the focus of the area inspection, the Commission, and the Welsh Ministers (subsection (7)).
208. The Welsh Ministers may, by regulations, make further provision in regard to the requirement to provide information and the time scales in which the reports of area inspections must be published (subsection (9)).

Section 64: Rights of entry and offences

209. When conducting inspections under Chapter 2 of the Act, Estyn has a right of entry at all reasonable times to premises on which the education or training being inspected is provided; and to premises of a provider of education and training used in connection with the provision (subsections (1)(a) and (b)).

210. Mae gan Estyn yr hawl hefyd i edrych ar unrhyw gofnodion a dogfennau sy'n cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud ag addysg neu hyfforddiant, y mae'r arolygydd eu hangen at ddibenion yr arolygiad, ac i gymryd copïau o unrhyw gofnodion a dogfennau o'r fath (is-adran (1)(c)).
211. Ni chaniateir defnyddio hawl Estyn i gael mynediad i fangre ar gyfer addysg neu hyfforddiant a ddarperir gan gyflogwr yn y gweithle ond os yw'r cyflogwr wedi cael rhybudd rhesymol yn ysgrifenedig (is-adran (2)). Nid yw'r pwerau o dan yr adran hon yn cynnwys yr hawl i fynd i fangre sy'n annedd heb gydsyniad y meddiannydd (is-adran (7)). Hefyd, mae "mangre" yn cynnwys mangre yn Lloegr yn ogystal â mangre yng Nghymru (is-adran (8)).
212. Mae'r hawl i arolygu a chymryd copïau yn cynnwys cael mynediad i gyfrifiaduron ac unrhyw ddyfais arall a ddefnyddir i gyrchu cofnodion neu ddogfennau, a chael cynhorthwy fel y bo'n rhesymol ofynnol gan y sawl sy'n defnyddio'r cyfarpar neu a chanddo ofal dros y cyfarpar (is-adran (3)).
213. Mae'n drosedd rhwystro Estyn yn fwriadol wrth iddo gynnal arolygiadau, ac mae unrhyw un a ddyfernir yn euog o'r drosedd hon yn agored i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 4 ar y raddfa safonol (is-adrannau (4) a (5)).

Adran 65: Arolygon ac astudiaethau

214. Caiff y Comisiwn gyfarwyddo Estyn i gynnal arolwg sy'n ymwneud â pholisi o ran addysg bellach neu hyfforddiant yng Nghymru neu ar gyfer ardal benodedig o Gymru (is-adran (1)(a)). Caiff y Comisiwn hefyd gyfarwyddo Estyn i gynnal astudiaeth gymharol o addysg neu hyfforddiant y tu allan i Gymru (is-adran (1)(b)). Caiff Estyn hefyd gynnal yr arolygon neu'r astudiaethau hynny ei hun, heb gael ei gyfarwyddo i wneud hynny (is-adran (2)).

Adran 66: Adroddiadau blynyddol

215. Mae adran 21(1)(a) o Ddeddf Addysg 2005 yn ei gwneud yn ofynnol i Estyn lunio adroddiad blynyddol. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r adroddiad blynyddol gynnwys manylion gwaith Estyn wrth iddo arfer ei swyddogaethau o dan Bennod 2.
216. Mae adran 21 o Ddeddf Addysg 2005 hefyd yn cynnwys pŵer i Estyn lunio adroddiadau eraill. Mae is-adran (2) yn darparu i'r y pŵer hwnnw gynnwys pŵer i wneud adroddiadau mewn cysylltiad â materion sy'n ymwneud â'r addysg neu hyfforddiant a ddisgrifir yn adran 57(1) o'r Ddeddf.

Adran 67: Cynllun blynyddol y Prif Arolygydd

217. Rhaid i Estyn lunio cynllun blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n nodi amcangyfrifon o'r incwm a'r gwariant sy'n angenrheidiol iddo gyflawni ei waith yn effeithiol (is-adran (1)). Rhaid i'r cynllun gynnwys cynigion ar gyfer rheoli cyllid a ddarperir i Estyn gan y Comisiwn (o dan adran 68) a chan Weinidogion Cymru (o dan adran 104(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998) (is-adran (2)).

210. Estyn also has a right to inspect and take copies of any records and documents containing information relating to education or training, which the inspector requires for the purposes of the inspection (subsection (1)(c)).
211. The right of entry for Estyn to premises for education or training provided by an employer in the workplace may only be used if the employer has been given reasonable notice in writing (subsection (2)). The powers under this section do not include the right to enter premises that are a dwelling without the consent of the occupier (subsection (7)). And “premises” includes premises in England as well as Wales (subsection (8)).
212. The right to inspect and take copies includes having access to computers and any other device used to access records or documents, and assistance as reasonably required from those who use or have charge of the equipment (subsection (3)).
213. It is a criminal offence to wilfully obstruct Estyn when conducting inspections, and anyone found guilty of this offence is liable to be fined up to level 4 on the standard scale (subsections (4) and (5)).

Section 65: Surveys and studies

214. The Commission may direct Estyn to carry out a survey related to further education or training policy for Wales or for a specified area of Wales (subsection (1)(a)). The Commission may also direct Estyn to carry out a comparative study of education or training outside of Wales (subsection (1)(b)). Estyn may also carry out such surveys or studies itself, without being directed to do so (subsection (2)).

Section 66: Annual reports

215. Section 21(1)(a) of the Education Act 2005 requires Estyn to produce an annual report. Subsection (1) requires the annual report to include details of the exercise by Estyn of its functions under Chapter 2.
216. Section 21 of the Education Act 2005 also includes a power for Estyn to produce other reports. Subsection (2) provides for that power to include power to make reports with respect to matters relating to the education or training described in section 57(1) of the Act.

Section 67: Annual plan of the Chief Inspector

217. Estyn must prepare an annual plan for each financial year setting out estimates of income and expenditure necessary to carry out its work effectively (subsection (1)). The plan must include proposals for managing funds provided to Estyn from the Commission (under section 68) and from the Welsh Ministers (under section 104(4) of the Government of Wales Act 1998) (subsection (2)).

218. Rhaid i Estyn gyflwyno'r cynllun i'r Comisiwn a Gweinidogion Cymru ar gyfer ymgynghori a chymeradwyo, erbyn y dyddiad hwnnw cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'r Comisiwn a Gweinidogion Cymru yn ei gyfarwyddo ar y cyd (is-adran (3)). Caiff Estyn gyhoeddi'r cynllun ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan y Comisiwn a Gweinidogion Cymru (is-adran (4)).

Adran 68: Cyllido arolygiadau ac adroddiadau ar addysg bellach a hyfforddiant etc.

219. Rhaid i'r Comisiwn ddarparu'r cyllid hwnnw i Estyn y mae'r Comisiwn yn ystyried ei fod yn briodol er mwyn i Estyn allu cyflawni ei waith mewn perthynas â'r addysg neu hyfforddiant a gyllidir gan y Comisiwn (is-adran (1)).
220. Wrth benderfynu faint o gyllid sy'n briodol i Estyn, rhaid i'r Comisiwn roi sylw i faint y mae'r Comisiwn yn ystyried y mae angen i Estyn ei wario i arfer ei swyddogaethau (is-adran (2)). Rhaid i'r Comisiwn ymgynghori ag Estyn cyn dechrau pob blwyddyn ariannol mewn perthynas â'r cyllid y mae'n mynd i'w ddarparu ar gyfer y flwyddyn honno (is-adran (3)).
221. Rhaid i'r Comisiwn gymeradwyo'r rhannau o gynllun blynyddol Estyn sy'n ymwneud â gwaith Estyn mewn cysylltiad ag addysg neu hyfforddiant a gyllidir gan y Comisiwn a phenderfynu faint o gyllid y bydd yn ei ddarparu yn unol â'r gweithgareddau a amlinellir yn y cynllun blynyddol (is-adran (4)). Caiff y Comisiwn ofyn i Estyn addasu'r cynllun blynyddol cyn iddo gael ei gymeradwyo (is-adran (5)).
222. Mae adran 104 o Deddf Llywodraeth Cymru 1998 wedi ei diwygio i ddarparu nad yw Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am ddarparu cyllid i Estyn ar gyfer addysg neu hyfforddiant a gyllidir neu a sicrheir gan y Comisiwn (is-adran (6)(a)). Mae adran 104 o'r Ddeddf honno wedi ei diwygio hefyd fel nad yw Gweinidogion Cymru ond yn gyfrifol am gymeradwyo'r rhannau hynny o gynllun blynyddol Estyn sy'n ymwneud â swyddogaethau y mae Gweinidogion Cymru yn darparu cyllid mewn cysylltiad â hwy (is-adran (6)(b)).

Pennod 3: Darpariaethau Gorfodi a Gweithdrefnol Pellach

Ymyrryd yn ymddygiad sefydliadau addysg bellach

Adran 69: Y seiliau dros ymyrryd ac Adran 70: Phwerau i ymyrryd

223. Mae adrannau 69 a 70 yn disodli'r darpariaethau a nodwyd yn flaenorol yn adran 57 o Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 sy'n ymwneud â phwerau ymyrryd Gweinidogion Cymru ar gyfer sefydliadau yn y sector addysg bellach yng Nghymru.
224. Mae adran 69 yn pennu'r seiliau y mae rhaid eu bodloni er mwyn i Weinidogion Cymru ymyrryd yn ymddygiad darparwr addysg drydyddol yng Nghymru sy'n sefydliad yng Nghymru yn y sector addysg bellach. Gweler adran 144 am esboniad o ystyr y termau hyn.
225. Mae adran 70 yn gwneud darpariaeth ar gyfer y ffordd y caiff Gweinidogion Cymru ymyrryd os yw un neu ragor o'r seiliau dros ymyrryd a nodir yn adran 68 wedi eu bodloni. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn cyn arfer eu pwerau ymyrryd o dan yr adran hon.

218. Estyn must submit the plan to the Commission and the Welsh Ministers for consultation and approval, by such date before the beginning of the financial year as the Commission and the Welsh Ministers may jointly direct (subsection (3)). Estyn may publish the plan after it has been approved by the Commission and the Welsh Ministers (subsection (4)).

Section 68: Funding of inspections and reports on further education and training etc.

219. The Commission must provide such funding to Estyn as the Commission considers appropriate so that Estyn is able to carry out its work in relation to the education or training that is funded by the Commission (subsection (1)).
220. In determining how much funding is appropriate for Estyn, the Commission must have regard to what the Commission considers Estyn needs to spend to exercise its functions (subsection (2)). The Commission must consult with Estyn before the beginning of each financial year in relation to the funding it is going to provide for that year (subsection (3)).
221. The Commission must approve the parts of Estyn's annual plan which relate to Estyn's work in respect of education or training funded by the Commission and determine the amount of funding it will provide according to the activities outlined in the annual plan (subsection (4)). The Commission may ask Estyn to modify the annual plan before it is approved (subsection (5)).
222. Section 104 of the Government of Wales Act 1998 is amended to provide that the Welsh Ministers are not responsible for the provision of funding to Estyn for education or training funded or secured by the Commission (subsection (6)(a)). Section 104 of that Act is also amended so that the Welsh Ministers are only responsible for approving such parts of Estyn's annual plan as relate to functions in respect of which the Welsh Ministers provide funding (subsection (6)(b)).

Chapter 3: Further Enforcement and Procedural Provisions

Intervention in the conduct of further education institutions

Section 69: Grounds for intervention and Section 70: Powers to intervene

223. Sections 69 and 70 replace the provisions previously set out in section 57 of the Further and Higher Education Act 1992 relating to the Welsh Ministers' powers of intervention for institutions in the further education sector in Wales.
224. Section 69 specifies the grounds that must be met in order for the Welsh Ministers to intervene in the conduct of a tertiary education provider in Wales that is an institution in Wales within the further education sector. See section 144 for an interpretation of these terms.
225. Section 70 makes provision for the way that the Welsh Ministers may intervene if one or more of the grounds for intervention set out in section 68 are met. The Welsh Ministers must consult with the Commission before exercising their intervention powers under this section.

226. Mae cyfarwyddydau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 70 yn orfodadwy drwy waharddeb (gweler adran 82).

Adran 71: Hysbysu gan y Comisiwn am y seiliau dros ymyrryd

227. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i hysbysu Gweinidogion Cymru os yw o'r farn bod unrhyw un neu ragor o'r seiliau dros ymyrryd a bennir yn adran 69 wedi eu bodloni (is-adran (1)). Rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i farn y Comisiwn wrth benderfynu a ddylid arfer unrhyw un neu ragor o'u pwerau ymyrryd o dan adran 70 ai peidio (is-adran (2)).

Adran 72: Datganiad gan Weinidogion Cymru ar bwerau ymyrryd

228. Mae adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad ar sut y maent yn bwriadu arfer eu swyddogaethau ymyrryd o dan adran 70 a chadw'r datganiad hwnnw o dan adolygiad (is-adran (1)). Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau hynny y maent yn ystyried eu bod yn briodol cyn cyhoeddi'r datganiad, neu ddatganiad diwygiedig, a gosod copi ohono gerbron y Senedd cyn gynted â phosibl ar ôl iddo gael ei gyhoeddi.

Mynediad i wybodaeth a chyfleusterau

Adran 73: Dyletswydd i gydweithredu

229. Mae adran 73 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu darparwyr allanol (gweler adran 54) gydweithredu â phersonau sy'n arfer, ar ran y Comisiwn, swyddogaethau o dan yr adrannau a ganlyn o'r Ddeddf:

- adran 51 - dyletswydd i fonitro ansawdd addysg drydyddol reoleiddiedig ac i hybu gwelliant yn ansawdd yr addysg honno;
- adran 53 - adolygiadau sy'n berthnasol i ansawdd addysg drydyddol;
- adran 54(1) - asesu ansawdd addysg uwch.

230. Mae'r adran hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu darparwyr anghofrestredig yng Nghymru sy'n darparu addysg bellach ac a gyllidir o dan adran 96, gydweithredu â phersonau sy'n arfer, ar ran y Comisiwn, swyddogaethau o dan yr adrannau a ganlyn o'r Ddeddf:

- adran 51 - dyletswydd i fonitro ansawdd addysg drydyddol reoleiddiedig ac i hybu gwelliant yn ansawdd yr addysg honno;
- adran 53 - adolygiadau sy'n berthnasol i ansawdd addysg drydyddol.

231. Mae'r ddyletswydd i gydweithredu yn ei gwneud yn ofynnol i'r gyrff llywodraethu hynny sicrhau y darperir yr wybodaeth, y cynhorthwy a'r mynediad i gyfleusterau, systemau neu gyfarpar y gallai fod eu hangen ar y person at ddibenion y swyddogaethau hynny.

232. Mae enghreifftiau o bersonau a allai weithredu ar ran y Comisiwn mewn cysylltiad â'r swyddogaethau hynny yn cynnwys Estyn a chorff sydd wedi ei ddynodi i gynnal asesiadau addysg uwch o dan Atodlen 3.

233. Mae'r ddyletswydd a osodir ar gyrff llywodraethu i gydweithredu o dan adran 73 hefyd yn gymwys mewn perthynas â phwerau mynd i mewn ac arolygu o dan adran 74.

226. Directions issued by the Welsh Ministers under section 70 are enforceable by injunction (see section 82).

Section 71: Notification by the Commission of grounds for intervention

227. This section places the Commission under a duty to notify the Welsh Ministers if it is of the view that any of the grounds for intervention specified in section 69 have been met (subsection (1)). The Welsh Ministers must have regard to the Commission's view in deciding whether or not to exercise any of their intervention powers under section 70 (subsection (2)).

Section 72: Welsh Ministers' statement on intervention powers

228. This section requires the Welsh Ministers to publish and keep under review a statement on how they propose to exercise their intervention functions under section 70 (subsection (1)). The Welsh Ministers must consult such persons as they consider appropriate before publishing the statement, or revised statement, and lay a copy before the Senedd as soon as possible after it is published.

Access to information and facilities

Section 73: Duty to co-operate

229. Section 73 requires governing bodies of external providers (see section 54) to co-operate with persons who are exercising, on behalf of the Commission, functions under the following sections of the Act:
- section 51 - duty to monitor, and promote improvement in, the quality of regulated tertiary education;
 - section 53 - reviews relevant to the quality of tertiary education;
 - section 54(1) - assessment of the quality of higher education.
230. This section also requires governing bodies of unregistered providers in Wales that provide further education and are funded under section 96, to co-operate with persons who are exercising, on behalf of the Commission, functions under the following sections of the Act:
- section 51 - duty to monitor, and promote improvement in, the quality of regulated tertiary education;
 - section 53 - reviews relevant to the quality of tertiary education
231. The duty to co-operate requires such governing bodies to ensure the provision of information, assistance and access to facilities, systems or equipment that might be required by the person for the purposes of those functions.
232. Examples of persons that might act on the Commission's behalf in respect of these functions include Estyn and a body designated to conduct higher education assessments under Schedule 3.
233. The duty imposed on governing bodies to co-operate under section 73 also applies in respect of powers of entry and inspection under section 74.

234. Caiff y Comisiwn roi cyfarwyddyd i gorff llywodraethu os yw'r Comisiwn wedi ei fodloni bod y corff wedi methu â chydymffurfio â'i ddyletswydd i gydweithredu. Caiff y cyfarwyddyd ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu gymryd camau, neu beidio â chymryd camau, i sicrhau y darperir gwybodaeth, cynhorthwy neu fynediad i gyfleusterau, systemau neu gyfarpar (is-adran (4)). Mae'r gofynion gweithdrefnol yn adrannau 75 i 78 yn gymwys i benderfyniadau i roi cyfarwyddydau.

Adran 74: Pwerau mynd i mewn ac arolygu

235. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer hawl i fynd i mewn ac arolygu i berson sydd wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan y Comisiwn, sef "person awdurdodedig".

236. Mae is-adran (1) yn darparu y caiff person awdurdodedig fynd i fangre darparwr cofrestredig ac edrych ar ddogfennau y deuir o hyd iddynt ym mangre darparwr cofrestredig, eu copïo neu eu cymryd at ddibenion arfer y swyddogaethau a ganlyn:

- monitro cydymffurfedd ag amodau cofrestru parhaus (adran 36);
- adolygiadau sy'n berthnasol i gydymffurfedd ag amodau cofrestru parhaus (adran 38);
- monitro ansawdd addysg drydyddol a hybu gwelliant yn ansawdd yr addysg honno (adran 51);
- cynnal adolygiadau sy'n berthnasol i ansawdd addysg drydyddol (adran 53); neu
- asesu ansawdd addysg uwch (adran 54(1)).

237. Mae is-adran (2) yn datgan y caiff person awdurdodedig fynd i fangre ac edrych ar ddogfennau y deuir o hyd iddynt ym mangreoedd darparwyr allanol, eu copïo a'u cymryd at ddibenion arfer y swyddogaethau a ganlyn:

- monitro ansawdd addysg drydyddol a hybu gwelliant yn ansawdd yr addysg honno (adran 51);
- cynnal adolygiadau sy'n berthnasol i ansawdd addysg drydyddol (adran 53); neu
- asesu ansawdd addysg uwch (adran 54(1)).

238. Mae'r term "dogfennau" yn yr adran hon yn cynnwys gwybodaeth ar unrhyw ffurf a dogfennau sydd wedi eu storio ar gyfrifiaduron yn y fangre, neu y gellir eu cyrchu gan gyfrifiaduron yn y fangre (is-adran (3)).

239. Mae'r pŵer i edrych ar ddogfennau, eu copïo neu eu cymryd yn cynnwys y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i berson ddarparu dogfennau, a'i gwneud yn ofynnol i'r dogfennau gael eu darparu ar ffurf benodol neu mewn fformat penodol, ac i edrych ar unrhyw systemau storio electronig lle y mae dogfennau wedi eu creu neu eu storio (is-adran (4)).

240. Cyn arfer pŵer o dan yr adran hon, rhaid rhoi rhybudd rhesymol i gorff llywodraethu'r darparwr cofrestredig neu'r darparwr allanol yr arferir y pwerau mewn perthynas â'i fangre, ac i gorff llywodraethu unrhyw ddarparwr cofrestredig y mae'r darparwr neu'r darparwr allanol yn darparu addysg y mae arfer y swyddogaethau mynd i mewn ac arolygu yn ymwneud â hi ar ei ran (is-adran (5)). Fodd bynnag, nid oes angen rhoi rhybudd os oes angen arfer y pŵer ar frys, neu os byddai rhoi rhybudd yn tanseilio diben arfer y pŵer (is-adran (6)).

234. The Commission may give a direction to a governing body if the Commission is satisfied that the body has failed to comply with its duty to co-operate. The direction may require a governing body to take or not take steps to secure the provision of information, assistance or access to facilities, systems or equipment (subsection (4)). The procedural requirements in sections 75 to 78 apply to decisions to give directions.

Section 74: Powers of entry and inspection

235. This section provides for a right of entry and inspection for a person authorised in writing by the Commission, an “authorised person”.
236. Subsection (1) provides that an authorised person may enter the premises of a registered provider and inspect, copy and take documents found on the premises of a registered provider for the purposes of the following functions:
- monitoring compliance with ongoing registration conditions (section 36);
 - reviews relevant to compliance with ongoing registration conditions (section 38);
 - monitoring and promoting improvement in the quality of tertiary education (section 51);
 - conducting reviews relevant to the quality of tertiary education (section 531);
or
 - assessing the quality of higher education (section 54(1)).
237. Subsection (2) states that an authorised person may enter premises and inspect, copy and take documents found on the premises of external providers for the purposes of the following functions:
- monitoring and promoting improvement in the quality of tertiary education (section 51);
 - conducting reviews regarding the quality of tertiary education (section 53); or
 - assessing the quality of higher education (section 54(1)).
238. The term “documents” in this section includes information in any form and documents stored on or accessible by computers on the premises (subsection (3)).
239. The power to inspect, copy or take away documents includes the power to require a person to provide documents, and to require the documents be provided in a certain form or format, and to inspect any electronic storage systems where documents have been created or stored (subsection (4)).
240. Before exercising a power under this section, reasonable notice must be given to the governing body of the registered provider or external provider in relation to whose premises the powers will be exercised, and the governing body of any registered provider on whose behalf the provider or external provider provides education to which the exercise of the entry and inspection functions relate (subsection (5)). However, notice does not need to be given if the power needs to be exercised urgently, or if giving notice would defeat the purpose of exercising the power (subsection (6)).

241. Os yw'n ofynnol iddo wneud hynny, rhaid i berson awdurdodedig, cyn arfer pŵer o dan yr adran hon, ddangos copi o'r awdurdodiad ysgrifenedig gan y Comisiwn (is-adran (8)).
242. Rhaid arfer y pwerau a roddir gan yr adran hon ar adegau rhesymol, ac fel nad oes rhaid i unrhyw un wneud unrhyw beth ac eithrio ar adeg resymol (is-adran (9)). Nid yw'r pwerau yn gyfystyr â phŵer i fynd i anedd breswyl heb gytundeb y meddiannydd (is-adran (10)). Ystyr "mangre" at ddibenion yr adran hon yw mangre yng Nghymru neu Loegr (is-adran (11)).

Y weithdrefn rhybuddio ac adolygu

Adran 75: Cymhwyso adrannau 76 i 78

243. Mae adrannau 76 i 78 yn nodi'r broses y mae rhaid i'r Comisiwn ei dilyn wrth ddyroddi cyfarwyddyd neu hysbysiad. Mae'r hysbysiadau a chyfarwyddydau y mae'r adrannau hynny yn gymwys iddynt wedi eu rhestru yn is-adran (1) ac yn cynnwys –
- cyfarwyddydau mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio ag amodau cofrestru parhaus;
 - hysbysiadau ynghylch gwrthod datganiad terfyn ffioedd arfaethedig;
 - hysbysiadau ynghylch gwrthod amrywiad arfaethedig i ddatganiad terfyn ffioedd neu ddatganiad arfaethedig arall yn ei le;
 - cyfarwyddydau mewn cysylltiad â methiant i gydweithredu.
244. Nid yw'n ofynnol i'r Comisiwn ddilyn y broses a nodir yn adrannau 76 i 78 os yw'n dyroddi cyfarwyddyd nad yw ond yn dirymu cyfarwyddyd blaenorol (is-adran (2)).

Adran 76: Hysbysiadau a chyfarwyddydau arfaethedig: gofyniad i roi hysbysiad rhybuddio

245. Cyn rhoi i gorff llywodraethu, hysbysiad neu gyfarwyddyd a restrir yn adran 75(1), mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn roi hysbysiad rhybuddio i'r corff llywodraethu. Rhaid i'r hysbysiad rhybuddio nodi'r hysbysiad neu gyfarwyddyd arfaethedig, y rhesymau dros ei roi, sut y caiff y corff llywodraethu gyflwyno sylwadau ynghylch yr hysbysiad neu'r cyfarwyddyd, a'r cyfnod y caniateir cyflwyno'r hysbysiadau hynny ynddo (is-adran (2)). Ni chaiff y cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau fod yn llai nag 28 o ddiwrnodau gan ddechrau â dyddiad yr hysbysiad (is-adran (3)).
246. Rhaid i'r Comisiwn roi sylw i unrhyw sylwadau a gyflwynir gan y corff llywodraethu yn ystod y cyfnod penodedig wrth benderfynu pa un ai i roi'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd, ac yna rhaid iddo hysbysu'r corff llywodraethu am ei benderfyniad (is-adrannau (4) a (5)).

Adran 77: Yr wybodaeth sydd i'w rhoi gyda hysbysiadau a chyfarwyddydau a'r effaith tra bo adolygiad yn yr arfaeth

247. Wrth roi i gorff llywodraethu hysbysiad neu gyfarwyddyd a restrir yn adran 75(1), rhaid i'r Comisiwn nodi'r dyddiad y bydd yr hysbysiad neu'r cyfarwyddyd yn cymryd effaith (is-adran (1)). Ar yr un pryd, rhaid i'r Comisiwn hefyd roi i'r corff llywodraethu ddatganiad sy'n nodi'r rhesymau dros roi'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd, gwybodaeth ynghylch yr hawl i gael adolygiad (gweler adrannau 78 a 79) a'r cyfnod y caniateir gwneud cais am adolygiad ynddo (is-adran (2)).

241. If required to do so, an authorised person must, before exercising a power under this section, produce a copy of the written authorisation from the Commission (subsection (8)).
242. The powers conferred by this section must be exercised at reasonable times and not so that anyone has to do anything other than at a reasonable time (subsection (9)). They do not constitute a power to enter a residential dwelling without the agreement of the occupier (subsection (10)). “Premises” for the purposes of this section means premises in Wales or England (subsection (11)).

Warning and review procedure

Section 75: Application of sections 76 to 78

243. Sections 76 to 78 set out the process which the Commission must follow when issuing a direction or notice. The notices and directions to which those sections apply are listed in subsection (1) and include –
- directions in respect of failure to comply with ongoing registration conditions;
 - notices about the rejection of a proposed fee limit statement;
 - notices of rejection of a proposed variation or replacement of a fee limit statement;
 - directions in respect of a failure to co-operate.
244. The Commission is not required to follow the process set out in sections 76 to 78 if it issues a direction which solely revokes a previous direction (subsection (2)).

Section 76: Proposed notices and directions: requirement to give warning notice

245. Before giving a governing body, a notice or direction listed in section 75(1), this section requires the Commission to give the governing body a warning notice. The warning notice must set out the proposed notice or direction, the reasons for giving it, the means by which the governing body may make representations regarding the notice or direction, and the period during which such representations can be made (subsection (2)). The period for making representations may not be less than 28 days beginning with the date of the notice (subsection (3)).
246. The Commission must have regard to any representations made by the governing body in the specified period in deciding whether to give the notice or direction and must then notify the governing body of its decision (subsections (4) and (5)).

Section 77: Information to be given with notices and directions and effect pending review

247. When giving a governing body a notice or direction listed in section 75(1), the Commission must include a date on which the notice or direction will take effect (subsection (1)). At the same time, the Commission must also give the governing body a statement setting out the reasons for the notice or direction being given, information regarding the right to review (see sections 78 and 79) and the period within which an application for review may be made (subsection (2)).

248. Ni chaniateir i hysbysiad neu gyfarwyddyd y mae'r adran hon yn gymwys iddo gael effaith tra bo proses adolygu yn mynd rhagddi nac yn ystod y cyfnod y gallai'r corff llywodraethu yr effeithir arno wneud cais am adolygiad o dan adran 78, oni bai bod y corff llywodraethu o dan sylw yn hysbysu'r Comisiwn nad yw'n bwriadu gwneud cais am adolygiad (is-adrannau (3) a (4)).
249. O ganlyniad, efallai na fydd yn bosibl i'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd gael effaith ar y dyddiad a bennir gan y Comisiwn o dan is-adran (1). Os felly, yn ddarostyngedig i ganlyniad unrhyw adolygiad, rhaid i'r Comisiwn bennu dyddiad newydd y bydd yr hysbysiad neu'r cyfarwyddyd yn cymryd effaith (is-adrannau (5) a (6)).

Adran 78: Adolygu hysbysiadau a chyfarwyddydau

250. Mae'r adran hon yn darparu bod gan gorff llywodraethu y rhoddir hysbysiad neu gyfarwyddyd a restrir yn adran 75(1) iddo yr hawl i wneud cais am adolygiad o'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd gan yr adolygydd penderfyniadau.

Adran 79: Adolygydd penderfyniadau

251. Rhaid i Weinidogion Cymru benodi person neu banel i fod yr "adolygydd penderfyniadau" a chânt dalu tâl a lwfansau i'r person hwnnw neu'r panel hwnnw (is-adran (1)). Mae'r adolygydd penderfyniadau yn gyfrifol am adolygu penderfyniadau o dan y Rhan hon.
252. Rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas ag adolygu penderfyniadau a chaiff y rheoliadau gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i, y canlynol:
- seiliau dros adolygiad;
 - argymhellion i'w gwneud gan yr adolygydd penderfyniadau;
 - y cyfnod y mae rhaid gwneud cais am adolygiad ynddo, a'r modd y mae rhaid gwneud y cais;
 - y gweithdrefnau i'w dilyn a'r camau i'w cymryd; a
 - chamau i'w cymryd gan y Comisiwn neu Weinidogion Cymru yn dilyn adolygiad (is-adrannau (3) a (4)).

Dyletswyddau amrywiol

Adran 80: Dyletswydd i fonitro cynaliadwyedd ariannol ac adrodd arno

253. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn fonitro cynaliadwyedd ariannol darparwyr penodol ac adrodd arno. O dan is-adran (1) rhaid i'r Comisiwn fonitro cynaliadwyedd ariannol:
- darparwyr cofrestredig,
 - darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru sy'n sefydliadau yn y sector addysg bellach, nad ydynt yn gofrestrdig ac a gyllidir gan y Comisiwn.
254. Mae is-adran (2) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i wneud eithriadau o ran cymhwyso'r ddyletswydd i fonitro o dan is-adran (1) ar gyfer darparwyr neu fathau o darparwyr yn y categorïau hyn. Mae is-adran (1) hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, estyn y ddyletswydd i fonitro i fathau eraill o ddarparwyr addysg drydyddol.

248. A notice or direction to which this section applies may not come into effect while a review process is ongoing nor during the period within which the governing body affected could apply for a review under section 78, unless the governing body concerned notifies the Commission that it does not intend to apply for a review (subsections (3) and (4)).
249. As a result, the notice or direction may be unable to come into effect on the date specified by the Commission under subsection (1). In this case, subject to the outcome of any review, the Commission must determine a new date on which the notice or direction will take effect (subsections (5) and (6)).

Section 78: Review of notices and directions

250. This section provides that a governing body given a notice or direction listed in section 75(1) has the right to apply for a review of the notice or direction by the decision reviewer.

Section 79: Decision reviewer

251. The Welsh Ministers must appoint a person or panel to be the “decision reviewer” and may pay remuneration and allowances to that person or panel (subsection (1)). The decision reviewer is responsible for the review of decisions under this Part.
252. The Welsh Ministers must make regulations in relation to decision reviews and the regulations may include, but are not limited to:
- grounds for review;
 - recommendations to be made by the decision reviewer;
 - the period within which a request for a review may be made, and the form in which the request must be made;
 - the procedures and steps to be taken; and
 - steps to be taken by the Commission or the Welsh Ministers following a review (subsections (3) and (4)).

Miscellaneous duties

Section 80: Duty to monitor and report on financial sustainability

253. This section requires the Commission to monitor and report on the financial sustainability of certain providers. Under subsection (1) the Commission must monitor the financial sustainability of:
- registered providers,
 - tertiary education providers in Wales that are institutions in the further education sector, are not registered and are funded by the Commission.
254. Subsection (2) allows the Welsh Ministers to make regulations to make exceptions in the application of the monitoring duty under subsection (1) for providers or types of providers in these categories. Subsection (1) also allows the Welsh Ministers, via regulations, to extend the monitoring duty to other kinds of tertiary education provider.

255. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ddarparu gwybodaeth mewn cysylltiad â sefyllfa ariannol y personau a fonitir ganddo o dan is-adran (1) yn yr adroddiad blynyddol a gyflwynir ganddo bob blwyddyn (gweler paragraff 16 o Atodlen 1) i Weinidogion Cymru.
256. Mae'r adran hon hefyd yn nodi bod rhaid i'r Comisiwn, ar yr un pryd ag y mae'n cyflwyno ei adroddiad blynyddol, gyflwyno adroddiad ar wahân i Weinidogion Cymru sy'n rhoi crynodeb o ragolwg ariannol personau a fonitir ganddo o dan is-adran (1). Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o gasgliadau y mae'r Comisiwn yn dod iddynt o'i weithgareddau monitro o ran tueddiadau neu batrymau perthnasol sy'n dod i'r amlwg neu faterion eraill y mae'r Comisiwn yn ystyried ei bod yn briodol eu dwyn i sylw Gweinidogion Cymru. Bydd yr adroddiad hwn yn ymwneud â'r blynyddoedd ariannol sy'n dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad blynyddol yn ymwneud â hi.

Adran 81: Datganiad y Comisiwn ar swyddogaethau ymyrryd

257. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi datganiad sy'n nodi ei ddull gweithredu o ran arfer y swyddogaethau a restrir yn is-adran (4), a chadw'r datganiad hwnnw o dan adolygiad. Cyn cyhoeddi neu ddiwygio'r datganiad, rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â chorff llywodraethu pob darparwr cofrestredig ac unrhyw bersonau eraill y mae'n ystyried eu bod yn briodol.

Cyfarwyddydau

Adran 82: Effaith cyfarwyddydau a'u gorfodi

258. Rhaid i gorff llywodraethu darparwr gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd a roddir iddo gan y Comisiwn neu Weinidogion Cymru o dan y Rhan hon. Mae is-adran (2) yn rhoi i'r Comisiwn a Gweinidogion Cymru bŵer i wneud cais i'r llys am waharddeb i orfodi cyfarwyddyd a roddir ganddynt. Pan fydd y corff llywodraethu o dan sylw yn gofyn iddo wneud hynny, rhaid i'r person a roddodd y cyfarwyddyd roi hysbysiad i'r corff llywodraethu sy'n datgan pa un a yw wedi ei fodloni iddo gydymffurfio â chyfarwyddyd neu â gofyniad penodol mewn cyfarwyddyd.
259. Mae is-adran (4) yn darparu bod rhaid i gyfarwyddydau a roddir o dan y Rhan hon fod yn ysgrifenedig.

Pennod 4: Cyffredinol

Adran 83: Dynodi darparwyr addysg drydyddol eraill

260. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddynodi darparwr addysg drydyddol na fyddai fel arall yn cael ei ystyried yn sefydliad at ddibenion y Rhan hon i gael ei drin fel pe bai'n sefydliad. Rhaid i "darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru" fod yn "sefydliadau" (gweler y diffiniadau yn adran 144(1)). Gwneir y dynodi ar gais gan y darparwr o dan sylw.

255. Subsection (3) requires the Commission to provide information in respect of the financial position of the persons it monitors under this subsection (1) in the annual report that it submits (see Schedule 1, paragraph 16) to the Welsh Ministers each year.
256. This section also sets out that the Commission must, at the same time it submits its annual report, submit a separate report to the Welsh Ministers which summarises the financial outlook of persons that it monitors under subsection (1). This report will provide a summary of conclusions drawn by the Commission from its monitoring activity on relevant emerging trends, patterns or other matters that the Commission considers it appropriate to bring to the attention of the Welsh Ministers. This report will relate to the financial years following the financial year to which the annual report relates.

Section 81: Commission’s statement on intervention functions

257. This section provides that the Commission must publish and keep under review a statement setting out its approach to exercising the functions listed in subsection (4). Before publishing or revising the statement, the Commission must consult the governing body of each registered provider and any other persons it considers appropriate.

Directions

Section 82: Effect and enforcement of directions

258. The governing body of a provider must comply with any direction given to them by the Commission or the Welsh Ministers under this Part. Subsection (2) gives the Commission and the Welsh Ministers a power to apply to the court for an injunction to enforce a direction that they have given. When requested to do so by the governing body concerned, the person who gave the direction must notify the governing body whether they are satisfied that a direction or a particular requirement of a direction has been complied with.
259. Subsection (4) provides that directions given under this Part must be given in writing.

Chapter 4: General

Section 83: Designation of other providers of tertiary education

260. This section enables the Welsh Ministers to designate a provider of tertiary education who would not otherwise be regarded as an institution for the purposes of this Part to be treated as such. “Tertiary education providers in Wales” must be “institutions” (see the definitions in section 144(1)). The designation will be made on the application of the provider concerned.

261. Caniateir trin darparwr a ddynodir yn "sefydliad" o dan yr adran hon fel "sefydliad" at ddibenion swyddogaethau cofrestru, sicrhau ansawdd ac asesu ansawdd o dan y Rhan hon, ond bydd angen o hyd iddo fodloni'r holl feini prawf eraill yn adran 25(5) i allu cofrestru â'r Comisiwn; a rhaid i'w weithgareddau gael eu cynnal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru er mwyn dod o fewn y diffiniad o "darparwr addysg drydyddol yng Nghymru".
262. Mae is-adran (4) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n darparu ar gyfer y modd y gwneir ceisiadau am ddynodiad o dan yr adran hon, a gwneud penderfyniadau dynodi, gan gynnwys meini prawf ar gyfer cadarnhau dynodiad, tynnu dynodiad yn ôl ac effaith tynnu dynodiad yn ôl.

Adran 84: Dehongli Rhan 2

263. Mae'r adran hon yn darparu'r diffiniadau o dermau penodol a ddefnyddir yn Rhan 2 o'r Ddeddf hon.

RHAN 3: SICRHAU ADDYSG DRYDYDDOL AC YMCHWIL A'U CYLLIDO

Cyllido'r Comisiwn

Adran 85: Pwerau Gweinidogion Cymru i gyllido'r Comisiwn

264. Mae'r adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddarparu cyllid i'r Comisiwn. Mae'n caniatáu i Weinidogion Cymru osod ar y cyllid hwnnw y telerau ac amodau hynny y maent yn ystyried eu bod yn briodol (gan gynnwys mewn perthynas ag ad-dalu symiau a thalu llog) yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau a bennir yn adran 86.
265. Caniateir i delerau ac amodau a osodir ar gyllid a roddir gan Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ymrwymo i "cytundeb canlyniadau" â'r personau y mae'n bwriadu eu cyllido. Mae ystyr cytundeb canlyniadau wedi ei ddiffinio gan yr adran hon. Mae cytundebau canlyniadau yn ddull a ddefnyddir gan y Comisiwn, drwy ei benderfyniadau cyllido, i gyfrannu at gyflawni ei ddyletswyddau strategol (o dan adrannau 2 i 12) a chyflawni blaenoriaethau strategol Gweinidogion Cymru ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil.
266. Bydd cynllun strategol y Comisiwn yn nodi sut y mae'n bwriadu cyflawni ei ddyletswyddau strategol a sut y bydd yn mynd i'r afael â blaenoriaethau Gweinidogion Cymru yn y datganiad a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 14. Bydd cytundebau canlyniadau yn nodi'r gweithgareddau y mae darparwr yn cytuno y bydd yn eu cyflawni yn gyfnewid am gyllid a fydd yn cyfrannu at weithredu cynllun strategol cymeradwy y Comisiwn.

261. A provider designated as an “institution” under this section may be treated as an “institution” for the purposes of registration, quality assurance and quality assessment functions under this Part, but will still need to meet all other criteria in section 25(5) to be able to register with the Commission; and its activities must be wholly or mainly carried on in Wales in order to fall within the definition of a “tertiary education provider in Wales”.
262. Subsection (4) allows the Welsh Ministers to make regulations providing for the manner in which applications for designation under this section are made and the making of designation decisions, including criteria for confirming and withdrawing designation and the effect of withdrawal of designation.

Section 84: Interpretation of Part 2

263. This section provides the definitions of certain terms which are used in Part 2 of this Act.

PART 3: SECURING AND FUNDING TERTIARY EDUCATION AND RESEARCH

Funding the Commission

Section 85: Power of the Welsh Ministers to fund the Commission

264. This section allows the Welsh Ministers to provide funding to the Commission. It allows the Welsh Ministers to attach terms and conditions to such funding as they consider appropriate (including in relation to repayment of sums and payment of interest) subject to the limitations specified in section 86.
265. Terms and conditions applied to funding by the Welsh Ministers may require the Commission to enter into an “outcome agreement” with persons whom it proposes to fund. An outcome agreement is defined by this section. Outcome agreements are a means by which the Commission, through its funding decisions, will contribute to the discharge of its strategic duties (under sections 2 to 12) and the achievement of the Welsh Ministers’ strategic priorities for tertiary education and research.
266. The Commission’s strategic plan will set out how it intends to discharge its strategic duties and how it will address the Welsh Ministers’ priorities in the statement published by the Welsh Ministers under section 14. Outcome agreements will set out the activities that a provider agrees it will carry out in return for funding which will contribute to the implementation of the Commission’s approved strategic plan.

267. Caiff Gweinidogion Cymru osod telerau ac amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ymrwymo i gytundebau canlyniadau ym mhob achos pan fo'n darparu cyllid. Fel arall, caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ymrwymo i gytundeb canlyniadau pan fo'r Comisiwn yn bwriadu cyllido gweithgareddau penodol, mathau o ddarparwr neu symiau penodedig o gymorth ariannol. Er enghraifft, caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol bod cytundebau canlyniadau yn gymwys i bob cwrs addysg uwch ac addysg bellach, neu nad yw ond yn gymwys i rai cyrsiau penodedig ond nid mewn achosion pan fo maint y ddarpariaeth yn fach a phan fo'r cyllid yn disgyn islaw swm penodedig.

Adran 86: Cyllido'r Comisiwn: cyfyngiadau ar delerau ac amodau

268. Mae'r adran hon yn cynnwys nifer o ofynion a chyfyngiadau mewn perthynas â'r telerau ac amodau y caiff Gweinidogion Cymru eu gosod. Diben y gofynion a'r cyfyngiadau yw diogelu awtonomi sefydliadol darparwyr addysg drydyddol ac ymchwil, rhyddid academiaidd darparwyr addysg uwch a gallu'r Comisiwn i benderfynu dyraniadau cyllido.
269. Yn benodol, mae'r adran hon yn darparu na chaniateir i'r telerau ac amodau a osodir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â chyllido addysg uwch, addysg bellach a hyfforddiant, ac ymchwil ac arloesi ymwneud â gweithgareddau a gyflawnir gan ddarparwyr unigol (oni bai eu bod yn gymwys i bob darparwr neu'r rheini sydd mewn dosbarth penodol neu o ddisgrifiad penodol, ac yn rhagamod cyllido).
270. Mae'r adran hon hefyd yn darparu na chaniateir i'r telerau ac amodau gael eu llunio drwy gyfeirio at feini prawf ar gyfer penodi, diswyddo neu ddethol staff academiaidd neu feini prawf ar gyfer derbyn myfyrwyr. Mae'r ddarpariaeth hon yn diogelu rhyddid darparwyr i ddethol staff a derbyn myfyrwyr fel y gwelant yn addas.
271. At hynny, mae'r adran hon yn darparu na chaniateir i'r telerau ac amodau sy'n ymwneud â chyllido ymchwil ac arloesi ond gael eu llunio drwy gyfeirio at faes ymchwil neu arloesi os yw hynny wedi ei gynnwys yng nghynllun strategol cymeradwy y Comisiwn. Ni chaniateir i'r telerau ac amodau gyfeirio at raglenni ymchwil penodol neu brosiectau ymchwil penodol.
272. Yn ogystal, caniateir i'r telerau ac amodau ar gyfer addysg uwch fod yn gymwys i gyrsiau penodol, ond ni chaniateir iddynt fod yn gymwys i rannau penodol o gyrsiau ac ni chaniateir iddynt ychwaith ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn naill ai darparu, neu wahardd darparu, cyrsiau penodol. Mae'r darpariaethau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i glustnodi cyllid i roi cymorth i gyrsiau addysg uwch penodol a'i gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn roi sylw i ddymunoldeb cyllido'r cyrsiau hynny. Er enghraifft, caiff Gweinidogion Cymru roi cyllid i'r Comisiwn i gefnogi darparu cwrs neu gyrsiau penodol gan adael i'r Comisiwn benderfynu sut y mae'r cyllid i'w ddefnyddio. Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r cyllid gael ei ad-dalu os nad yw'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y cwrs neu gyrsiau penodedig. Mae'r ddarpariaeth hon yn diogelu rhyddid darparwyr i ddewis cynnig cyrsiau addysg uwch penodol.

267. The Welsh Ministers may impose terms and conditions requiring the Commission to enter into outcome agreements in all cases where it provides funding. Alternatively, the Welsh Ministers may require the Commission to enter into an outcome agreement where the Commission proposes to fund particular activities, types of provider or specified amounts of financial support. For example, the Welsh Ministers may require that outcome agreements apply to all courses of higher and further education, or only to certain specified courses but not in cases where the volume of provision is small and funding falls below a specified amount.

Section 86: Funding the Commission: limitations on terms and conditions

268. This section includes a number of requirements and restrictions in relation to the terms and conditions that may be imposed by the Welsh Ministers. The purpose of the requirements and restrictions is to protect the institutional autonomy of tertiary education and research providers, the academic freedom of higher education providers and the ability of the Commission to determine funding allocations.
269. In particular, this section provides that the terms and conditions imposed by the Welsh Ministers in relation to funding for higher education, further education and training, and research and innovation must not relate to activities carried on by individual providers (unless they apply to all providers or those falling within a particular class or description and are a pre-condition of funding).
270. This section also provides that terms and conditions must not be framed by reference to criteria for the appointment, dismissal or selection of academic staff or criteria for the admission of students. This provision protects providers' freedom to select staff and admit students as they see fit.
271. Further, this section provides that terms and conditions relating to funding for research and innovation may only be framed by reference to an area of research or innovation if that is included in the Commission's approved strategic plan. The terms and conditions may not refer to particular programmes of research or innovation projects.
272. In addition, the terms and conditions for higher education may apply to particular courses but must not apply to particular parts of courses nor must they require the Commission to either provide or prohibit the provision of particular courses. These provisions enable the Welsh Ministers to ring-fence funding to support particular courses of higher education and to require the Commission to have regard to the desirability of funding them. By way of example the Welsh Ministers may give funding to the Commission to support the provision of a particular course or courses leaving it to the Commission to determine how the funding is to be used. The Welsh Ministers can require the funding to be repaid if not used for the specified course(s). This provision protects providers' freedom to elect to offer particular higher education courses.

273. Yn ogystal, mae'r adran hon yn darparu na chaiff telerau ac amodau mewn cysylltiad ag addysg uwch neu ymchwil ac arloesi fod yn gymwys i gynnwys cyrsiau neu raglenni ymchwil ac arloesi na sut y caiff y cyrsiau neu raglenni hynny eu haddysgu, eu goruchwylio neu eu hasesu. Mae'r ddarpariaeth hon yn diogelu rhyddid darparwyr i addysgu a derbyn myfyrwyr fel y gwelant yn addas.
274. Mae is-adran (7) yn datgymhwyso cyfyngiadau is-adrannau (5) a (6) ar gyfer cyrsiau neu rannau o gyrsiau a ddarperir ac a asesir drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddyrannu cyllid i'r Comisiwn i gefnogi darparu neu asesu cyrsiau addysg uwch neu rannau o'r cyrsiau hynny drwy gyfrwng y Gymraeg.

Polisi cyllido'r Comisiwn

Adran 87: Polisi ar bwerau cyllido

275. Mae adran 87 yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i gyhoeddi datganiad ynghylch sut y mae'n bwriadu arfer ei bwerau cyllido o dan y Ddeddf, sef:
- adran 88 (cymorth ariannol i ddarparwyr penodedig ar gyfer addysg uwch);
 - adran 89 (cymorth ariannol ar gyfer cyrsiau addysg uwch a bennir mewn rheoliadau);
 - adran 97 (cymorth ariannol ar gyfer addysg bellach neu hyfforddiant);
 - adran 101 (cymorth ariannol ar gyfer addysg a ddarperir gan y chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol);
 - adran 103 (cymorth ariannol ar gyfer darparu gwybodaeth, cyngor neu ganllawiau ac i greu cysylltiadau â chyflogwyr a chymorth ariannol ar gyfer darparu addysg bellach neu hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg neu at ddiben addysgu Cymraeg);
 - adran 104 (cymorth ariannol ar gyfer prentisiaethau);
 - adran 105 (cymorth ariannol ar gyfer ymchwil ac arloesi).
276. Diben y datganiad ar bolisi cyllido yw sicrhau bod dull arfaethedig y Comisiwn o ran arfer ei bwerau cyllido yn dryloyw i'r rheini yr effeithir arnynt o bosibl drwy arfer y pwerau hynny ac i'r cyhoedd yn gyffredinol. Wrth lunio'r datganiad ar bolisi cyllido, rhaid i'r Comisiwn roi sylw i bwysigrwydd tryloywder wrth iddo wneud penderfyniadau mewn cysylltiad â darparu cyllid.
277. Mae hefyd yn ofynnol i'r Comisiwn ymgynghori â'r personau hynny y mae'n ystyried eu bod yn briodol cyn cyhoeddi ei ddatganiad ar bolisi cyllido, a rhaid iddo gadw'r datganiad o dan adolygiad.

Cyllido addysg uwch

Adran 88: Cymorth ariannol i ddarparwyr penodedig ar gyfer addysg uwch

278. Mae'r adran hon yn caniatáu i'r Comisiwn gyllido categorïau penodol o ddarparwyr sydd wedi eu cofrestru â'r Comisiwn o dan Ran 2 o'r Ddeddf, at ddiben cefnogi addysg uwch a ddarperir gan y darparwyr hynny neu ar eu rhan.
279. Bydd y categorïau o ddarparwyr cofrestredig sy'n gymwys i gael cyllid gan y Comisiwn o dan yr adran hon yn cael eu pennu mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

273. Additionally, this section provides that terms and conditions in respect of higher education or research and innovation must not apply to the content of courses or programmes of research and innovation nor how they are taught, supervised or assessed. This provision protects providers' freedom to teach and admit students as they see fit.
274. Subsection (7) dis-applies the limitations of subsections (5) and (6) for courses or parts of courses being provided and assessed through the medium of Welsh. This provision enables the Welsh Ministers to allocate funding to the Commission to support the provision or assessment of higher education courses or part of such courses through the medium of Welsh.

Commission's funding policy

Section 87: Policy on funding powers

275. Section 87 imposes a duty on the Commission to publish a statement about how it proposes to exercise its funding powers under the Act, which are:
- section 88 (financial support to specified providers for higher education);
 - section 89 (financial support for higher education courses specified in regulations);
 - section 97 (financial support for further education or training);
 - section 101 (financial support for education provided by school sixth forms maintained by local authorities);
 - section 103 (financial support for provision of information, advice or guidance and to form links with employers and financial support for the provision of further education or training through the medium of Welsh or for the purpose of teaching Welsh);
 - section 104 (financial support for apprenticeships);
 - section 105 (financial support for research and innovation).
276. The purpose of the funding policy statement is to make the Commission's proposed approach to the exercise of its funding powers transparent to those potentially affected by them and the public generally. In preparing the funding policy statement, the Commission must have regard to the importance of transparency in its decision making in respect of the provision of funding.
277. The Commission is also required to consult such persons as it considers appropriate prior to publishing its funding policy statement, and must keep the statement under review.

Funding of higher education

Section 88: Financial support to specified providers for higher education

278. This section allows the Commission to fund certain categories of providers who are registered with the Commission under Part 2 of the Act, for the purpose of supporting higher education provided by or on behalf of such providers.
279. The categories of registered providers eligible to receive funding from the Commission under this section will be specified in regulations made by the Welsh Ministers.

280. Caiff darparwr cofrestredig sy'n cael cyllid o dan yr adran hon drosglwyddo cyllid i gorff sy'n cydlafurio. Bydd trosglwyddo cyllid yn caniatáu i'r darparwr a gyllidir gydweithio ag amryw o sefydliadau partner (gan gynnwys y rheini y tu allan i Gymru) sy'n ymwneud â darparu addysg uwch.
281. Mae angen i ddarparwr a gyllidir gan y Comisiwn sy'n cydlafurio, sydd wedi cydlafurio neu sy'n bwriadu cydlafurio â sefydliad arall i ddarparu addysg uwch, gael cydsyniad y Comisiwn i drosglwyddo cyllid i'r sefydliad sy'n cydlafurio. Ni fydd gan y Comisiwn gydbertynas uniongyrchol â'r sefydliad sy'n cydlafurio ac felly y darparwr a gyllidir gan y Comisiwn fydd yn parhau i fod yn gyfrifol am y cyllid. Mae adran 108 yn cynnwys gweithdrefnau i'w dilyn pan fydd y Comisiwn yn penderfynu pa un ai i roi cydsyniad ai peidio.
282. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu galluogi i wneud rheoliadau ynghylch yr amgylchiadau na chaniateir darparu cyllid mewn cysylltiad â chyrsgiau addysg cychwynnol athrawon oddi tanynt. Gallai'r rheoliadau hynny, er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol na chaniateir i'r cyrsiau hynny gael eu cyllido gan y Comisiwn oni bai eu bod wedi eu hachredu gan gorff penodedig.

Adran 89: Cymorth ariannol ar gyfer cyrsiau addysg uwch a bennir mewn rheoliadau

283. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch cyrsiau addysg uwch y caniateir iddynt gael eu cyllido gan y Comisiwn, yn ogystal ag addysg uwch a gefnogir gan y Comisiwn o dan adran 88.
284. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu cyrsiau penodol neu ddisgrifiadau penodol o gyrsiau y caniateir eu cyllido gan y Comisiwn; sef "cyrsiau cymwys". Caiff y rheoliadau bennu cyrsiau drwy gyfeirio at, ymhlith materion eraill, y gofynion sydd i'w bodloni gan y cwrs; y disgrifiad o'r person sy'n darparu'r cwrs; a'r cymhwyster y mae'r cwrs yn arwain ato. Byddai gallu'r Comisiwn i gyllido cyrsiau cymwys yn caniatáu mynd i'r afael â bylchau mewn darpariaeth ar gyfer pynciau penodol neu leoliadau penodol.
285. Gall bylchau mewn darpariaeth godi oherwydd diffyg gallu darparwyr penodedig (fel y'u diffinnir yn adran 88(1)) i ddiwallu angen a nodwyd. Er enghraifft, yr angen i gwrs arbenigol gael ei ddarparu yng Nghymru neu i nifer fach o fyfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ymgymryd â'r cwrs hwnnw, sef cwrs nad yw'n gosteffeithiol i ddarparwyr penodedig ei ddarparu o bosibl.
286. Mae'r adran hon yn darparu bod y Comisiwn yn gallu cyllido darparwyr i ddarparu cyrsiau cymwys yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru a chyrsgiau a ddarperir i fyfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru. Caniateir i ddarparwr sy'n cael cyllid o dan yr adran hon drosglwyddo rhywfaint o'r cyllid hwnnw, neu'r holl gyllid hwnnw, i gorff sy'n cydlafurio, gan gynnwys darparwyr y tu allan i Gymru, er enghraifft, cyllid i gefnogi cwrs cymwys pan fo'r rhan fwyaf o'r cwrs yn cael ei darparu gan ddarparwr yng Nghymru, ond y darperir modiwlau penodol gan ddarparwr yn Lloegr, pan fo'r darparwr yn Lloegr yn gweithio mewn partneriaeth â'r darparwr yng Nghymru.

280. A registered provider receiving funding under this section may pass funds to a collaborating body. The passage of funds will allow the funded provider to work collaboratively with a range of partner organisations (including those outside Wales) engaged in the provision of higher education.
281. A provider funded by the Commission who is collaborating, has collaborated or who proposes to collaborate with another organisation to provide higher education needs the consent of the Commission to pass funds to the collaborating organisation. The Commission will not have a direct relationship with the collaborating organisation and therefore the provider funded by the Commission remains responsible for the funding. Section 108 contains procedures to be followed when the Commission is deciding whether or not to give consent.
282. The Welsh Ministers are enabled to make regulations about the circumstances in which funding must not be provided in respect of courses of initial teacher training. Such regulations could, for example, require that such courses must not be funded by the Commission unless they are accredited by a specified body.

Section 89: Financial support for higher education courses specified in regulations

283. This section makes provision about courses of higher education which may be funded by the Commission in addition to higher education supported by the Commission under section 88.
284. The Welsh Ministers may make regulations to specify particular courses or descriptions of courses which may be funded by the Commission; “eligible courses”. The regulations may specify courses by way of reference to, amongst other matters, the requirements to be met by the course; the description of the person providing the course; and the qualification to which the course leads. The ability for the Commission to fund eligible courses would permit gaps in provision for particular subjects or locations to be addressed.
285. Gaps in provision may arise due to a lack of specified providers (as defined in 88(1)) being able to fulfil an identified need. For example, a need for a specialist course to be delivered in Wales or to be undertaken by small numbers of students ordinarily resident in Wales, which may not be cost effective for specified providers to deliver.
286. This section provides that the Commission is able to fund providers to deliver eligible courses wholly or mainly in Wales and courses provided to students who are ordinarily resident in Wales. A provider receiving funding under this section may pass some or all of those funds to a collaborating body including providers outside Wales, for example, funding to support an eligible course where the majority of the course is provided by a provider in Wales, but particular modules are delivered by a provider in England, where the provider in England is working in partnership with the provider in Wales.

287. Mae angen i ddarparwr a gyllidir gan y Comisiwn sy'n cydlafurio, sydd wedi cydlafurio neu sy'n bwriadu cydlafurio â sefydliad arall i ddarparu cwrs neu gyrsiau addysg uwch penodol gael cydsyniad y Comisiwn i drosglwyddo cyllid i'r sefydliad sy'n cydlafurio. Ni fydd gan y Comisiwn gydbertynas uniongyrchol â'r sefydliad sy'n cydlafurio ac felly y darparwr a gyllidir gan y Comisiwn fydd yn parhau i fod yn gyfrifol am y cyllid. Mae adran 108 yn cynnwys gweithdrefnau i'w dilyn pan fydd y Comisiwn yn penderfynu pa un ai i roi cydsyniad ai peidio.

Adran 90: Cymorth ariannol o dan adrannau 88 a 89: telerau ac amodau

288. Mae'r adran hon yn darparu y caniateir i'r Comisiwn osod y telerau ac amodau hynny y mae'n ystyried eu bod yn briodol i'r cyllid a ddyrennir ganddo at ddiben cefnogi addysg uwch. Yn enwedig, caniateir i'r telerau ac amodau hynny ei gwneud yn ofynnol ad-dalu cyllid (gan gynnwys â llog) os na chydymffurfir â'r dibenion y dyrennir y cyllid ar eu cyfer. Fodd bynnag, ni chaiff y Comisiwn osod amodau sy'n ymwneud â chyllid sy'n deillio o ffynonellau eraill, er enghraifft incwm a gynhyrchir o weithgareddau'r darparwyr eu hun gan gynnwys ffioedd dysgu, cyllid o ddiwydiant neu roddion gan gymwynaswyr.
289. Pan fo'r Comisiwn yn dyrannu cyllid i ddarparwyr ar gyfer cyrsiau addysg uwch a bennir mewn rheoliadau o dan adran 89(1) nad ydynt wedi eu cynnwys yn y Gofrestr (h.y. darparwyr anghofrestredig) yna rhaid i'r Comisiwn osod telerau ac amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r darparwyr hynny wneud y canlynol:
- cael cynllun diogelu dysgwyr yn ei le sydd wedi ei gymeradwyo gan y Comisiwn (ar yr amod bod y Comisiwn wedi rhoi hysbysiad o'r gofyniad hwn) a rhoi effaith i'r cynllun;
 - cydymffurfio â gofynion y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr cyfredol a gyhoeddir gan y Comisiwn o dan adran 129 os ydynt yn ddarparwr addysg drydyddol yng Nghymru; a
 - rhoi sylw i gyngor neu ganllawiau a roddir gan y Comisiwn i'r darparwr.

Adran 91: Cymorth ariannol o dan adrannau 88 a 89: atodol

290. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn, wrth arfer ei swyddogaethau cyllido addysg uwch, i roi sylw i ddymunoldeb peidio â gwneud unrhyw beth a fyddai'n anghefnogi darparwyr rhag ceisio cyllid o ffynonellau eraill neu gynnal cyllid o ffynonellau eraill (er enghraifft o ddiwydiant, byd masnach, cymwynaswyr, cyn-fyfrwyr, neu ffynonellau cyllid eraill).
291. Mae hefyd yn ofynnol i'r Comisiwn, wrth arfer ei swyddogaethau cyllido addysg uwch, roi sylw i ddymunoldeb cynnal unrhyw nodweddion arbennig unrhyw ddarparwr y mae'n darparu cymorth ariannol iddo. Mater i'r Comisiwn ei benderfynu yw'r hyn y mae'n ystyried ei fod yn gydbwysedd priodol o ran cymorth yn sgil unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Caiff y nodweddion hynny gynnwys, er enghraifft, cymeriad crefyddol darparwr neu natur arbenigol ei ddarpariaeth.

287. A provider funded by the Commission who is collaborating, has collaborated or who proposes to collaborate with another organisation to deliver a particular higher education course or courses needs the consent of the Commission to pass funds to the collaborating organisation. The Commission will not have a direct relationship with the collaborating organisation and therefore the provider funded by the Commission remains responsible for the funding. Section 108 contains procedures to be followed when the Commission is deciding whether or not to give consent.

Section 90: Financial support under sections 88 and 89: terms and conditions

288. This section provides that the Commission may impose such terms and conditions as it considers appropriate to funding it allocates for the purpose of supporting higher education. In particular, such terms and conditions may require the repayment of funds (including with interest) if the purposes for which the funding is allocated are not complied with. However the Commission may not impose conditions that relate to funding derived from other sources, for example income generated from providers' own activities including tuition fees, funds from industry or donations from benefactors.
289. Where the Commission allocates funding to providers for higher education courses specified in regulations under section 89(1), who are not included in the register (i.e. unregistered providers) then the Commission must impose terms and conditions that require such providers to:
- have a learner protection plan approved by the Commission in place (subject to the Commission having given notice of this requirement) and to give effect to the plan;
 - comply with the requirements of the extant Learner Engagement Code published by the Commission under section 129 if they are a tertiary education provider in Wales; and
 - have regard to advice or guidance given by the Commission to the provider.

Section 91: Financial support under sections 88 and 89: supplementary

290. This section places the Commission under a duty, in the exercise of its higher education funding functions, to have regard to the desirability of not doing anything which would discourage providers from seeking or maintaining funding from other sources (for example from industry, commerce, benefactors, alumni, or other funding sources).
291. The Commission is also required, in exercising its higher education funding functions, to have regard to the desirability of maintaining any distinctive characteristics of any provider to which it provides financial support. It is a matter for the Commission to determine what it considers to be an appropriate balance of support in light of any other relevant considerations. Such characteristics may include, for example, the religious character of a provider or the specialist nature of its provision.

Adran 92: Cymorth ariannol gan Weinidogion Cymru ar gyfer cyrsiau addysg uwch penodol

292. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyllido ystod cyfng o "cyrsiau addysg uwch perthnasol". Rhaid i'r cyrsiau hynny ddod o fewn y diffiniad ym mharagraff 1(g) neu 1(h) o Atodlen 6 i Ddeddf Diwygio Addysg 1988. Mae'r cyrsiau y caniateir eu cyllido yn cynnwys cyrsiau er mwyn paratoi at arholiadau proffesiynol, er enghraifft, cyrsiau nad ydynt yn gyrsiau gradd ac sy'n arwain at gymwysterau sydd wedi eu hachredu gan gyrff proffesiynol. Caiff Gweinidogion Cymru drefnu bod cymorth ariannol ar gael o'u hadnoddau eu hunain neu drefnu i bersonau eraill ddarparu adnoddau ar eu rhan, neu eu hadnoddau eu hunain.

Addysg bellach a hyfforddiant

Adran 93: Addysg a hyfforddiant ar gyfer personau 16 i 19 oed

293. Mae adran 93 yn nodi ddyletswydd y Comisiwn i sicrhau cyfleusterau ar gyfer addysg a hyfforddiant i'r rheini sydd dros yr oedran ysgol gorfodol. Mae'r ddyletswyddau yn yr adran hon ac adrannau 95 ac 96 yn debyg i'r ddyletswyddau yn adrannau 31 a 32 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 ("Deddf 2000").

294. Mae'r adran yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn sicrhau y darperir cyfleusterau 'priodol' i Gymru ar gyfer addysg a hyfforddiant pobl sydd dros yr oedran ysgol gorfodol ond nad ydynt wedi cyrraedd 19 oed eto. Mae cyfleusterau yn 'priodol' os ydynt o nifer sy'n ddigonol, ac o ansawdd digonol, i ddiwallu anghenion rhesymol pobl ifanc. Yn ogystal rhaid i'r cyfleusterau hynny fodloni hawlogaethau myfyrwyr i ddilyn cyrsiau astudio yn y cwricwlwm lleol a luniwyd o dan adran 33A o Ddeddf 2000. Mae "cyfleusterau i Gymru" yn cynnwys cyfleusterau yng Nghymru, a chyfleusterau eraill sydd ar gael i bersonau sy'n preswyl fel arfer yng Nghymru (gweler adran 144(1)).

295. Gwneir diwygiadau i adrannau 33A - 33E, 33G, 33I - 33K, 33N - 33Q o Ddeddf 2000 (gweler Atodlen 4). Mae'r diwygiadau hyn yn rhoi swyddogaethau i'r Comisiwn sy'n cynnwys, ymhlith pethau eraill, gyfrifoldebau am lunio'r cwricwlwm lleol, cynllunio a darparu hawlogaethau'r cwricwlwm lleol i ddysgwyr (gan gynnwys darpariaeth Gymraeg), a'r trefniadau ar gyfer cydweithio. Mae'r mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol eraill yn cynnwys gosod ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â'r Comisiwn wrth arfer eu pŵer i ddiwygio meysydd dysgu'r cwricwla lleol a gwneud rheoliadau a dyroddi canllawiau.

296. Mae'r cyfleusterau sydd i'w sicrhau ar gyfer addysg a hyfforddiant yn cynnwys addysg bellach llawnamser a rhan-amser a hyfforddiant llawnamser a rhan amser yn ogystal â hyfforddiant galwedigaethol, cymdeithasol, corfforol a hamdden (gweler y diffiniadau yn adran 144(2) i (5)).

297. Nid yw ddyletswyddau'r Comisiwn o dan yr adran hon yn estyn i addysg uwch (gweler paragraffau 277 i 280 am esboniad o bwerau'r Comisiwn i gyllido addysg uwch).

Section 92: Financial support by Welsh Ministers for certain higher education courses

292. This section enables the Welsh Ministers to fund a limited range of “relevant higher education courses”. Such courses must fall within the definition of paragraph 1(g) or 1(h) of Schedule 6 to the Education Reform Act 1988. Courses which may be funded include those in preparation for professional examinations, for example courses which are not degrees and lead to qualifications accredited by professional bodies. The Welsh Ministers may make financial support available from their resources or arrange for others to provide resources on their behalf, or their own resources.

Further education and training

Section 93: Education and training for persons aged 16 to 19

293. Section 93 sets out the Commission’s duty to secure facilities for education and training for those above the compulsory school age. The duties in this section and sections 95 and 96 are similar to the duties in sections 31 and 32 of the Learning and Skills Act 2000 (“the 2000 Act”).
294. The section requires the Commission to secure the provision of ‘proper’ facilities for Wales for the education and training of people who are above compulsory school age but have not yet reached the age of 19. Facilities are ‘proper’ if they are of sufficient quantity and adequate quality to meet the reasonable needs of young people. Additionally such facilities must satisfy students’ entitlements to follow courses of study within the local curriculum formed under section 33A of the 2000 Act. “Facilities for Wales” includes facilities in Wales, and other facilities available to persons ordinarily resident in Wales (see section 144(1)).
295. Amendments are made to sections 33A – 33E, 33G, 33I - 33-K, 33N – 33Q of the 2000 Act (see Schedule 4). These confer functions on the Commission which include, amongst other things, responsibilities for forming the local curriculum, the planning and delivery of local curriculum entitlements for learners (including Welsh language provision), and the arrangements for joint working. Other minor and consequential amendments include placing a duty on the Welsh Ministers to consult the Commission when exercising their power to amend the local curricula learning domains and the making of regulations and issuing of guidance.
296. The facilities to be secured for education and training include both full-time and part-time further education and training as well as vocational, social, physical and recreational training (see the definitions in section 144(2) to (5)).
297. The Commission’s duties under this section do not extend to higher education (see paragraphs 277 to 280 for an explanation of the Commission’s powers to fund higher education).

Adran 94: Addysg a hyfforddiant ar gyfer personau cymwys dros 19 oed

298. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn sicrhau cyfleusterau priodol i Gymru ar gyfer addysg berthnasol a hyfforddiant perthnasol ar gyfer personau cymwys. Mae cyfleusterau yn 'briodol' os ydynt o nifer sy'n ddigonol ac o ansawdd sy'n ddigonol i ddiwallu anghenion rhesymol unigolion cymwys. Mae "cyfleusterau i Gymru" yn cynnwys cyfleusterau yng Nghymru, a chyfleusterau eraill sydd ar gael i bersonau sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru (gweler adran 144(1)).
299. Rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n disgrifio'r addysg bellach berthnasol neu'r hyfforddiant perthnasol y mae rhaid i'r Comisiwn sicrhau cyfleusterau priodol ar ei chyfer neu ei gyfer. Caiff y rheoliadau, er enghraifft, gyfeirio at y pynciau sydd i'w hastudio neu lefel yr astudio neu'r math o gymhwyster sydd i'w ddilyn.
300. Mae person cymwys yn berson sydd wedi cyrraedd 19 oed ac sy'n dod o fewn disgrifiad a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Caiff y rheoliadau hyn, er enghraifft, gyfeirio at oedran person, y cymwysterau sydd ganddo eisoes, ei lefelau incwm, pa un a yw'n gyflogedig, yn ddi-waith, yn hunangyflogedig, etc. Gallai'r rheoliadau bennu bod personau sy'n dod o fewn disgrifiad penodol yn gymwys mewn perthynas â disgrifiad penodol o addysg bellach neu hyfforddiant.
301. Mae'r cyfleusterau sydd i'w sicrhau ar gyfer addysg a hyfforddiant yn cynnwys addysg bellach llawnamser a rhan-amser a hyfforddiant llawnamser a rhan-amser yn ogystal â hyfforddiant galwedigaethol, cymdeithasol, corfforol a hamdden (gweler y diffiniadau yn adran 144(2) i (5)).
302. Nid yw dyletswyddau'r Comisiwn o dan yr adran hon yn estyn i addysg uwch (gweler paragraffau 277 i 280 am esboniad o bwerau'r Comisiwn i gyllido addysg uwch).

Adran 95: Addysg a hyfforddiant ar gyfer personau dros 19 oed

303. Mae adran 95 yn nodi dyletswydd y Comisiwn i sicrhau bod cyfleusterau 'rhesymol' yn cael eu darparu i Gymru ar gyfer addysg a hyfforddiant pobl 19 oed a throsoedd. Mae cyfleusterau yn 'rhesymol' os ydynt o'r nifer hwnnw a'r ansawdd hwnnw y gellir disgwyl yn rhesymol i'r Comisiwn eu darparu o ystyried yr adnoddau sydd ar gael iddo. Mae "cyfleusterau i Gymru" yn cynnwys cyfleusterau yng Nghymru, a chyfleusterau eraill sydd ar gael i bersonau sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru (gweler adran 144(1)).
304. Mae'r cyfleusterau sydd i'w sicrhau ar gyfer addysg a hyfforddiant yn cynnwys addysg bellach llawnamser a rhan amser a hyfforddiant llawnamser a rhan-amser yn ogystal â hyfforddiant galwedigaethol, cymdeithasol, corfforol a hamdden (gweler y diffiniadau yn adran 144(2) i (5)). Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau wedi eu trefnu sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer dysgu anffurfiol nad ydynt o bosibl yn arwain at gymhwyster. Er enghraifft, cyfleoedd dysgu i oedolion mewn lleoliadau cymunedol gan gynnwys gweithgareddau ymgysylltu ag addysg.
305. Nid yw dyletswyddau'r Comisiwn o dan yr adran hon yn estyn i addysg uwch (gweler paragraffau 277 i 280 am esboniad o bwerau'r Comisiwn i gyllido addysg uwch).

Section 94: Education and training for eligible persons over 19

298. This section requires the Commission to secure proper facilities for Wales for relevant education and training for eligible persons. Facilities are ‘proper’ if they are of sufficient quantity and adequate quality to meet the reasonable needs of eligible individuals. “Facilities for Wales” includes facilities in Wales, and other facilities available to persons ordinarily resident in Wales (see section 144(1)).
299. Welsh Ministers must make regulations describing the relevant further education or training for which the Commission must secure proper facilities. The regulations can, for example, refer to the subjects to be studied or the level of study or the type of qualification to be pursued.
300. An eligible person is one who has attained the age of 19 and falls within a description specified in regulations made by Welsh Ministers. These regulations may, for example, refer to a person’s age, the qualifications they already possess, their income levels, whether they are employed, unemployed, self-employed, etc. The regulations could specify that persons falling within a particular description are eligible in relation to a particular description of further education or training.
301. The facilities to be secured for education and training include both full-time and part-time further education and training as well as vocational, social, physical and recreational training (see the definitions in section 144(2) to (5)).
302. The Commission’s duties under this section do not extend to higher education (see paragraphs 277 to 280 for an explanation of the Commission’s powers to fund higher education).

Section 95: Education and training for persons over 19

303. Section 95 sets out the duty of the Commission to secure the provision of ‘reasonable’ facilities for Wales for the education and training of people 19 and over. Facilities are ‘reasonable’ if they are of a quality and quantity which the Commission can reasonably be expected to provide taking account of the resources available to it. “Facilities for Wales” includes facilities in Wales, and other facilities available to persons ordinarily resident in Wales (see section 144(1)).
304. The facilities to be secured for education and training include both full-time and part-time further education and training as well as vocational, social, physical and recreational training (see the definitions in section 144(2) to (5)). This includes organised activities offering opportunities for non-formal learning which may not lead to a qualification. For example, adult learning opportunities in community settings including education engagement activities.
305. The Commission’s duties under this section do not extend to higher education (see paragraphs 277 to 280 for an explanation of the Commission’s powers to fund higher education).

Adran 96: Gofynion ar y Comisiwn wrth sicrhau addysg bellach a hyfforddiant

306. Mae'r adran hon yn nodi gofynion amrywiol ar y Comisiwn pan fydd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 93, 94 a 95.
307. Wrth gyflawni'r dyletswyddau o dan yr adrannau hynny, rhaid i'r Comisiwn ystyried nifer o ffactorau, gan gynnwys yr addysg a hyfforddiant sy'n ofynnol mewn sectorau cyflogaeth gwahanol, anghenion cyflogeion a chyflogeion posibl, a'r angen i gynnig darpariaeth ddysgu ychwanegol ac asesu anghenion dysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg.
308. Rhaid i'r Comisiwn hefyd gadw mewn cof amgylchiadau pan allai ddisgwyl yn rhesymol i addysg a hyfforddiant gael eu sicrhau gan gyrff eraill heb ddefnyddio ei adnoddau ei hun, er enghraifft, darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol a sicrheir gan awdurdodau lleol o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.
309. Rhaid i'r Comisiwn wneud y defnydd gorau o'i adnoddau ac yn benodol osgoi darpariaeth a allai beri gwariant anghymesur. Nid yw darpariaeth i'w hystyried yn un sy'n peri gwariant anghymesur dim ond oherwydd bod y ddarpariaeth honno yn ddrutach na darpariaeth gyffelyb.

Adran 97: Cymorth ariannol ar gyfer addysg bellach neu hyfforddiant

310. Mae'r adran hon yn nodi pwerau i Weinidogion Cymru a'r Comisiwn gyllido addysg bellach neu hyfforddiant. (Gweler adran 144(2) i (5) am y diffiniad o addysg bellach a hyfforddiant).
311. Caniateir i'r Comisiwn a Gweinidogion Cymru gyllido unrhyw berson i ddarparu addysg bellach neu hyfforddiant yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru ac addysg bellach a hyfforddiant i ddysgwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru. Yn ogystal, cânt gyllido unrhyw berson i ddarparu nwyddau neu wasanaethau mewn cysylltiad â'r addysg bellach honno neu'r hyfforddiant hwnnw.
312. Caiff Gweinidogion Cymru a'r Comisiwn hefyd roi cymorth ariannol yn uniongyrchol i ddysgwyr a darpar ddysgwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru neu sy'n ymgymryd ag addysg bellach neu hyfforddiant yng Nghymru neu'n bwriadu gwneud hynny. Er enghraifft, gallai'r cymorth hwnnw fod ar gyfer cynorthwyo gyda chostau trafndiaeth neu ofal plant neu i ddarparu cymelliadau i fynd i'r afael â phrinder sgiliau mewn sectorau cyflogaeth penodol yng Nghymru.
313. Caiff Gweinidogion Cymru a'r Comisiwn roi cymorth ariannol ar gael o'u hadnoddau eu hunain, neu gallant drefnu i bobl eraill ddarparu adnoddau ar ran Gweinidogion Cymru neu'r Comisiwn, neu eu hadnoddau eu hunain.

Section 96: Requirements on Commission when securing further education and training

306. This section sets out various requirements on the Commission when it is discharging its duties under sections 93, 94 and 95.
307. In performing the duties under those sections, the Commission must take into account a number of factors, including the education and training required in different sectors of employment, the needs of employees and potential employees, and the need to provide additional learning provision and assessment of additional learning needs through the medium of Welsh.
308. The Commission must also bear in mind circumstances where it might reasonably expect education and training to be secured by other bodies without drawing on its own resources, for example additional learning needs provision secured by local authorities under the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018.
309. The Commission must make best use of its resources and in particular avoid provision which might give rise to disproportionate expenditure. Provision is not to be considered as giving rise to disproportionate expenditure solely because it is more expensive than comparable provision.

Section 97: Financial support for further education or training

310. This section sets out powers for the Welsh Ministers and the Commission to fund further education or training. (See section 144(2) to (5) for the definition of further education and training).
311. The Commission and the Welsh Ministers are able to fund any person to provide further education or training wholly or mainly in Wales and further education or training to learners ordinarily resident in Wales. Additionally they may fund any person to provide goods or services in connection with such further education or training.
312. The Welsh Ministers and the Commission are also able to provide financial support directly to learners and prospective learners who are ordinarily resident in Wales or who are undertaking or proposing to undertake further education or training in Wales. For example, such support could be to assist with transport or childcare costs or to provide incentives to address skills shortages in particular employment sectors in Wales.
313. The Welsh Ministers and the Commission may make financial support available from their resources or arrange for others to provide resources on behalf of the Welsh Ministers or the Commission, or their own resources.

314. Caiff darparwyr addysg bellach sy'n cael cyllid o'r Comisiwn neu Weinidogion Cymru drosglwyddo cyllid i gorff sy'n cydlafurio. Gallai hyn gynnwys cyllid ar gyfer darpariaeth y tu allan i Gymru, er enghraifft, cyllid i gefnogi addysg bellach neu hyfforddiant pan fo'r dysgwyr yn preswyllo fel arfer yng Nghymru ond bod elfennau o'i addysg bellach neu hyfforddiant yn cael eu darparu gan sefydliad sy'n cydlafurio yn Lloegr. Mae angen i ddarparwr a gyllidir gan y Comisiwn sy'n cydlafurio, sydd wedi cydlafurio neu sy'n bwriadu cydlafurio â sefydliad arall i ddarparu cwrs neu gyrsiau addysg bellach penodol gael cydsyniad y Comisiwn i drosglwyddo cyllid i'r sefydliad sy'n cydlafurio. Ni fydd gan y Comisiwn gydberthynas uniongyrchol â'r sefydliad sy'n cydlafurio ac felly y darparwr a gyllidir gan y Comisiwn fydd yn parhau i fod yn gyfrifol am y cyllid. Mae'r un amodau yn gymwys o ran cyllid gan Weinidogion Cymru o dan yr adran hon. Mae adran 108 yn cynnwys gweithdrefnau i'w dilyn pan fydd y Comisiwn yn penderfynu pa un ai i roi cydsyniad ai peidio.
315. Ni chaiff y Comisiwn gyllido'r chweched dosbarth mewn ysgolion o dan is-adran (1)(a) neu (b) (na gwneud trefniadau i awdurdod lleol ddarparu adnoddau'r Comisiwn i wneud hynny). Bydd darpariaeth chweched dosbarth mewn ysgolion yn cael ei chyllido gan y Comisiwn o dan adran 101.
316. Ond caiff y Comisiwn gyllido (neu wneud trefniadau i awdurdod lleol ddarparu adnoddau'r Comisiwn i gyllido) gweithgareddau arloesi mewn ysgolion a gynhelir a chanddynt chweched dosbarth. Mae 'gweithgaredd arloesi' yn weithgaredd a fydd, ym marn y Comisiwn, yn cyfrannu at godi safonau addysg drydyddol, ac sydd wedi ei ddisgrifio mewn dogfen sydd wedi ei llunio gan y Comisiwn ac sydd wedi ei chymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

Adran 98: Cymorth ariannol ar gyfer addysg bellach neu hyfforddiant: darpariaeth bellach

317. Os ydynt yn darparu cymorth ariannol yn uniongyrchol i ddysgwyr o dan adran 97(1)(d) neu (e), caiff Gweinidogion Cymru a'r Comisiwn wneud hynny drwy gyfeirio at ffioedd neu daliadau sy'n daladwy gan y dysgwyr hynny, neu drwy gyfeirio at faterion eraill sy'n gysylltiedig â darparu'r addysg bellach honno neu'r hyfforddiant hwnnw (megis costau trafndiaeth neu ofal plant).
318. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr fod wedi eu cofrestru mewn categori penodedig ar y gofrestr a sefydlir o dan adran 25 er mwyn bod yn gymwys i gael cyllid o dan adran 97(1)(a) neu (b) (darparu neu'r bwriad i ddarparu addysg bellach neu hyfforddiant).
319. Caiff y rheoliadau hynny wneud eithriadau ar gyfer cyrsiau penodol neu gyrsiau o ddisgrifiad penodol. Gallai'r rheoliadau, er enghraifft, ddisgrifio cwrs drwy gyfeirio at ofynion sydd i'w bodloni ganddo neu at y person sy'n ei ddarparu, neu at y cymhwyster y mae'r cwrs yn arwain ato.

314. Providers of further education who are in receipt of funding from the Commission or the Welsh Ministers may pass funds to a collaborating body. This could include funding for provision outside Wales, for example funding to support further education or training where the learner is ordinarily resident in Wales but elements of their further education or training are delivered by a collaborating organisation in England. A provider funded by the Commission who is collaborating, has collaborated or who proposes to collaborate with another organisation to deliver a particular further education course or courses needs the consent of the Commission to pass funds to the collaborating organisation. The Commission will not have a direct relationship with the collaborating organisation and therefore the provider funded by the Commission remains responsible for the funding. The same applies to funding from the Welsh Ministers under this section. Section 108 contains procedures to be followed when the Commission is deciding whether or not to give consent.
315. The Commission may not fund school sixth forms under subsection (1)(a) or (b) (or make arrangements for a local authority to provide the Commission's resources to do so). School sixth form provision will be funded by the Commission under section 101.
316. But the Commission may fund (or make arrangements for a local authority to provide the Commission's resources to fund) innovative activities in maintained schools with sixth forms. An 'innovative activity' is an activity that in the Commission's opinion will contribute to the raising of standards of tertiary education and is described in a document prepared by the Commission and approved by the Welsh Ministers.

Section 98: Financial support for further education or training: further provision

317. If they provide financial support directly to learners under section 97(1)(d) or (e), the Welsh Ministers and the Commission can do so by reference to fees or charges payable by those learners, or by reference to other matters connected with the provision of that further education or training (such as transport or childcare costs).
318. The Welsh Ministers may make regulations requiring providers to be registered in a specified category on the register established under section 25 in order to be eligible for funding under section 97(1)(a) or (b) (provision or proposed provision of further education or training).
319. Those regulations may make exceptions for certain courses or courses of a certain description. The regulations could, for example, describe a course by referring to requirements to be met by it or to the person providing it, or to the qualification to which the course leads.

320. Byddai'r trefniadau hyn yn caniatáu mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer pynciau neu leoliadau penodol a all godi oherwydd diffyg darparwyr cofrestredig sydd â'r gallu i ddiwallu angen a nodwyd, er enghraifft, yr angen i gwrs arbenigol gael ei ddarparu yng Nghymru neu i nifer fach o fyfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ymgymryd â'r cwrs hwnnw, sef cwrs nad yw'n gosteffeithiol i ddarparwyr cofrestredig ei ddarparu o bosibl.

Adran 99: Adnoddau ariannol ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant: telerau ac amodau

321. Pan fo Gweinidogion Cymru neu'r Comisiwn yn darparu cyllid o dan adran 97, mae'r adran hon yn caniatáu iddynt osod telerau ac amodau fel y maent yn ystyried eu bod yn briodol. Mae Gweinidogion Cymru neu'r Comisiwn yn gallu ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr addysg bellach neu hyfforddiant godi ffioedd, gwneud dyfarndaliadau, ac adennill symiau o arian yn erbyn meini prawf penodedig. Fodd bynnag, ni chaniateir codi ffi ar ddysgwyr rhwng 16 a 19 oed a dysgwyr cymwys sy'n cael addysg a hyfforddiant o dan adran 94 am addysg bellach neu hyfforddiant (oni bai bod eithriad wedi ei nodi mewn rheoliadau).
322. Pan fo cyllid at ddiben darparu addysg bellach neu hyfforddiant wedi ei ddyrannu gan y Comisiwn i ddarparwyr nad ydynt ar y gofrestr, rhaid i'r telerau ac amodau ei gwneud yn ofynnol bod gan y darparwr gynllun diogelu dysgwyr cymeradwy yn ei le (pan fo'r Comisiwn wedi rhoi'r hysbysiad priodol); ei fod yn cydymffurfio â'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr (os yw'n ddarparwr addysg drydyddol yng Nghymru); a'i fod yn rhoi sylw i gyngor a chanllawiau a ddyroddir gan y Comisiwn.
323. Pan fo'r Comisiwn wedi gwneud trefniadau i berson arall ddarparu adnoddau ariannol y Comisiwn caiff ei gwneud yn ofynnol i'r person osod y telerau ac amodau a amlinellir ym mharagraff 321, a rhaid iddo ei gwneud yn ofynnol i'r person osod y rheini a amlinellir ym mharagraff 322.

Adran 100: Profion modd

324. Mae adran 97(1)(g) yn caniatáu i'r Comisiwn neu Weinidogion Cymru gyllido costau profion modd.
325. Mae adran 100 yn caniatáu i'r Comisiwn neu Weinidogion Cymru gynnal y profion hynny eu hunain neu wneud trefniadau i eraill wneud hynny ar eu rhan.
326. Mae'r Comisiwn neu Weinidogion Cymru yn gallu ystyried canlyniadau'r profion hynny wrth ddyrannu cymorth ariannol o dan adran 97(1)(d) neu (e) i bersonau sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru sy'n cael, neu'n bwriadu cael, addysg bellach neu hyfforddiant ac i bersonau nad ydynt yn preswyllo fel arfer yng Nghymru sy'n cael, neu'n bwriadu cael, addysg bellach neu hyfforddiant yng Nghymru.

Adran 101: Y chweched dosbarth mewn ysgolion

327. Mae'r adran hon yn darparu'r pŵer i'r Comisiwn i gyllido addysg a ddarperir gan y chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol a gosod telerau ac amodau priodol sy'n debyg i'r rhai a ganiateir o dan adran 99. Mae cyllid o dan yr adran hon i'w roi i awdurdodau lleol, a rhaid cymhwysu'r cyllid hwnnw fel rhan o gyllideb ysgolion yr awdurdod.

320. These arrangements would permit gaps in provision for particular subjects or locations to be addressed which may arise due to a lack of registered providers able to fulfil an identified need, for example a need for a specialist course to be delivered in Wales or to be undertaken by small numbers of students ordinarily resident in Wales, which may not be cost effective for registered providers to deliver.

Section 99: Financial resources for further education or training: terms and conditions

321. Where the Welsh Ministers or the Commission provide funding under section 97, this section allows them to impose terms and conditions as they consider appropriate. The Welsh Ministers or the Commission are able to require providers of further education or training to charge fees, make awards, and to recover sums of money against specified criteria. However, learners between the ages of 16 to 19 and eligible learners receiving education and training under section 94 must not be charged a fee for further education or training (unless there is an exception set out in regulations).
322. Where funding for the purpose of providing further education or training is allocated by the Commission to providers that are not on the register, the terms and conditions must require that the provider has an approved learner protection plan in place (where the Commission has given the appropriate notice); complies with the Learner Engagement Code (if it is a tertiary education provider in Wales); and has regard to advice and guidance issued by the Commission.
323. Where the Commission has made arrangements for another person to provide the Commission's financial resources it may require the person to impose the terms and conditions outlined in paragraph 321 and must require the person to impose those outlined in paragraph 322.

Section 100: Means tests

324. Section 97(1)(g) allows the Commission or the Welsh Ministers to fund the cost of means tests.
325. Section 100 allows the Commission or the Welsh Ministers to carry out such tests themselves or arrange for others to do so on their behalf.
326. The Commission or the Welsh Ministers are able to take into account the outcomes of such tests when allocating financial support under section 97(1)(d) or (e) for persons who are ordinarily resident in Wales who are receiving or proposing to receive further education or training and for persons not ordinarily resident in Wales who are receiving or proposing to receive further education or training in Wales.

Section 101: School sixth-forms

327. This section provides the Commission with the power to fund education provided by school sixth forms maintained by local authorities and impose appropriate terms and conditions similar to those permissible under section 99. Funding under this section is to be made to local authorities and must be applied as part of the authority's schools budget.

328. Rhaid i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru a chanddi chweched dosbarth gydymffurfio â'r gofynion sydd wedi eu cynnwys yn y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr. Rhaid i awdurdod lleol sy'n cael cyllid o dan yr adran hon a chorff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru a chanddi chweched dosbarth hefyd roi sylw i gyngor neu ganllawiau a roddir gan y Comisiwn.

Adran 102: Personau ag anghenion dysgu ychwanegol

329. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn roi sylw i anghenion pobl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a dymunoldeb bod cyfleusterau ar gael a all fod o gymorth o ran y gofynion o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Rhaid i'r Comisiwn ystyried y materion hyn wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan y darpariaethau a ganlyn:
- adran 93 (addysg a hyfforddiant ar gyfer personau 16 i 19 oed);
 - adran 94 (addysg a hyfforddiant ar gyfer personau cymwys dros 19 oed);
 - adran 95 (addysg a hyfforddiant ar gyfer personau dros 19 oed);
 - adran 97(1)(a) i (e) a (7) (cymorth ariannol ar gyfer addysg bellach neu hyfforddiant);
 - adran 103(1) (cymorth ariannol ar gyfer darparu gwybodaeth, cyngor, canllawiau ac i greu cysylltiadau â chyflogwyr); ac
 - adran 103(2) (cymorth ariannol ar gyfer darparu addysg bellach neu hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg neu at ddiben addysgu Cymraeg).
330. Os yw'r Comisiwn yn cyllido darparu gwybodaeth, cyngor a chanllawiau ynghylch addysg neu hyfforddiant, bydd angen iddo ystyried anghenion dysgu ychwanegol. Er enghraifft, gallai'r Comisiwn ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei chynnwys am asesu anghenion dysgu ychwanegol a sut y gall dysgwyr gael cymorth, yn ogystal â sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chanllawiau yn hygyrch i'r sawl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Os yw'r Comisiwn yn darparu cymorth ariannol i ddysgwyr, er enghraifft, er mwyn cynorthwyo â chostau trafndiaeth i gael mynediad i gyrsiau penodol sy'n arwain at broffesiynau lle y mae prinder sgiliau, yna rhaid iddo ystyried anghenion dysgu ychwanegol wrth wneud hynny. Er enghraifft, gallai hyn olygu ystyried costau trafndiaeth y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.
331. Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd (pa un a yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol neu fel arall) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.
332. Mae Atodlen 4 yn diwygio Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018. Bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru a'r Comisiwn, wrth arfer swyddogaethau o dan Ran 2 o Ddeddf 2018, roi sylw i unrhyw ganllawiau y caniateir iddynt gael eu cynnwys yn y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol. Yn ogystal, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn cyn dyroddi neu ddiwygio'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol. Bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru a'r Comisiwn arfer eu swyddogaethau er mwyn darparu gwybodaeth a chymorth arall i awdurdod lleol os yw'n gofyn am y cynhorthwy hwnnw.

328. The governing body of a maintained school with a sixth form in Wales must comply with the requirements contained in the Learner Engagement Code. A local authority in receipt of funding under this section and the governing body of a maintained school with a sixth form in Wales must also have regard to advice or guidance given by the Commission.

Section 102: Persons with additional learning needs

329. This section requires the Commission to have regard to the needs of people with additional learning needs and the desirability of the availability of facilities that may aid the requirements of the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018. The Commission must take these matters into account when it is discharging functions under the following provisions:
- section 93 (education and training for persons aged 16 to 19);
 - section 94 (education and training for eligible persons over 19);
 - section 95 (education and training for persons over 19);
 - section 97(1)(a) to (e) and (7) (financial support for further education or training);
 - section 103(1) (financial support for provision of information, advice, guidance and to form links with employers); and
 - section 103(2) (financial support for the provision of further education or training through the medium of Welsh or for the purpose of teaching Welsh).
330. If the Commission funds the provision of information, advice and guidance about education or training, it will need to take into account additional learning needs. It could, for example, require the inclusion of information about additional learning needs assessments and how learners may obtain support, as well as making information, advice and guidance accessible to those with additional learning needs. If the Commission provides financial support to learners, for example to assist with transport costs to access particular courses leading to professions where there is a skills shortage, then it must take into account additional learning needs when doing so. For example, this could mean considering the transport costs of those with additional learning needs.
331. A person has additional learning needs if he or she has a learning difficulty or disability (whether the learning difficulty or disability arises from a medical condition or otherwise) which calls for additional learning provision.
332. Schedule 4 makes amendments to the Additional Learning Needs and Education Tribunal Act 2018. The Welsh Ministers and the Commission will be required, when exercising functions under Part 2 of the 2018 Act, to have regard to any guidance that may be contained in the Additional Learning Needs Code. Additionally, the Welsh Ministers must consult the Commission before issuing or revising the Additional Learning Needs Code. Both the Welsh Ministers and the Commission are to be required to exercise their functions so as to provide information and other help to a local authority if it requests such assistance.

Cymorth ariannol ar gyfer gweithgareddau eraill sy'n gysylltiedig ag addysg drydyddol

Adran 103: Cymorth ariannol ar gyfer gweithgareddau eraill sy'n gysylltiedig ag addysg drydyddol

333. Mae'r adran hon yn caniatáu i'r Comisiwn neu Weinidogion Cymru gyllido'r ddarpariaeth o wybodaeth, cyngor neu ganllawiau ynghylch addysg neu hyfforddiant yn ogystal â chyfleusterau sydd wedi eu dylunio i greu cysylltiadau rhwng darparwyr addysg neu hyfforddiant a chyflogwyr. Caiff Gweinidogion Cymru neu'r Comisiwn dalu'r cyllid neu wneud trefniadau i bersonau eraill wneud hynny, er enghraifft drwy drefniadau cydlafurio. Caiff y Comisiwn neu Weinidogion Cymru osod telerau ac amodau priodol ar y cyllid, ac adennill symiau o arian pan na fo meini prawf penodedig wedi eu bodloni.
334. Mae'r adran hon hefyd yn galluogi'r Comisiwn i gyllido addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg ac addysgu Cymraeg i ddysgwyr dros 16 oed. Caiff y Comisiwn dalu'r cyllid ei hun neu wneud trefniadau i bersonau eraill wneud hynny, er enghraifft drwy drefniadau cydlafurio. Caiff y Comisiwn osod telerau ac amodau ar y cyllid fel y mae'n ystyried eu bod yn briodol ac adennill symiau o arian pan na fo meini prawf penodedig wedi eu bodloni.
335. Ni chaiff y Comisiwn gyllido'r chweched dosbarth mewn ysgolion o dan is-adran (2) (na gwneud trefniadau o dan is-adran (3) i awdurdod lleol ddarparu adnoddau'r Comisiwn i wneud hynny). Bydd darpariaeth chweched dosbarth mewn ysgolion yn cael ei chyllido gan y Comisiwn o dan adran 101.
336. Os yw'r Comisiwn wedi gwneud trefniadau o dan is-adran (3) i berson arall ddarparu adnoddau ariannol y Comisiwn, caiff y Comisiwn ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw ddarparu'r adnoddau yn ddarostyngedig i unrhyw delerau ac amodau y mae'r Comisiwn yn ystyried eu bod yn briodol.

Cymorth ariannol ar gyfer prentisiaethau

Adran 104: Cymorth ariannol ar gyfer prentisiaethau

337. Caiff y Comisiwn ddarparu cyllid i ddarparwyr prentisiaeth Gymreig gymeradwy a chaiff hefyd ddarparu cyllid ar gyfer llunio fframwaith prentisiaeth.
338. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r sawl sy'n cael cyllid ar gyfer prentisiaethau Gymreig cymeradwy fod wedi ei gofrestru mewn categori penodol ar y gofrestr a sefydlir o dan adran 25.
339. Mae angen i ddarparwr a gyllidir gan y Comisiwn sy'n cydlafurio, sydd wedi cydlafurio neu sy'n bwriadu cydlafurio â sefydliad arall i ddarparu prentisiaeth Gymreig gymeradwy gael cydsyniad y Comisiwn i drosglwyddo cyllid i'r sefydliad sy'n cydlafurio. Ni fydd gan y Comisiwn gydberthynas uniongyrchol â'r sefydliad sy'n cydlafurio ac felly y darparwr a gyllidir gan y Comisiwn fydd yn parhau i fod yn gyfrifol am y cyllid. Mae adran 108 yn cynnwys gweithdrefnau i'w dilyn pan fydd y Comisiwn yn penderfynu pa un ai i roi cydsyniad ai peidio.

Financial support for other activities connected to tertiary education

Section 103: Financial support for other activities connected to tertiary education

333. This section allows the Commission or Welsh Ministers to fund the provision of information, advice or guidance about education or training as well as facilities that are designed to forge links between providers of education or training and employers. The Welsh Ministers or the Commission may disburse the funding or arrange for others to do so, for example through collaborative arrangements. The Commission or the Welsh Ministers are able to impose appropriate terms and conditions to the funding and recover sums of money where specified criteria are not met.
334. This section also enables the Commission to fund tertiary education through the medium of Welsh and the teaching of Welsh to learners over the age of 16. The Commission may disburse the funding itself or arrange for others to do so, for example through collaborative arrangements. The Commission is able to impose terms and conditions to the funding as it considers appropriate and recover sums of money where specified criteria are not met.
335. The Commission may not fund school sixth forms under subsection (2) (or make arrangements under subsection (3) for a local authority to provide the Commission's resources to do so). School sixth form provision will be funded by the Commission under section 101.
336. If the Commission has made arrangements under subsection (3) for another person to provide the Commission's financial resources, the Commission may require that person to provide the resources subject to such terms and conditions that the Commission considers appropriate.

Financial support for apprenticeships

Section 104: Financial support for apprenticeships

337. The Commission may provide funding to providers of an approved Welsh apprenticeship and may also provide funding for the preparation of an apprenticeship framework.
338. The Welsh Ministers may make regulations requiring the recipient of funding for approved Welsh apprenticeships to be registered in a specified category on the register established under section 25.
339. A provider funded by the Commission who is collaborating, has collaborated or who proposes to collaborate with another organisation to deliver an approved Welsh apprenticeship needs the consent of the Commission to pass funds to the collaborating organisation. The Commission will not have a direct relationship with the collaborating organisation and therefore the provider funded by the Commission remains responsible for the funding. Section 108 contains procedures to be followed when the Commission is deciding whether or not to give consent.

340. Mae'r adran hon yn caniatáu i'r Comisiwn osod telerau ac amodau fel y mae'n ystyried eu bod yn briodol. Yn benodol, caiff y telerau ac amodau ei gwneud yn ofynnol addalu cyllid (gan gynnwys gyda llog) os na chydymffurfir â'r dibenion y dyrennir y cyllid atynt. Pan fo cyllid ar gyfer prentisiaethau Cymreig cymeradwy wedi ei ddyrannu gan y Comisiwn i ddarparwyr nad ydynt ar y gofrestr, rhaid i'r Comisiwn ei gwneud yn ofynnol bod gan y darparwr gynllun diogelu dysgwyr cymeradwy yn ei le (pan fo'r Comisiwn wedi rhoi'r hysbysiad priodol); ei fod yn cydymffurfio â'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr (os yw'n ddarparwr addysg drydyddol yng Nghymru); a'i fod yn rhoi sylw i gyngor a chanllawiau a ddyroddir gan y Comisiwn.

Ymchwil ac arloesi

Adran 105: Cymorth ariannol ar gyfer ymchwil ac arloesi

341. Mae'r adran hon yn caniatáu i'r Comisiwn ddarparu cyllid i ddarparwyr cofrestredig, a bennir mewn rheoliadau, i gyflawni gweithgareddau ymchwil ac arloesi. Rhagwelir y gall y darparwyr cofrestredig fod yn sefydliadau addysg uwch, sefydliadau addysg bellach neu ddarparwyr eraill.
342. Bydd darparwr cofrestredig sy'n cael cyllid yn gallu trosglwyddo'r cyllid i gyrff sy'n cydlafurio mewn cysylltiad â'r gweithgareddau ymchwil ac arloesi â chydysyniad y Comisiwn. Bydd hyn yn caniatáu i'r darparwr gydlafurio ag ystod eang o bartneriaid sy'n ymwneud ag ymchwil ac arloesi o bosibl. Bydd y darparwr cofrestredig yn atebol i'r Comisiwn am wario cyllid cyhoeddus ac am gyfrifyddu ar gyfer cyllid a drosglwyddir i gorff sy'n cydlafurio. Mae adran 108 yn cynnwys gweithdrefnau i'w dilyn pan fydd y Comisiwn yn penderfynu pa un ai i roi cydsyniad ai peidio.
343. Caiff y Comisiwn hefyd wneud grantiau, benthyciadau neu daliadau eraill i berson sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer ymchwil neu arloesi gan ddarparwr penodedig neu mewn cysylltiad â hynny.
344. Wrth ddarparu cymorth ariannol, rhaid i'r Comisiwn roi sylw i sicrhau nad yw'n gwneud unrhyw beth a fyddai'n anghefnogi darparwyr rhag ceisio cyllid o ffynonellau eraill neu gynnal cyllid o ffynonellau eraill (er enghraifft o ddiwydiant, byd masnach, cymwynaswyr, cyn-fyfyrwyr, UKRI, Horizon Europe neu ffynonellau cyllid cymwys eraill).
345. Mae hefyd yn ofynnol i'r Comisiwn, wrth arfer ei swyddogaethau cyllido ymchwil ac arloesi, roi sylw i ddymunoldeb cynnal unrhyw nodweddion arbennig i unrhyw darparwr y mae'n darparu cymorth ariannol iddo. Mater i'r Comisiwn yw penderfynu'r hyn y mae'n ystyried i fod yn gydbwysedd priodol o ran cymorth yng ngoleuni unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Caiff y nodweddion hynny gynnwys, er enghraifft, natur arbenigol ei ddarpariaeth.

Adran 106: Cymorth ariannol ar gyfer ymchwil ac arloesi: telerau ac amodau

346. Mae'r adran hon yn galluogi'r Comisiwn i osod telerau ac amodau ar gyllid i ddarparwr cofrestredig fel y mae'n ystyried eu bod yn briodol. Os yw'r cyllid yn cael ei drosglwyddo i gorff sy'n cydlafurio gallai'r Comisiwn, er enghraifft, fel amod cyllido, yn ei dro ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr sy'n cael y cyllid osod amodau ar unrhyw gyllid a drosglwyddir ganddo i gorff sy'n cydlafurio. Ni chaiff y Comisiwn osod telerau ac amodau ar gyllid a dderbynnir gan ddarparwr sy'n dod o ffynonellau eraill.

340. This section allows the Commission to impose terms and conditions as it considers appropriate. In particular, the terms and conditions may require the repayment of funds (including with interest) if the purposes for which the funding is allocated are not complied with. Where funding for approved Welsh apprenticeships is allocated by the Commission to providers that are not on the register, the Commission must require that the provider has an approved learner protection plan in place (where the Commission has given the appropriate notice); complies with the Learner Engagement Code (if it is a tertiary education provider in Wales); and has regard to advice and guidance issued by the Commission.

Research and innovation

Section 105: Financial support for research and innovation

341. This section allows the Commission to provide funding to registered providers, specified in regulations, to carry out research and innovation. It is envisaged that the registered providers may be higher education institutions, further education institutions or other providers.
342. A registered provider receiving funding will be able to pass the funding to collaborating bodies in connection with the research and innovation with the Commission's consent. This will allow the provider to work collaboratively with a broad range of partners that may be engaged in research and innovation. The registered provider will be accountable to the Commission for the expenditure of public funding and for accounting for funding which is passed on to a collaborating body. Section 108 contains procedures to be followed when the Commission is deciding whether or not to give consent.
343. The Commission can also make grants, loans or other payments to a person who is providing services for or in connection with research or innovation by a specified provider.
344. The Commission must when providing financial support, have regard to ensuring that it does not do anything which would discourage providers from seeking or maintaining funding from other sources (for example from industry, commerce, benefactors, alumni, UKRI, Horizon Europe or other eligible funding sources).
345. The Commission is also required, in exercising its research and innovation funding functions, to have regard to the desirability of maintaining any distinctive characteristics of any provider to which it provides financial support. It is a matter for the Commission to determine what it considers to be an appropriate balance of support in light of any other relevant considerations. Such characteristics may include, for example, the specialist nature of its provision.

Section 106: Financial support for research and innovation: terms and conditions

346. This section enables the Commission to impose terms and conditions on funding to a registered provider as it considers appropriate. If the funding is passed onto a collaborating body the Commission could, for instance, as a condition of funding, in turn require the recipient provider to impose conditions on any funding it passes to a collaborating body. The Commission cannot impose terms and conditions on funding received by a provider which comes from other sources.

347. Mae'r adran hon hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer sut y dylai penderfyniadau cyllido o dan adran 105 gael eu gwneud gan y Comisiwn. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn roi sylw i'r hyn a elwir yn gyffredinol yn egwyddor Haldane (hynny yw ei bod yn well gwneud penderfyniadau ar gynigion unigol ar ôl gwerthuso eu hansawdd a'u heffaith debygol).
348. Bydd y cysyniad yn gymwys i'r holl benderfyniadau cyllido o dan adran 105 a wneir gan y Comisiwn. Gan hynny, mae'r ddarpariaeth yn caniatáu i'r Comisiwn arwain y cyfeiriad cyffredinol o ran cyllido, ond mae hefyd yn disgwyl i benderfyniadau ynghylch yr ymchwil gael eu gwneud gan arbenigwyr yn y maes, y tu allan i'r Comisiwn, er enghraifft, gallai sicrhau bod cynigion ymchwil yn cael budd o ymarferion tendro cystadleuol fod yn un ffordd o fodloni'r gofyniad i roi sylw i'r egwyddor. Diben y gofyniad i roi sylw i'r egwyddor hon yw i sicrhau nad yw rhyddid academiaidd yn cael ei beryglu yn ystod y broses.

Adran 107: Swyddogaethau eraill y Comisiwn mewn perthynas ag ymchwil ac arloesi

349. Mae'r adran hon yn nodi dyletswydd y Comisiwn i hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r gweithgareddau ymchwil ac arloesi a gyflawnir yng Nghymru, er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd cynulleidfa eang, ac i ledaenu canlyniadau gwaith ymchwil ac arloesi.
350. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn fonitro perfformiad ei raglenni cyllido i sicrhau'r llwyddiant, effeithiolrwydd darparu a gwerth am arian gorau posibl. Rhaid cynnwys yr wybodaeth hon yn yr adroddiad blynyddol fel sy'n ofynnol gan baragraff 16 o Atodlen 1.

Telerau ac amodau: ansawdd, llywodraethu etc., lles a chyfle cyfartal

Adran 108: Cymorth ariannol o dan adrannau 89, 97 a 104: darpariaeth bellach ynghylch telerau ac amodau

351. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn, wrth benderfynu'r telerau a'r amodau i'w gosod ar y cyllid a ddarperir ganddo o dan yr adrannau penodedig i ddarparwr nad yw'n ddarparwr cofrestredig, ystyried pa un ai i osod gofynion sy'n ymwneud:
- ag ansawdd yr addysg drydyddol a ddarperir gan neu ar ran y darparwr,
 - ag effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a rheoli'r darparwr,
 - â chynaliadwyedd ariannol y darparwr,
 - ag effeithiolrwydd trefniadau'r darparwr ar gyfer cefnogi a hybu lles ei fyfyrwyr a'i staff, ac
 - â chyflawni canlyniadau y gellir eu mesur mewn cysylltiad â'r nodau cyfle cyfartal a nodir yn is-adran (2).
352. Mae'r nodau yn is-adran (2) yn ymwneud â chynyddu cyfranogiad, gwella cyfraddau cadw myfyrwyr, lleihau bylchau o ran cyrhaeddiad, a gwella canlyniadau o ran cyflogaeth ac astudio pellach ar gyfer myfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

347. This section also makes provision for how funding decisions under section 105 should be made by the Commission. The Commission is required to have regard to what is generally known as the Haldane principle (namely that decisions on individual proposals are best taken following an evaluation of their quality and likely impact).
348. The concept will apply to all funding decisions under section 105 made by the Commission. Therefore the provision allows that the general direction on funding should be led by the Commission, but also expects decisions regarding the research to be made by experts in the field, outside of the Commission, for example ensuring that research proposals benefit from competitive tendering exercises might be one way of meeting the requirement to have regard to the principle. The purpose of the requirement to have regard to this principle is to ensure that academic freedom is not compromised during the process.

Section 107: The Commission's other functions in relation to research and innovation

349. This section sets out the Commission's duty to promote the awareness and understanding of research and innovation carried out in Wales, to ensure it reaches a wide audience in Wales and to disseminate the results of research and innovation.
350. The Commission is required to monitor the performance of its funding programmes to ensure maximum success, effectiveness of delivery and value for money. This information must be included in the annual report as required by paragraph 16 of Schedule 1.

Terms and conditions: quality, governance etc., welfare and equal opportunities

Section 108(1): Financial support under sections 89, 97 and 104: further provision about terms and conditions

351. This section requires the Commission, when determining the terms and conditions to be imposed on its funding to a non-registered provider under the specified sections, to consider whether to impose requirements relating to:
- the quality of the tertiary education provided by or on behalf of the provider,
 - the effectiveness of the governance and management of the provider,
 - the financial sustainability of the provider,
 - the effectiveness of the provider's arrangements for supporting and promoting the welfare of its students and staff, and
 - the delivery of measurable outcomes in respect of equality of opportunity aims set out in subsection (2).
352. The aims set out in subsection (2) relate to increasing participation, improving retention, reducing attainment gaps, and improving employment and further study outcomes for students from under-represented groups.

353. Mae is-adran (3) yn diffinio grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol fel grwpiau o fyfyrwyr nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg berthnasol yng Nghymru o ganlyniad i ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd neu sefydliadol. Diffinnir addysg berthnasol fel cyrsiau addysg uwch cymwys a gyllidir gan y Comisiwn o dan adran 89(3)(a) neu (b), addysg bellach neu hyfforddiant a gyllidir gan y Comisiwn o dan adran 97(1)(a) neu (b) a phrentisiaethau Cymreig cymeradwy a gyllidir gan y Comisiwn o dan adran 104(1)(a). Mae hyn yn golygu y bydd darparwyr yn gweithio i gyflawni canlyniadau cyfle cyfartal mewn cysylltiad â'r addysg drydyddol sy'n ymwneud â'r cyllid y maent yn ei gael gan y Comisiwn.

Cyrff sy'n cydlafurio: cydsyniad

Adran 109: Cydsyniad i daliadau i gyrff sy'n cydlafurio

354. Mae'r adran hon yn darparu fframwaith o fesurau rheoli mewn cysylltiad â chydsyniad y Comisiwn i gyllid gael ei drosglwyddo oddi wrth ddarparwyr, sefydliadau neu unigolion a gyllidir yn uniongyrchol i gyrff sy'n cydlafurio o dan y pwerau cyllido penodedig. Er mwyn i berson fod yn gorff sy'n cydlafurio, rhaid i'r Comisiwn fod wedi rhoi cydsyniad i adnoddau ariannol gael eu talu iddo gan y person sy'n cael cyllid gan y Comisiwn. Ni fydd gan y Comisiwn berthynas reoleiddiol na pherthynas gyllido uniongyrchol â chyrff sy'n cydlafurio.
355. Mae is-adran (1) yn galluogi'r Comisiwn i roi ei gydsyniad yn gyffredinol, neu mewn perthynas â thaliad penodol neu gorff penodol sy'n cydlafurio. Mae is-adran (2) yn caniatáu i'r Comisiwn osod telerau ac amodau ar unrhyw gydsyniad y mae'n ei roi. Rhaid iddo osod amod sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr a gyllidir yn uniongyrchol wneud trefniadau i sicrhau bod adnoddau ariannol a delir i gorff sy'n cydlafurio yn cael eu rheoli'n effeithlon ac mewn ffordd sy'n darparu gwerth am arian. Mae is-adran (9) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gadw pob cydsyniad gweithredol o dan adolygiad.
356. Mae is-adrannau (4) i (7) yn gwneud darpariaeth i'r Comisiwn allu tynnu'n ôl, atal dros dro neu amrywio ei gydsyniad ar ôl ei roi ac yn nodi'r trefniadau gweithdrefnol y mae rhaid i'r Comisiwn eu dilyn cyn cymryd camau o'r fath. Mae hyn yn cynnwys gofyniad i'r Comisiwn roi hysbysiad i'r cyrff a gyllidir yn uniongyrchol y mae cydsyniadau o'r fath yn gymwys iddynt a rhoi sylw i unrhyw sylwadau a geir cyn penderfynu pa un ai i dynnu'r cydsyniad yn ei ôl, ei amrywio neu ei atal dros dro. Pan fo'r Comisiwn wedi rhoi ei gydsyniad yn gyffredinol, caiff y Comisiwn dynnu'n ôl, atal dros dro neu amrywio ei gydsyniad yn gyffredinol, neu mewn cysylltiad â thaliad penodol neu gorff penodol sy'n cydlafurio. Mae is-adran (8) yn gwneud darpariaeth i'r trefniadau gweithdrefnol hyn beidio â bod yn gymwys o dan amgylchiadau pan fo angen i'r Comisiwn gymryd camau ar fwy o frys ac na fyddai'n ymarferol cydymffurfio â'r gofynion.

353. Subsection (3) defines under-represented groups as groups of students that are under-represented in relevant education in Wales as a result of social, cultural, economic or organisational factors. Relevant education is defined as eligible courses of higher education funded by the Commission under section 89(3)(a) or (b), further education or training funded by the Commission under section 97(1)(a) or (b) and approved Welsh apprenticeships funded by the Commission under section 104(1)(a). This means that providers will be concerned with delivering equality of opportunity outcomes in respect of the tertiary education which relates to the funding they receive from the Commission.

Collaborating bodies: consent

Section 109: Consent for payments to collaborating bodies

354. This section provides a framework of controls in respect of the Commission's consent for the passage of funds from directly funded providers, organisations or individuals to collaborating bodies under the specified funding powers. For a person to be a collaborating body the Commission must have given consent to financial resources being paid to it by the person receiving funds from the Commission. The Commission will not have a direct regulatory or funding relationship with collaborating bodies.
355. Subsection (1) enables the Commission to give its consent generally, or in relation to a specific payment or a specific collaborating body. Subsection (2) allows the Commission to attach terms and condition to any consents that it gives. It must apply a condition requiring directly funded providers to make arrangements ensuring financial resources paid to a collaborating body are managed efficiently and in a way that provides value for money. Subsection (9) requires the Commission to keep all active consents under review.
356. Subsections (4) to (7) make provision for the Commission to be able to withdraw, suspend or vary its consent once given and set out the procedural arrangements that the Commission must follow before taking such action. This includes a requirement for the Commission to give notice to the directly funded bodies to whom such consents apply and to have regard for any representations received before deciding whether to withdraw, vary or suspend consent. Where the Commission has given its consent generally, the Commission may withdraw, suspend or vary its consent in general, or in respect of a specific payment or a specific collaborating body. Subsection (8) makes provision for these procedural arrangements not to apply in circumstances where the Commission needs to take more urgent action and it would not be practicable to comply with the requirements.

Cyfarwyddydau cymorth ariannol

Adran 110: Cyfarwyddydau cymorth ariannol

357. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo'r Comisiwn mewn cysylltiad â darparu cymorth ariannol a ddarperir i berson perthnasol o dan y pwerau cyllido penodedig, pan fo'n ymddangos i Weinidogion Cymru fod materion ariannol y person perthnasol wedi cael eu camreoli, neu yn cael eu camreoli. Mae is-adran (3) yn diffinio cyfarwyddyd cymorth ariannol ac yn nodi'r pwerau cyllido y caiff cyfarwyddyd o'r fath fod yn berthnasol iddynt. Mae is-adran (4) yn diffinio person perthnasol at ddibenion cyfarwyddydau cymorth ariannol.
358. Cyn dyroddi cyfarwyddyd cymorth ariannol i'r Comisiwn, mae is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn a'r person perthnasol y mae'r cyfarwyddyd yn ymwneud ag ef oni bai bod Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni nad yw'n ymarferol gwneud hynny oherwydd y brys y mae angen rhoi'r cyfarwyddyd iddo, neu fod yr amgylchiadau penodol yn golygu y byddai'r ymgynghoriad yn tanseilio diben y cyfarwyddyd.
359. Rhaid cadw unrhyw gyfarwyddyd cymorth ariannol a roddir i'r Comisiwn o dan yr adran hon o dan adolygiad. Yn ogystal, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi cyfarwyddyd cymorth ariannol a roddir i'r Comisiwn ac adrodd am unrhyw gyfarwyddydau o'r fath i'r Senedd. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn gydymffurfio â chyfarwyddyd cymorth ariannol a roddir gan Weinidogion Cymru.

RHAN 4: PRENTISIAETHAU

Rhagarweiniol

Adran 111: Ystyr "prentisiaeth Gymreig gymeradwy"

360. Mae'r adran hon yn diffinio ystyr "prentisiaeth Gymreig gymeradwy" ac yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n nodi'r amodau sydd i'w bodloni gan brentisiaeth Gymreig gymeradwy (is-adran (4)).
361. Mae prentisiaeth Gymreig gymeradwy yn digwydd naill ai:
- o dan gytundeb prentisiaeth Gymreig gymeradwy; neu
 - o dan brentisiaeth Gymreig amgen (is-adran (2)).
362. Mae prentisiaeth Gymreig gymeradwy yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwaith ddigwydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru (is-adran (3)).

Adran 112: Ystyr "cytundeb prentisiaeth Gymreig gymeradwy"

363. Mae'r adran hon yn amlinellu ystyr "cytundeb prentisiaeth Gymreig gymeradwy".
364. Mae is-adran (1) yn darparu ei fod yn gytundeb—
- sy'n darparu i berson weithio i berson arall am dâl mewn galwedigaeth sydd â fframwaith prentisiaeth,
 - sy'n darparu i'r prentis gael hyfforddiant er mwyn caniatáu i'r prentis fodloni gofynion y fframwaith prentisiaeth, ac
 - sy'n bodloni unrhyw amodau eraill a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

Financial support directions

Section 110: Financial support directions

357. This section enables the Welsh Ministers to direct the Commission in respect of the provision of financial support provided to a relevant person under the specified funding powers, where it appears to the Welsh Ministers that the financial affairs of the relevant person have been, or are being, mismanaged. Subsection (3) defines a financial support direction and sets out the funding powers to which such a direction can relate. Subsection (4) defines a relevant person for the purposes of financial support directions.
² The function was originally vested in the Secretary of State but by virtue of article 2 of and Schedule 1 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) that function was transferred in relation to Wales to the National Assembly for Wales (established under the Government of Wales Act 1998). By virtue of section 162 of and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers.

425. Mae is-adran (3) yn mewnosod is-adran newydd (9A) yn adran 124A o Ddeddf 1988 sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn ac unrhyw bersonau eraill y maent yn meddwl eu bod yn briodol cyn arfer y pwerau estynedig i wneud gorchmynion. Mae hefyd yn mewnosod is-adran newydd (9B) sy'n gwneud darpariaeth i orchymyn o'r fath a wneir gan Weinidogion Cymru wneud diwygiadau canlyniadol neu ddiddymu darpariaethau penodedig penodol yn Neddf 1988 os ydynt yn angenrheidiol o ganlyniad i unrhyw ddiwygiadau neu ddiddymiadau a wneir i Atodlen 7A o dan y pŵer i wneud orchmynion.

Adran 138: Erthyglau llywodraethu corfforaethau addysg uwch yng Nghymru

426. Mae adran 125 o Ddeddf 1988 yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliad sy'n cael ei redeg gan gorfforaeth addysg uwch fod ag erthyglau llywodraethu, a gymeradwyir gan y Cyfrin Gyngor, sy'n ymwneud â rhedeg y sefydliad. Mae adran 126 o'r Ddeddf honno hefyd yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â chynnwys yr erthyglau llywodraethu, ynghyd â diwygio a dirymu'r erthyglau hynny.
427. Mae is-adran (2) o adran 138 o'r Ddeddf yn mewnosod is-adrannau newydd (8) a (9) yn adran 125 o Ddeddf 1988, gan alluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, i ddiwygio neu ddiddymu adran 125(2) i (4) o Ddeddf 1988 sy'n ymwneud â chynnwys penodol yn erthyglau llywodraethu corfforaethau addysg uwch.
428. Ymhlith pethau eraill, mae adran 125(2) i (4) o Ddeddf 1988 yn gwneud darpariaeth i'r erthyglau bennu dosbarthiad swyddogaethau rhwng bwrdd y llywodraethwyr, pennaeth y sefydliad a'r bwrdd academaidd a rheoleiddio cyfansoddiad a swyddogaethau pwyllgorau'r gorfforaeth. Mae'r darpariaethau hynny hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r erthyglau wneud darpariaeth mewn cysylltiad â gweithdrefnau cyfarfodydd bwrdd y llywodraethwyr, y bwrdd academaidd, pwyllgorau'r gorfforaeth ac ar gyfer penodi aelodau'r gorfforaeth. Yn ogystal, maent yn galluogi i'r erthyglau wneud darpariaeth sy'n awdurdodi bwrdd y llywodraethwyr i wneud rheolau neu is-ddeddfau ar gyfer llywodraethiant y sefydliad a rhedeg y sefydliad.
429. Bydd yr is-adran newydd (9) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â'r Comisiwn ac unrhyw bersonau eraill y maent yn meddwl eu bod yn briodol cyn arfer y pwerau newydd i wneud gorchmynion.
430. Mae is-adran (3) yn diwygio adran 232 o Ddeddf 1988.
431. Gwneir y diwygiad i adran 232 o Ddeddf 1988 (gorchmynion a rheoliadau) er mwyn sicrhau bod is-adran (1) o'r adran honno (sy'n ei gwneud yn ofynnol i orchmynion a rheoliadau o dan Ddeddf 1988 gael eu gwneud drwy offeryn statudol) yn cwmpasu pwerau newydd Gweinidogion Cymru i wneud gorchmynion a roddir gan adrannau 137 a 138 o'r Ddeddf.
432. Mae is-adrannau (4ZA), (4ZB) a (4ZC), a fewnosodir yn adran 232 o Ddeddf 1988 gan adran 138(3)(b) o'r Ddeddf, yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â gweithdrefn Senedd Cymru sy'n gysylltiedig â phwerau Gweinidogion Cymru i wneud gorchmynion a rheoliadau o dan Ddeddf 1988, fel y'u mewnosodir gan y Ddeddf hon.

425. Subsection (3) inserts a new subsection (9A) into section 124A of the 1988 Act which requires the Welsh Ministers to consult with the Commission and any other persons they think appropriate before exercising the extended order-making powers. It also inserts a new subsection (9B) which makes provision for such an order made by the Welsh Ministers to make consequential amendments or repeals to certain specified provisions in the 1988 Act if those are necessary as a result of any amendments or repeals made under the order-making power to Schedule 7A.

Section 138: Articles of government of higher education corporations in Wales

426. Section 125 of the 1988 Act requires an institution conducted by a higher education corporation to have articles of government, approved by the Privy Council, relating to the conduct of the institution. Section 126 of that Act also makes provision relating to the content of the articles of government together with its amendment and revocation.
427. Subsection (2) of section 138 of the Act inserts new subsections (8) and (9) into section 125 of the 1988 Act enabling the Welsh Ministers, by order, to amend or repeal section 125(2) to (4) of the 1988 Act, which relate to certain content of articles of government of higher education corporations.
428. Among other things, section 125(2) to (4) of the 1988 Act make provision for the articles to determine the distribution of functions between the board of governors, the principal of the institution and the academic board and regulate the constitution and functions of committees of the corporation. Those provisions also require the articles to make provision in respect of the procedures for meetings of the board of governors, the academic board, the corporation's committees and for the appointment of members of the corporation. In addition, they enable the articles to make provision authorising the board of governors to make rules or bye-laws for the government and conduct of the institution.
429. The new subsection (9) will place the Welsh Ministers under a duty to consult with the Commission and any other persons they think appropriate before exercising the new order-making powers.
430. Subsection (3) amends section 232 of the 1988 Act.
431. The amendment to section 232 of the 1988 Act (orders and regulations) is to ensure that subsection (1) of that section (which requires orders and regulations under the 1988 Act to be made by statutory instrument) catches the new powers of the Welsh Ministers to make orders conferred by sections 137 and 138 of the Act.
432. Subsections (4ZA), (4ZB) and (4ZC), which will be inserted into section 232 of the 1988 Act by section 138(3)(b) of the Act, make provision relating to the Senedd procedure attached to the order and regulation making powers of the Welsh Ministers under the 1988 Act, as inserted by this Act.

Adran 139: Diddymu corfforaethau addysg uwch yng Nghymru

433. Mae'r adran hon yn diwygio adran 128 o Ddeddf 1988 sy'n ymwneud â diddymu corfforaethau addysg uwch.
434. Mae adran 128(2) fel y'i diwygir yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddarparu ar gyfer diddymu corfforaeth addysg uwch yng Nghymru a throsglwyddo ei heiddo, ei hawliau a'i hatebolrwyddau i unrhyw un neu ragor o'r canlynol:
- unrhyw berson y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei fod yn ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â darparu cyfleusterau neu wasanaethau addysgol o unrhyw ddisgrifiad;
 - unrhyw gorff corfforedig a sefydlir at ddibenion sy'n cynnwys darparu cyfleusterau neu wasanaethau o'r fath;
 - y Comisiwn;
 - Gweinidogion Cymru.
435. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn o dan adran 128(2) o Ddeddf 1988 ond os yw'r gorfforaeth addysg uwch sydd i'w diddymu wedi gofyn i orchymyn gael ei wneud, neu wedi cydsynio i orchymyn gael ei wneud. Caniateir i orchymyn gael ei wneud heb gydsyniad y gorfforaeth addysg uwch, os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried bod cydsyniad wedi ei atal yn afresymol neu ei oedi'n afresymol.
436. Mae adran 128(4) o Ddeddf 1988, fel y'i diwygir gan adran 139(4) o'r Ddeddf, yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r gorfforaeth addysg uwch sydd i'w diddymu a'r Comisiwn cyn gwneud gorchymyn o dan is-adran (1).
437. Mae adran 139 o'r Ddeddf yn gwneud diwygiadau i adran 128 o Ddeddf 1988 o ganlyniad i greu'r Comisiwn, gan roi cyfeiriadau at y Comisiwn yn lle cyfeiriadau at CCAUC.
438. Mae is-adran (3) yn gwneud darpariaeth newydd ynghylch y pŵer o dan adran 128(1)(b) i wneud darpariaeth drwy orchymyn i drosglwyddo eiddo, hawliau ac atebolrwyddau'r gorfforaeth addysg uwch sy'n cael ei diddymu. Mewnysodir is-adran newydd (1A) yn adran 128 sy'n darparu –
- y caiff gorchymynion wneud darpariaeth ynghylch effaith trosglwyddo ar unrhyw hawl i ragbrynu, hawl i ddychwelyd neu hawl debyg arall a all fod yn gymwys mewn cysylltiad ag eiddo neu hawliau o'r fath (gan gynnwys darpariaeth ynghylch cyfrifo a thalu unrhyw ddigollediad teg);
 - bod gorchymynion yn cael effaith mewn perthynas ag eiddo, hawliau neu atebolrwyddau y maent yn gymwys iddynt er gwaethaf unrhyw ddarpariaeth (o ba natur bynnag) mewn unrhyw ddeddfiad neu unrhyw reol gyfreithiol, a fyddai fel arall yn rhwystro neu'n cosbi trosglwyddiad yr eiddo, yr hawliau neu'r atebolrwyddau neu'n cyfyngu ar eu trosglwyddo.

Section 139: Dissolution of higher education corporations in Wales

433. This section amends section 128 of the 1988 Act which relates to the dissolution of higher education corporations.
434. Section 128(2) as amended contains a power for the Welsh Ministers by order to provide for the dissolution of a higher education corporation in Wales and the transfer of its property, rights and liabilities to any one or more of the following –
- any person appearing to the Welsh Ministers to be wholly or mainly engaged in the provision of educational facilities or services of any description;
 - any body corporate established for purposes which include the provision of such facilities or services;
 - the Commission;
 - the Welsh Ministers.
435. The Welsh Ministers may only make an order under section 128(2) of the 1988 Act if the higher education corporation to be dissolved has requested an order be made, or has consented to an order being made. An order may be made without the consent of the higher education corporation, if the Welsh Ministers consider that consent has been unreasonably withheld or unreasonably delayed.
436. Section 128(4) of the 1988 Act, as amended by section 139(4) of the Act, requires the Welsh Ministers to consult the higher education corporation to be dissolved and the Commission before making an order under subsection (1).
437. Section 139 of the Act makes amendments to section 128 of the 1988 Act in consequence of the creation of the Commission, replacing references to HEFCW with references to the Commission.
438. Subsection (3) makes new provision about the power under section 128(1)(b) to make provision by order for the transfer of the property, rights and liabilities of the higher education corporation being dissolved. A new subsection (1A) is inserted into section 128 which provides that orders –
- may make provision about the effect of a transfer on any right of pre-emption, right of return or other similar right that may apply in respect of such property or rights (including provision about the calculation and payment of any just compensation);
 - have effect in relation to property, rights or liabilities to which they apply in spite of any provision (of whatever nature) of any enactment or any rule of law, which would otherwise prevent, penalise or restrict the transfer of the property, rights or liabilities.

439. Mae is-adran (6) yn mewnosod is-adran newydd (7) yn adran 128 o Ddeddf 1988 sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad sy'n nodi'r amgylchiadau y maent yn bwriadu arfer y pŵer o dan yr adran hon i wneud gorchymyn odanynt, a'i gadw o dan adolygiad. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau hynny y maent yn ystyried eu bod yn briodol cyn cyhoeddi'r datganiad, neu ddatganiad diwygiedig, a gosod copi ohono gerbron y Senedd cyn gynted â phosibl ar ôl iddo gael ei gyhoeddi.

Ymgynghoriad ynghylch gwasanaethau gyrfaedd

Adran 140: Dyletswydd i ymgynghori â'r Comisiwn ynghylch gwasanaethau gyrfaedd

440. Mae'r adran hon yn mewnosod adran newydd 9A ar ôl adran 9 o Ddeddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1973 ("Deddf 1973").
441. Bydd yr adran newydd 9A yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â'r Comisiwn bob blwyddyn ynghylch blaenoriaethau strategol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf er mwyn arfer eu dyletswydd yn adran 8 ac arfer eu pŵer yn adran 9 o Ddeddf 1973. Mae adran 8 o Ddeddf 1973 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod gwasanaethau gyrfaedd yn cael eu darparu i ddisgyblion mewn ysgolion a myfyrwyr mewn addysg bellach a hyfforddiant. Mae adran 9 o'r Ddeddf yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ddarparu gwasanaethau gyrfaedd ar gyfer eraill.
442. At ddiben yr adran hon, diffinnir blwyddyn ariannol fel cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth.

Cyffredinol

Adran 141: Diogelu Data

443. Mae'r adran hon yn egluro nad yw unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y Ddeddf sy'n ei gwneud yn ofynnol datgelu neu ddefnyddio gwybodaeth, neu sy'n galluogi datgelu neu ddefnyddio gwybodaeth, yn datgymhwyso, mewn unrhyw ffordd, y ddeddfwriaeth diogelu data bresennol.

Adran 142: Cyhoeddi

444. Mae adran 142 yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â phob dyletswydd o dan y Ddeddf (ond nid dyletswydd a osodir drwy ddiwygio deddfiad arall) i gyhoeddi rhywbeth. Drwy gydol y Ddeddf hon, ble bynnag y bo dyletswydd i gyhoeddi adroddiad neu gynllun, rhaid iddo gael ei gyhoeddi'n electronig, ar wefan y darparwr neu'r sefydliad, a bod yn hygyrch ac yn rhad ac am ddim.
445. Caiff y darparwr neu'r sefydliad y mae dyletswydd arno i gyhoeddi hefyd ddewis cyhoeddi mewn unrhyw ffordd y mae'n ystyried ei bod yn briodol. Caniateir darparu copïau o'r adroddiadau neu'r cynlluniau a gyhoeddir yn rhad ac am ddim, neu ar ôl talu ffi nad yw'n fwy na chost gwneud y copi.

439. Subsection (6) inserts new subsection (7) into section 128 of the 1988 Act requiring the Welsh Ministers to publish and keep under review a statement setting out the circumstances in which they propose to exercise the power under this section to make an order. The Welsh Ministers must consult such persons as they consider appropriate before publishing the statement, or revised statement, and lay a copy before the Senedd as soon as possible after it is published.

Consultation about careers services

Section 140: Duty to consult the Commission on careers services

440. This section inserts a new section 9A after section 9 of the Employment and Training Act 1973 (“the 1973 Act”).
441. The new section 9A will place Welsh Ministers under a duty to consult the Commission each year on strategic priorities for the next financial year for their performance of their duty in section 8 and the exercise of their power in section 9 of the 1973 Act. Section 8 of the 1973 Act places a duty on the Welsh Ministers to ensure the provision of careers services to pupils in schools and students in further education and training. Section 9 of the Act gives the Welsh Ministers a power to provide careers services for others.
442. For the purpose of this section financial year is defined as a period of 12 months ending on 31 March.

General

Section 141: Data Protection

443. This section clarifies that no provision made by the Act requiring, or enabling, the disclosure or use of information disapplies, in any way, existing data protection legislation.

Section 142: Publication

444. Section 142 makes provision relating to every duty under the Act (but not a duty imposed by amending another enactment) to publish something. Throughout this Act, wherever there is a duty to publish a report or plan, these must be published electronically, on the provider or organisation’s website, and be accessible free of charge.
445. The provider or organisation under the duty to publish may also chose to publish in any way they consider appropriate. Copies of the reports or plans published may be supplied free of charge, or on payment of a fee which does not exceed the cost of making the copy.

Adran 143: Rheoliadau

446. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth gyffredinol ynghylch sut y mae'r rheoliadau amrywiol y caniateir eu gwneud o dan y Ddeddf i'w gwneud. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ynghylch gweithdrefnau'r Senedd sy'n gymwys mewn perthynas â'r rheoliadau, a'r ddarpariaeth ategol (hynny yw, darpariaeth atodol, darpariaeth gysylltiedig, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed) y caniateir ei gwneud yn y rheoliadau hyn.

Adran 144: Dehongli cyffredinol

447. Mae'r adran hon yn diffinio ystyr termau penodol a ddefnyddir yn y Ddeddf hon ac mae'n hunanesboniadol. Yn benodol, mae is-adran (8) yn darparu bod addysg drydyddol a ddarperir gan neu ar ran darparwr addysg drydyddol yng Nghymru (fel y'i diffinnir yn is-adran (1)) yn cynnwys addysg a ddarperir wyneb yn wyneb, drwy ddysgu o bell neu drwy gyfuniad o'r dulliau hynny.

Adran 145: Pŵer i ddarparu i'r Brifysgol Agored gael ei thrin fel darparwr addysg drydyddol yng Nghymru

448. Mae'r adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i gymhwyso'r darpariaethau o dan y Ddeddf hon i'r Brifysgol Agored. Nid yw'r Brifysgol Agored yn dod o fewn y diffiniad o "darparwr addysg drydyddol yng Nghymru" oherwydd nad yw ei gweithgareddau yn cael eu cynnal "yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru". Bydd y pŵer hwn yn yr adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru drin y Brifysgol Agored fel darparwr addysg drydyddol yng Nghymru. Caiff hyn fod er mwyn cymhwyso'r amodau cofrestru, cynlluniau diogelu dysgwyr a darpariaethau eraill i'r Brifysgol Agored er mwyn sicrhau cyllid a diogelwch ar gyfer dysgwyr yng Nghymru sy'n ymgymryd â chyrtsiau astudio gyda'r Brifysgol Agored.

Adran 146: Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a darpariaeth drosiannol etc.

449. Mae'r adran hon yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud y ddarpariaeth gysylltiedig, y ddarpariaeth ganlyniadol, y ddarpariaeth atodol, y ddarpariaeth drosiannol, y ddarpariaeth ddarfodol neu'r ddarpariaeth arbed honno y maent yn meddwl ei bod yn briodol at ddiben unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y Ddeddf hon neu oddi tani, gan gynnwys mewn perthynas â'r darpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn y Ddeddf hon, mewn cysylltiad ag unrhyw ddarpariaeth o'r fath neu er mwyn rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth o'r fath.

Adran 147 ac Atodlen 4: Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol

450. Mae Atodlen 4 (a gyflwynir gan adran 147) yn nodi'r mân ddiwygiadau a'r diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth bresennol fel y mae'r Ddeddf yn effeithio arni.

451. Os ystyrir bod disgrifiad o ran effaith y diwygiad o gymorth, fe'i cynhwysir. Os yw diwygiad wedi ei ddisgrifio yn rhywle arall yn y nodiadau esboniadol hyn, nis disgrifir yma; yn yr un modd, ni ddisgrifir mân ddiwygiadau megis newidiadau mewn deddfwriaeth bresennol o "Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru" i "y Comisiwn Addysg Drydyddol".

Section 143: Regulations

446. This section makes general provision about how the various regulations that may be made under the Act are to be made. This includes provision about the procedures of the Senedd that apply in relation to the regulations, and the ancillary provision (that is, supplemental, incidental, consequential, transitional, transitory or saving provision) that may be made in these regulations.

Section 144: General interpretation

447. This section defines specific terms used in this Act and is self-explanatory. In particular subsection (8) provides that tertiary education provided by or on behalf of a tertiary education provider in Wales (as defined in subsection (1)) includes education provided face-to-face, by distance learning or by a combination of those means.

Section 145: Power to provide for the Open University to be treated as a tertiary education provider in Wales

448. This section allows the Welsh Ministers to make regulations to apply the provisions under this Act to the Open University. The Open University does not fall within the definition of “tertiary education provider in Wales” because its activities do not take place “wholly or mainly in Wales”. This power in this section will allow the Welsh Ministers to treat the Open University as a tertiary education provider in Wales. This may be to apply the registration conditions; learner protection plans and other provisions to the Open University in order to ensure funding and protection for learners in Wales undertaking courses of study with the Open University.

Section 146: Power to make consequential and transitional provision etc.

449. This section provides that the Welsh Ministers may, by regulations, make such incidental, consequential, supplemental, transitional, transitory or saving provision as they think appropriate for the purpose of, or in connection with, or for giving full effect to, any provision made by or under this Act, including in relation to the provisions contained in this Act.

Section 147 and Schedule 4: Minor and consequential amendments

450. Schedule 4 (introduced by section 147) sets out the minor and consequential amendments to existing legislation as affected by the Act.

451. Where a description as to the effect of the amendment is considered helpful it is included. Where an amendment has been described elsewhere in these explanatory notes, it is not described here; similarly, minor amendments such as changes in existing legislation from “the Higher Education Funding Council for Wales” to “the Commission for Tertiary Education” are not described.

452. Mae paragraff 1 yn diwygio adran 8(4) o Ddeddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1973. Mae'n rhoi cyfeiriad at ddarparwr addysg drydyddol sydd wedi ei gofrestru â'r Comisiwn i ddarparu addysg uwch, ac eithrio sefydliad sydd hefyd o fewn y sector addysg bellach, yn lle cyfeiriad at sefydliad sy'n dod o fewn cwmpas adran 91(5) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Mae'n golygu bod darparwyr addysg drydyddol sydd wedi eu cofrestru â'r Comisiwn at ddiben addysg uwch (ac eithrio sefydliadau o fewn y sector addysg bellach) wedi eu heithrio o ddyletswydd Gweinidogion Cymru i sicrhau bod gwasanaethau gyrfaoedd yn cael eu darparu ar gyfer myfyrwyr mewn ysgolion a cholegau.
453. Mae paragraff 3 yn diwygio adran 43(5)(aa) o Ddeddf Addysg (Rhif 2) 1986. Mae'n rhoi cyfeiriad at ddarparwyr addysg drydyddol sydd wedi eu cofrestru â'r Comisiwn i ddarparu addysg uwch yn lle "any institution other than a university within the higher education sector". Mae'n sicrhau bod y ddyletswydd i sicrhau rhyddid i lefaru yn gymwys i brifysgolion, sefydliadau addysg bellach a darparwyr addysg drydyddol eraill sydd wedi eu cofrestru â'r Comisiwn at ddiben darparu addysg uwch.
454. Mae paragraff 6, ymhlith pethau eraill, yn rhoi is-adran newydd sy'n diwygio'r diffiniad o'r hyn a olygir gan "an institution within the higher education sector" o ran Cymru, yn lle is-adrannau (5)(a) a (5)(aa) o adran 91 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Yr effaith yw bod darparwyr addysg drydyddol sydd wedi eu cofrestru mewn categori a bennir mewn rheoliadau at ddibenion bod yn gymwys i gael cyllid gan y Comisiwn ar gyfer addysg uwch neu waith ymchwil neu arloesi (ac eithrio sefydliadau o fewn y sector addysg bellach) yn dod o fewn y diffiniad o fod yn sefydliad o fewn y sector addysg uwch o ran Cymru.
455. Mae paragraff 13 yn diwygio Deddf Safonau Gofal 2000 fel bod darparwyr addysg drydyddol sy'n gymwys i gael cyllid gan y Comisiwn at ddibenion addysg uwch neu waith ymchwil neu arloesi, a'r Comisiwn ei hunan, yn dod o fewn cwmpas swyddogaethau adolygu Comisiynydd Plant Cymru.
456. Mae paragraff 14(2) yn diddymu adrannau 31 - 33 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, sef prif ddyletswyddau Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag addysg a hyfforddiant ôl-16.
457. Mae paragraffau 14(3) i 14(17) yn diwygio adrannau 33A - 33E, 33G, a 33I - 33Q o'r Ddeddf honno i roi cyfrifoldeb am lunio cwricwla lleol ar gyfer dysgwyr 16 i 19 oed i'r Comisiwn yn hytrach na Gweinidogion Cymru, ac yn gwneud diwygiadau cysylltiedig o ganlyniad i hyn. Mae pwerau Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau a gorchmynion a'r rhan fwyaf o'u pwerau i roi canllawiau a chyfarwyddydau sy'n ymwneud â chwricwla lleol wedi eu cadw, ond mae'r diwygiadau yn gwneud arfer y pwerau hynny (ac eithrio rhoi chyfarwyddydau) yn ddarostyngedig i ofyniad i ymgynghori â'r Comisiwn.
458. Mae'r diwygiadau hyn o ganlyniad i gyfrifoldeb y Comisiwn am sicrhau bod cyfleusterau addysg a hyfforddiant priodol yn cael eu darparu ar gyfer dysgwyr rhwng 16 i 19 oed (gweler adran 93).

452. Paragraph 1 amends section 8(4) of the Employment and Training Act 1973. It replaces reference to an institution falling within scope of section 91(5) of the Further and Higher Education Act 1992 with reference to a tertiary education provider registered with the Commission to provide higher education, other than an institution which is also within the further education sector. It means that tertiary education providers registered with the Commission for the purpose of higher education (excluding institutions within the further education sector) are excluded from the Welsh Ministers' duty to secure the provision of careers services for school and college students.
453. Paragraph 3 amends section 43(5)(aa) of the Education (No 2) Act 1986. It replaces "any institution other than a university within the higher education sector" with a reference to tertiary education providers registered with the Commission to provide higher education. It ensures that the duty to secure freedom of speech applies to universities, further education institutions and other tertiary education providers registered with the Commission for the purpose of providing higher education.
454. Paragraph 6, amongst other things, replaces subsections (5)(a) and (5)(aa) of section 91 of the Further and Higher Education Act 1992 with a new subsection which amends the definition of what constitutes "an institution within the higher education sector" in relation to Wales. The effect is that tertiary education providers registered in a category specified in regulations for the purposes of being eligible to receive funding from the Commission for higher education or research or innovation (other than institutions within the further education sector) fall within the definition of being an institution within the higher education sector in relation to Wales.
455. Paragraph 13 amends the Care Standards Act 2000 so that tertiary education providers eligible for funding from the Commission for the purposes of higher education or research or innovation, and the Commission itself fall within scope of the Children's Commissioner for Wales reviewing functions.
456. Paragraph 14(2) repeals sections 31 - 33 of the Learning and Skills Act 2000, which are the main duties on the Welsh Ministers in relation to post-16 education and training.
457. Paragraphs 14(3) to 14(17) amend sections 33A- 33E, 33G, and 33I - 33Q of that Act to give responsibility for the formation of local curricula for learners aged 16 - 19 to the Commission instead of the Welsh Ministers and make related amendments in consequence of this. The Welsh Ministers' regulation and order-making powers and most of their guidance and direction powers related to local curricula are retained, but the amendments subject the exercise of those powers (other than the giving of directions) to a requirement to consult the Commission.
458. These amendments are as a consequence of the Commission's responsibility for securing the provision of proper facilities for education and training for learners aged 16 to 19 (see section 93).

459. Mae paragraff 19 yn diwygio Atodlenni 2 a 3 i Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 fel bod darparwyr addysg drydyddol sy'n gymwys i gael cyllid gan y Comisiwn at ddibenion addysg uwch neu waith ymchwil neu arloesi, a'r Comisiwn ei hunan, yn dod o fewn cwrpas swyddogaethau adolygu'r Comisiynydd Pobl Hŷn o dan adrannau 3 a 5 o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.
460. Mae paragraff 21(2) yn diwygio Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 fel bod arolygiadau a gynhelir gan y Prif Arolygydd o dan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 yn cael eu hystyried yn weithgaredd rheoleiddiedig sy'n ymwneud â phlant at ddibenion Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006.
461. Mae paragraff 25(3) yn diwygio adran 43 o Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn cyn rhoi canllawiau i benaethiaid ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol a phenaethiaid sefydliadau addysg bellach ynghylch arfer eu swyddogaethau mewn cysylltiad â darparu dogfen llwybrau dysgu i fyfyrwyr perthnasol.
462. Mae paragraff 28 yn diwygio Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i roi cyfeiriad at y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn lle'r cyfeiriad at Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn Atodlen 6 i'r Mesur.
463. Mae paragraff 29 yn gwneud diwygiadau i ddarpariaethau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 sy'n ymwneud ag ad-drefnu ysgolion.
464. Mae'r diwygiadau hyn yn cynnwys y Comisiwn fel corff y mae rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag ef ynghylch y drafft o'r Cod (neu'r Cod diwygiedig) ar drefniadaeth ysgolion ac maent yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn, wrth arfer swyddogaethau o dan Ran 3 o'r Ddeddf honno (trefniadaeth ysgolion) i weithredu yn unol ag unrhyw ofynion perthnasol yn y Cod ac i roi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol ynddo.
465. Mae'r diwygiadau yn dileu'r gofyniad awtomatig i gynigion trefniadaeth ysgolion sy'n effeithio ar addysg chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru. Yn lle hynny, nid yw'n ofynnol cael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru ond pan fo gwrthwynebiad i'r cynigion wedi cael ei anfon, yn ysgrifenedig, at y sawl a wnaeth y cynigion yn ystod y cyfnod gwrthwynebu (28 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod y cyhoeddwyd y cynigion), ac nad yw wedi ei dynnu'n ôl yn ysgrifenedig o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl diwedd y cyfnod gwrthwynebu.
466. Mae'r diwygiadau hefyd yn dileu pwerau Gweinidogion Cymru i wneud cynigion i ailstrwythuro addysg chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol, gan roi'r pwerau yn lle hynny i'r Comisiwn i ailstrwythuro addysg chweched dosbarth (Pennod newydd 3A o Ran 3 ar drefniadaeth ysgolion).
467. Mae'r pwerau hynny yn cynnwys gallu'r Comisiwn i gyfarwyddo awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol, o dan amgylchiadau penodol ac yn unol â'r Cod, i ddwyn ymlaen gynigion ynghylch addysg chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol.

459. Paragraph 19 amends Schedules 2 and 3 to the Commissioner for Older People (Wales) Act 2006 so that tertiary education providers eligible for funding from the Commission for the purposes of higher education or research or innovation and the Commission itself fall within scope of the reviewing functions of the Commissioner for Older People under sections 3 and 5 of the Commission for Older People (Wales) Act 2006.
460. Paragraph 21(2) amends Schedule 4 to the Safeguarding Vulnerable Groups Act 2006 so that inspections conducted by the Chief Inspector under the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022 are considered a regulated activity related to children for the purposes of the Safeguarding Vulnerable Groups Act 2006.
461. Paragraph 25(3) amends section 43 of the Learning and Skills (Wales) Measure 2009 so as to require the Welsh Ministers to consult the Commission before giving guidance to head teachers of local authority maintained schools and principals of further education institutions about the exercise of their functions in respect of the provision of a learning pathways document to relevant students.
462. Paragraph 28 amends the Welsh Language (Wales) Measure 2011 to replace the reference to the Higher Education Funding Council for Wales in Schedule 6 to the Measure with a reference to the Commission for Tertiary Education and Research.
463. Paragraph 29 makes amendments to provisions of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 concerned with school reorganisations.
464. These amendments include the Commission as a body whom the Welsh Ministers must consult on the draft of the Code (or revised Code) on school organisation and places a duty on the Commission, when exercising functions under Part 3 of that Act (school organisation) to act in accordance with any relevant requirements in the Code and have regard to any relevant guidelines in it.
465. The amendments remove the automatic requirement for approval by the Welsh Ministers of school organisation proposals affecting maintained school sixth form education, instead only requiring the approval of the Welsh Ministers where an objection to the proposals has been sent, in writing, to the proposer during the objection period (28 days beginning on the day the proposals were published) and has not been withdrawn in writing within 28 days following the end of the objection period.
466. The amendments also take away the Welsh Ministers' powers to make proposals to restructure local authority maintained school sixth form education, instead giving the Commission powers to restructure school sixth form education (new Chapter 3A of Part 3 on school organisation).
467. Those powers involve the Commission being able to direct, in certain circumstances, and in accordance with the Code, a local authority or a governing body of a foundation or voluntary school to bring forward proposals about local authority maintained school sixth form education.

468. Bydd gan y Comisiwn y pŵer i wneud ei gynigion ei hun yn dilyn cyfarwyddyd ganddo, os yw'r amser i'r awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu wneud y cynigion wedi dod i ben neu os ydynt wedi cyhoeddi cynigion. Os bydd gwrthwynebiadau i gynigion gan y Comisiwn, rhaid i'r mater gael ei benderfynu gan Weinidogion Cymru. Fel arall rhaid i'r Comisiwn benderfynu a ddylent gael eu gweithredu.
469. Mae'r diwygiadau hyn o ganlyniad i gyfrifoldeb y Comisiwn am sicrhau bod cyfleusterau addysg a hyfforddiant priodol yn cael eu darparu ar gyfer dysgwyr 16 i 19 oed (gweler adran 93).
470. Mae paragraff 30 yn diwygio adran 162 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n darparu bod rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad rhwng yr awdurdod lleol, pob un o 'bartneriaid perthnasol' yr awdurdod a chyrrff eraill sy'n ymwneud â gweithgareddau sy'n berthnasol i oedolion y mae arnynt angen gofal a chymorth.
471. Diffinnir y Comisiwn, a Gweinidogion Cymru, fel partner perthnasol i'r graddau y mae'r Comisiwn yn arfer ei swyddogaethau neu y mae Gweinidogion Cymru yn arfer eu swyddogaethau, o dan adran 92, 93, 94, 95, 97 neu 103(1) o'r Ddeddf.
472. Mae paragraff 40 yn diwygio Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017, gan roi cyfeiriad at y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn lle'r cyfeiriad at Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn rheoliad 3(4).

Adran 148: Dod i rym

473. Mae is-adran (1) yn dwyn adrannau 140 i 146 o'r Ddeddf i rym drannoeth diwrnod y Cydsyniad Brenhinol.
474. Daw holl ddarpariaethau eraill y Ddeddf i rym drwy orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru (is-adran (1)). Mae is-adran (3) yn caniatáu i orchmynion sy'n dwyn darpariaethau i rym bennu dyddiau gwahanol at ddibenion gwahanol a gwneud darpariaeth ddarvoudol, darpariaeth drosiannol a darpariaeth arbed mewn cysylltiad â dwyn darpariaethau i rym.

Adran 149: Enw byr

475. Mae adran 149 yn darparu mai enw byr y Ddeddf yw Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022.
476. Mae'r adran hon hefyd yn ychwanegu'r Ddeddf at y rhestr o Ddeddfau Addysg a nodir yn adran 578 o Ddeddf Addysg 1996.

COFNOD Y TRAFODION YN SENEDD CYMRU

477. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau at gyfer pob cyfnod o hynt y Ddeddf drwy'r Senedd. Gellir cael Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am hynt y Ddeddf hon ar wefan y Senedd ar:
<https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IIId=28081>

468. The Commission will have power to make its own proposals following a direction by it, if the time for the local authority or governing body to make proposals has expired or they have published proposals. In the event of objections to proposals from the Commission, the matter has to be decided by the Welsh Ministers. Otherwise the Commission must determine whether they should be implemented.
469. These amendments are as a consequence of the Commission's responsibility for securing the provision of proper facilities for education and training for learners aged 16 - 19 (see section 93).
470. Paragraph 30 amends section 162 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 which provides that a local authority must make arrangements to promote co-operation between the local authority, each of the authority's 'relevant partners' and other bodies who are engaged in activities relevant to adults in need of care and support.
471. The Commission, and the Welsh Ministers, are each defined as a relevant partner to the extent they are exercising their functions under section 92, 93, 94, 95, 97 or 103(1) of the Act.
472. Paragraph 40 amends the Welsh Language Standards (No 6) Regulations 2017, replacing the reference to the Higher Education Funding Council for Wales in regulation 3(4) with the Commission for Tertiary Education and Research.

Section 148: Coming into force

473. Subsection (1) brings sections 140 to 146 of the Act into force the day after the day of Royal Assent.
474. All other provisions of the Act come into force by order made by the Welsh Ministers (subsection (1)). Subsection (3) allows orders that bring provisions into force to appoint different days for different purposes and to make transitory, transitional and saving provision in connection with bringing provisions into force.

Section 149: Short title

475. Section 149 provides that the short title of the Act is the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022.
476. This section also adds the Act to the list of Education Acts set out in section 578 of the Education Act 1996.

RECORD OF PROCEEDINGS IN SENEDD CYMRU

477. The following table sets out the dates for each stage of the Act's passage through the Senedd. The Record of Proceedings and further information on the passage of this Act can be found on the Senedd website at:
<https://business.senedd.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=28081>

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (dsc 1)
a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 8 Medi 2022*

Cyfnod	Dyddiad
Cyflwynwyd	1 Tachwedd 2021
Cyfnod 1 - Dadl	15 Mawrth 2022
Cyfnod 2 - Pwyllgor Craffu - ystyried y gwelliannau	12 Mai 2022
Cyfnod 3 - Cyfarfod Llawn - ystyried y gwelliannau	21 Mehefin 2022
Cyfnod 4 - Cymeradwywyd gan y Senedd	28 Mehefin 2022
Y Cydsyniad Brenhinol	8 Medi 2022

©[®] Hawlfraint y Goron 2022

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Jeff James, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin

*These notes refer to the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022 (asc 1)
which received Royal Assent on 8 September 2022*

Stage	Date
Introduced	1 November 2021
Stage 1 - Debate	15 March 2022
Stage 2 - Scrutiny Committee - consideration of amendments	12 May 2022
Stage 3 - Plenary - consideration of amendments	21 June 2022
Stage 4 - Approved by the Senedd	28 June 2022
Royal Assent	8 September 2022

© Crown copyright 2022

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.



a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein

www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost

TSO

Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN

Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070

Archebion ffacs: 0333 202 5080

E-bost: customer.services@tso.co.uk

Ffôn Testun: 0333 202 5077

TSO@Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company,
and available from:

Online

www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone, Fax & E-mail

TSO

PO Box 29, Norwich, NR3 1GN

Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070


Fax orders: 0333 202 5080

E-mail: customer.services@tso.co.uk

Textphone: 0333 202 5077

TSO@Blackwell and other Accredited Agents

ISBN 978-0-348-12018-9



9 780348 120189